# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | | |
|---|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
| **PWYLLGOR SAFONAU** | | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>17 MEDI, 2019 am 2.00 o'r gloch yp** | | **TUESDAY,<br>17 SEPTEMBER, 2019 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFRNI** | | **COMMITTEE ROOM 1<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs Shirley Cooke<br>01248 752514** | **Committee Officer** |

**<u>Aelodau Annibynnol / Independent Members</u>**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson (Cadeirydd/Chair)
Mr. John Robert Jones

**<u>Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council</u>**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes MBE
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**<u>Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils</u>**

Mr. Keith Roberts
Mr. Iorwerth Roberts

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynasd ag unrhyw eitem of fusnes.

2 **PENODI PEDWAR O AELODAU CYFETHOLEDIG NEWYDD O'R CYHOEDD AC UN CYNGHORYDD SIR I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 1 - 4)

Copi o adroddiad a gyflwynwyd gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau i Gyngor Sir Ynys Môn ar 10 Medi, 2019.

3 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 5 - 16)

Cadarnhau cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019, gan gynnwys unrhyw faterion yn codi.

4 **DATBLYGU A HYFFORDDIANT AELODAU** (Tudalennau 17 - 28)

Adroddiad gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar hyfforddiant Aelodau.

5 **MATERION YN YMWNEUD AG AELODAU** (Tudalennau 29 - 30)

Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn darparu diweddariad ar amryw o faterion yn ymwneud ag Aelodau.

6 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 31 - 36)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) mewn perthynas â :-

(a) Cynghorwyr Sir, a
(b) Chynghorwyr Tref/Cymuned
ar gyfer Chwarter 4 o 2018/19 a Chwarter 1 o 2019/2020.

7 **PENDERFYNIADAU GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 37 - 50)

Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar benderfyniadau diweddaraf OGCC yn ei Lawlyfrau Côd Ymddygiad ar gyfer Chwefror 2019 a Mai 2019.

8 **PENDERFYNIADAU GAN BANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 51 - 54)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar benderfyniadau diweddaraf PDC yng Nghymru.

9 **CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG** (Tudalennau 55 - 280)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn manylu ar y ceisiadau am Ganiatad Arbennig a ystyriwyd gan Banel o'r Pwyllgor Safonau ers ei gyfarfod diwethaf.

10 **ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU AELODAU ETHOLEDIG A CHYFETHOLEDIG CSYM** (Tudalennau 281 - 288)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr adolygiadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ystod Mehefin 2019.

**11 ADRODDIAD O GYFARFOD FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU AR 24 MEHEFIN, 2019** (Tudalennau 289 - 352)

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ar gyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin, 2019.

**12 YMATEBION GAN Y CYNGHORAU CYMUNED YNGHYLCH:-** (Tudalennau 353 - 474)

**12.1 ADOLYGIAD O GOFRESTRAU Y CYNGHORAU CYMUNED YN 2018/2019**

**12.2 HYFFORDDIANT AR GYFER CYNGHORWYR CYMUNED A CHLERCOD**

Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro yn manylu ar yr ymatebion sydd wedi eu derbyn gan y Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch ceisiadau am wybodaeth.

**13 ADOLYGIAD O GYNSEILIAU/NODIADAU BRIFFIO I'W CYMERADWYO GAN Y PWYLLGOR:-** (Tudalennau 475 - 570)

**13.1 NODYN BRIFFIO AR GANIATADAU ARBENNIG**

**13.2 NODYN METHODOLEG AR ADOLYGIAD O GOFRESTRAU Y CYNGHORAU CYMUNED**

**13.3 CYLCH GORCHWYL / CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn gofyn am gadarnhâd y Pwyllgor ynghylch tri o’i gyhoeddiadau.

**14 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

O dan Adran 100(A)(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae’r wasg a’r cyhoedd i’w heithrio o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon ar y sail y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i’r Cyngor gan Adran o’r Llywodraeth ar delerau sy’n gwahardd ei datgelu’n gyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu’n gyhoeddus drwy Orchymyn Llys. Nid yw’r eithriad yn ddibynnol ar Brawf Budd y Cyhoedd.

**15 I YSTYRIED YR YMATEB SYDD WEDI EI DDERBYN GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU MEWN LLYTHYR DYDDIEDIG 13 AWST 2019** (Tudalennau 571 - 578)

Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ynghylch yr ohebiaeth sydd wedi ei derbyn gan OGCC.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 10.09.2019 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi pedwar o aelodau cyfetholedig newydd o'r cyhoedd ac un Cynghorydd Sir i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | Cadarnhau argymhelliad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r pedwar aelod cyfetholedig a phenodi Cynghorydd Sir |

**CEFNDIR**

1. Dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006), rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau ac arno ddim mwy na 9 o aelodau a rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau hynny fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 5 o aelodau annibynnol, 2 o gynghorwyr cymuned a 2 gynghorydd sir.

**PENODI PEDWAR AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

3. Daw tymor pedwar o'r pump aelod annibynnol sydd ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd i ben ar 19 Rhagfyr 2019. Bydd y pedwar wedi cwblhau dau dymor, sef yr uchafswm statudol. Penodwyd y pumed aelod, Mr John Robert Jones, ym mis Rhagfyr 2017 a bydd ef yn parhau i fod yn aelod.

4. Yn unol â'r Rheoliadau Statudol, rhaid i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor ond dim ond ar ôl cydymffurfio gyda phroses ddethol statudol. I gynnal y broses recriwtio a dethol hon, mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; sy'n cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynrychiolydd o blith y cynghorwyr tref a chymuned a thri o gynghorwyr sir. Ni chaiff unrhyw aelod o'r Panel Dethol fod yn aelod hefyd o'r Pwyllgor Safonau.

5. Mewn cyfarfod o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2019, cymeradwyodd y Panel y broses recriwtio ac fe hysbysebwyd y swyddi gweigion ar wefan y Cyngor, Twitter a Facebook (o 29.04.2019 i 17.05.2019), North Wales Chronicle (ar 02.05.2019 ac ar 09.05.2019) a'r Bangor and Anglesey Mail (ar 01.05.2019 ac ar 08.05.2019).

6. Roedd y dyddiad cau ar 17 Mai 2019 ac fe wnaeth Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ystyried y ceisiadau a dderbyniwyd mewn proses tynnu rhestr fer a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2019. Rhoddodd y Panel 7 ymgeisydd ar y rhestr fer a'u gwahodd i gyfweliad.

7. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar 29 a 30 Gorffennaf 2019 ac fe gytunodd y Panel i enwebu pedwar o unigolion i gael eu penodi ar gyfer rôl aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau (yn ôl trefn yr wyddor):

   **Mr Thomas Rhys Davies**
   **Mrs Celyn Menai Edwards**
   **Mrs Gill Murgatroyd**
   **Mrs Sharon Warnes**

   Gwnaed y penderfyniad yn seiliedig ar ffurflenni cais yr ymgeiswyr, eu cwestiynau cyfweliadau wedi'u sgorio a'r geirdaon.

8. Yn ogystal, penderfynodd y Panel, petai swydd wag achlysurol bellach yn codi am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeg mis nesaf, y dylid penodi **Mrs Pauline Vella** yn awtomatig i'r rôl hon heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bob amser fod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl.

9. Hoffai'r Panel achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl ymgeiswyr am gymryd yr amser i gyflwyno eu ceisiadau, yn arbennig felly'r ymgeiswyr a fynychodd y cyfweliadau oherwydd roedd y safon yn uchel ac roedd pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn gymwys i'r rôl.

## <u>PENODI DAU GYNGHORYDD SIR I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU</u>

10. Mae'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn gymwys i barhau yn ei rôl fel Aelod o'r Cyngor Sir o'r Pwyllgor Safonau tan 2022.

11. Yn achos y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes, mae'n sefyll i lawr o'i rôl fel cynrychiolydd y Cynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Safonau. Felly, bydd angen i'r Cyngor enwebu Cynghorydd yn ei le ar y Pwyllgor Safonau.

12. Mae rhai materion statudol y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ynghylch pwy ddylai gael eu henwebu fel cynrychiolydd y Cynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Safonau:

    12.1 Nid oes angen cydbwysedd gwleidyddol ar y Pwyllgor Safonau (oherwydd ei gyfansoddiad mwyafrifol annibynnol).

    12.2 Ni fedrir enwebu'r Arweinydd.

12.3 Oherwydd y ffaith bod un o gynrychiolwyr y Cynghorwyr Sir ar y Pwyllgor Safonau yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, ni fedr yr ail gynrychiolydd hefyd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

**ARGYMHELLION**

Bod y Cyngor:

13. Yn derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-

13.1 penodi **Mr Thomas Rhys Davies, Mrs Celyn Menai Edwards, Mrs Gill Murgatroyd** a **Mrs Sharon Warnes** fel aelodau annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau o 20 Rhagfyr 2019 ymlaen; am hyd at ddau dymor, fel sy'n cael ei ganiatau yn statudol ac yn y Cyfansoddiad;

13.2 petai swydd wag achlysurol bellach yn codi am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y deuddeg mis nesaf, y dylid penodi **Mrs Pauline Vella** yn awtomatig i'r rôl hon heb yr angen am broses recriwtio bellach, ar yr amod bob amser fod Mrs Vella yn parhau i fod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl.

14. Mewn perthynas â chynrychiolwyr y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau:

14.1 Cadarnhau bod y **Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** yn parhau i wasanaethu fel un o gynrychiolwyr y Cynghorwyr Sir tan yr etholiad nesaf yn 2022;

14.2 Enwebu un Cynghorydd Sir i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, hyd at yr etholiad nesaf yn 2022 i gychwyn ond bydd yn gallu gwasanaethu am un tymor pellach dilynol.

15. Cadarnhau bod y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn cael yr awdurdod i gynnwys cyfeiriad at Banel Dethol y Pwyllgor Safonau, yng Nghyfansoddiad y Cyngor, er mwyn osgoi'r angen am "ddapraiaeth wrth gefn" yn adroddiad strwythur pwyllgorau sy'n cael ei gadarnhau gan y Cyngor yn ei gyfarfod blynyddol.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Jones (Is-gadeirydd) |
| | Ms Denise Harris-Edwards<br>Mr John R Jones<br>Mrs Dilys Shaw |
| | **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir** |
| | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes MBE<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer Eitem 4)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol (ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION CYFARFOD**

Cadarnhawyd cofnodion drafft y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018, fel rhai cywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

Mae'r Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) wedi darparu dogfen "materion yn codi" i holl aelodau'r Pwyllgor Safonau yn rhoi manylion am y camau gweithredu a gymerwyd yn unol â chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2018.

Fe wnaeth y drafodaeth ganolbwyntio ar y materion canlynol:-

**Eitem 5 – Adolygiad y Pwyllgor Safonau o Gofrestrau'r Aelodau**

- Roedd y Cadeirydd wedi mynychu cyfarfod Arweinyddion Grŵp mewn perthynas â Chynghorydd a enwyd, nad oedd wedi adolygu ei Gofrestr o Ddiddordebau, ac nid oedd ychwaith wedi cysylltu â'r aelod o'r Pwyllgor Safonau a oedd wedi adolygu ei Gofrestr o Ddiddordebau ac wedi gofyn i gael trafod y canfyddiadau. Er i'r mater gael ei godi, ac er i ni anfon e-bost at yr Arweinydd Grŵp dan sylw, ni chlywyd unrhyw beth ganddo ef chwaith mewn perthynas â'r mater hwn.

  Penderfynodd y Pwyllgor nad oeddent am gymryd unrhyw gamau pellach ar y pwynt hwn, ond y byddent yn codi'r sefyllfa eto gyda'r aelod perthnasol yn ystod yr adolygiad o'r cofrestrau ar gyfer 2019 sydd ar y gweill.

- Dywedodd y Swyddog Monitro fod TGCh wedi cysylltu â Mod.Gov sawl gwaith, ond nid ydynt wedi derbyn ymateb eto. Darllenwyd yr e-bost diweddar oddi wrth y Rheolwr Gwasanaethau Digidol i'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid mynd ar ôl hyn ymhellach oherwydd fe hoffai'r Pwyllgor ateb terfynol.

**PENDERFYNWYD peidio mynd ar ôl y mater cyntaf a grybwyllir uchod, ond i swyddogion fynd ar ôl yr ail fater ymhellach.**

**Gweithredu: Parhau i geisio cael ymateb gan Mod.Gov ar y ddarpariaeth o naratif.**

- Mewn perthynas â chynnig y Pwyllgor Safonau ar gyfer adolygiad 2019 o'r cofrestrau a dogfennau eraill sy'n ymwneud ag Aelodau Etholedig, a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019, **PENDERFYNWYD cytuno i gynnull cyfarfod, yn dilyn y cyfarfod ffurfiol hwn o'r Pwyllgor, i drafod cynigion y Pwyllgor Safonau ar gyfer adolygiad 2019.**

**Eitem 11 – Nodyn Cynghori ar y Fethodoleg ar gyfer Adolygu Cofrestrau Diddordeb yr Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig**

Nodwyd fod y Nodyn Cynghori uchod wedi cael ei addasu a'i gylchredeg i aelodau'r Pwyllgora Safonau.

**Gweithredu: Anfon y linc i'r Nodyn Cynghori ar y Fethodoleg i holl Aelodau'r Cyngor ac aelodau annibynnol.**

**Eitem 12 – Rhoddion a Lletygarwch – Nodyn Briffio i Aelodau**

Adroddwyd nad yw'r Cadeirydd eto wedi cyflwyno'r Nodyn Brifio sy'n cyd-fynd â'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch i'r Arweinyddion Grwpiau.

Nodwyd fod y Protocol wedi cael ei adolygu, a bod y Swyddog Monitro wedi argymell oedi cyn ei gylchredeg i Aelodau, oherwydd faint o wybodaeth sy'n cael ei anfon i'r Aelodau ar hyn o bryd.

**Eitem 13 – Hawliau Unigol fel Aelodau – Nodyn Briffio i Aelodau –** mae'r argymhelliad uchod yn sefyll ar gyfer yr eitem hon hefyd.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn y cynigion uchod gan y Swyddog Monitro.**

**Gweithredu: Cylchredeg Eitemau 12 ac 13 uchod ar y sail a awgrymwyd gan y Swyddog Monitro.**

**Eitem 17 – Cynghorau Tref a Chymuned yn Mabwysiadu'r Protocol Datrysiad Lleol**

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau yn cael ei gynnal yn Sir y Fflint ar ddyddiad i'w gadarnhau, ac y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn codi'r mater hwn yn y Fforwm nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r uchod.**

**Gweithredu: Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i godi'r mater hwn yn nghyfarfod nesaf y Fforwm Pwyllgorau Safonau rhanbarthol.**

## 3. DATBLYGIAD A HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y cyfleoedd datblygu a gynigiwyd i Aelodau etholedig ers cyflwyno'r adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor hwn ar 12 Medi 2018.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu AD fod 10 o sesiynau datblygu ffurfiol ychwanegol wedi cael/yn cael eu cynnig i Aelodau rhwng 12 Medi 2019 a Mawrth 2019, yn ymwneud ag ystod o feysydd pwnc, rhai ohonynt yn fandadol. Nodwyd fod nifer dda wedi mynychu'r Sesiynau Sgriwtini ar Ddatblygu Aelodau.

Adroddodd y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol ar y canlynol:-

- Yn ystod 2019/20 bwriedir datblygu a marchnata E-ddysgu ymhellach er mwyn annog yr Aelodau i gynyddu eu defnydd o'r modiwlau. Nodwyd y gellid newid y llwyfan mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd am fersiwn mwy llyfn, sy'n haws cael mynediad ati. Yn y cyfamser mae AD yn gwneud gwaith gyda CLlLC a'r Bwrdd Iechyd i wella'r system gyfredol.
- Cafodd holiadur sgiliau TGCh ei gylchredeg i'r holl Aelodau ym mis Ionawr i sefydlu anghenion hyfforddiant. Mae'r adborth wedi'i ddwyn ynghyd a bydd sesiynau hyfforddiant pwrpasol yn cael eu trefnu i gwrdd ag anghenion hyfforddiant unigol yr Aelodau. Mynegwyd pryder nad oedd wedi bod yn bosib cael mynediad i wybodaeth benodol trwy I-pads, yn arbennig y modiwlau E-ddysgu. Nodwyd fod staff AD yn gweithio'n agos gyda'r tîm TGCh ar ddarpariaeth amgen i wneud y broses yn haws i ddefnyddwyr.
- Mae rhai Aelodau wedi mynegi yr hoffent fynd ar hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol pellach ar Twitter a Facebook.

- Amlygwyd yr angen i Aelodau gofnodi eu hyfforddiant ar-lein yn syth ar ôl mynychu unrhyw sesiynau hyfforddiant. Cafwyd cais i gael ffordd i'r Aelodau allu cofnodi hyfforddiant yn electronig.
- Mewn perthynas ag Adolygiadau Datblygiad Personol (ADP), roedd rhywfaint o adborth wedi'i dderbyn gan yr Arweinyddion Grwpiau. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn monitro cynnydd trwy gyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y Rhaglen Ddatblygu ar gyfer 2019/20. Bydd adborth a gafwyd ar anghenion datblygu yr Aelodau o ADP, arweiniad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Arweinyddion Grwpiau yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen. Bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mawrth 2019, ac wedi hynny gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg presenoldeb gan Aelodau mewn rhai sesiynau hyfforddiant, a'r angen i roi sylw i'r mater hwn. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod yr Arweinyddion Grwpiau yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am y cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i'r Aelodau.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un a fyddai'r Aelodau efallai'n wynebu canlyniadau am beidio mynychu hyfforddiant mandadol. Ymatebodd y Swyddog Monitro nad oes unrhyw gosbau clir am beidio mynychu, ond eglurodd y gallai'r Pwyllgor Safonau gyhoeddi data cydymffurfiaeth o'r fath mewn adroddiad i'r Pwyllgor Safonau, petaent yn dymuno gwneud hynny. Nid oedd y Pwyllgor yn ffafrio'r opsiwn hwn a theimlai fod gan Arweinyddion Grŵp gyfrifoldeb i sicrhau bod Aelodau'n mynychu'r hyfforddiant y mae arnynt ei angen i gyflawni eu rôl, yn enwedig hyfforddiant mandadol.

Soniodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am yr angen i sicrhau bod y pedwar aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r ddau aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cael y cyfle i fynychu sesiynau hyfforddiant. Nodwyd fod sesiwn hyfforddiant wedi'i threfnu gan y Swyddogion Sgriwtini ar gyfer yr aelodau cyfetholedig Sgriwtini ar 9 Ebrill 2019.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar arfer orau i sicrhau bod aelodau annibynnol yn derbyn gwybodaeth am sesiynau hyfforddiant. Awgrymwyd, a derbyniwyd gan y Pwyllgor, yn ogystal â'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor, y dylid hefyd gynhyrchu amserlen chwarterol o sesiynau hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau etholedig a'i hanfon ymlaen at y Swyddogion Arweiniol ar gyfer Safonau, Sgriwtini ac Archwilio a Llywodraethu fel y gallant adnabod unrhyw hyfforddiant corfforaethol a fyddai'n berthnasol i'w haelodau cyfetholedig, ac yna gwneud trefniadau iddynt fynychu'r hyfforddiant hwnnw. Nid ystyriwyd ei bod yn ddoeth anfon y rhestr gyfan o gyfleoedd hyfforddiant i'r holl aelodau cyfetholedig oherwydd efallai na fyddai'n glir iddynt pa sesiynau hyfforddiant fyddai'n briodol a pha rai na fyddai'n briodol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r cynnydd a wnaed o ran Datblygu Aelodau.**

- **Y Rheolwr Datblygu AD i anfon ffurflenni electronig ar gyfer gwerthuso hyfforddiant ymlaen i'r Aelodau pan fydd yn cylchredeg gwybodaeth am sesiynau hyfforddiant.**
- **Y Cadeirydd i godi'r mater o diffyg presenoldeb gan Aelodau mewn sesiynau hyfforddiant yng nghyfarfod nesaf yr Arweinyddion Grwpiau.**
- **Y Cadeirydd i wneud cais fod yr Arweinyddion Grwpiau yn trafod gydag Aelodau unigol eu rhesymau am beidio mynychu sesiynau hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant mandadol.**
- **Cylchredeg rhestr chwarterol o gyrsiau hyfforddiant i'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (y Rheolwr Sgriwtini), y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (y Pennaeth Archwilio a Risg) a'r Pwyllgor Safonau (y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro) fel y gallant ei hanfon ymlaen, fel bo'n briodol, i bob aelod cyfetholedig.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 4. MATERION AELODAU

Cyflwynwyd – diweddariad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y materion canlynol sy'n ymwneud â'r Aelodau:-

- Gan gyfeirio at Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2017/18, nodwyd bod 29 o Aelodau wedi cwblhau a chyhoeddi eu hadroddiadau ar-lein bellach.
- Cafodd y mater o Aelod oedd heb gwblhau ei Gofrestr o Ddiddordebau ei drafod yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â'r mater, ac rydym bellach wedi derbyn cadarnhad fod yr Aelod dan sylw wedi ymateb i gais y Cadeirydd.
- Disgwylir Mesur Llywodraeth Leol newydd ar ddiwedd 2019. Nodwyd nad yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd y newidiadau o ran disgwyliadau a gofynion ar aelodau etholedig mewn perthynas â pherfformiad/cyhoeddi gwybodaeth; na sut bydd y rhain yn cael eu rheoli.
- Trefnwyd y bydd yr Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2019.
- Nodwyd nad oedd y bwriad i ailgyflwyno cais y Cyngor am y Siarter Cefnogi a Datblygu Aelodau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi digwydd yn ystod Chwarter 3, 2018/19; yn groes i'r ymrwymiad blaenorol, oherwydd penderfynwyd fod angen i'r Strategaeth Datblygu Aelodau am y 3 blynedd nesaf fod mewn lle cyn cyflwyno'r cais. Bydd y Strategaeth Datblygu Aelodau am y 3 blynedd nesaf yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Mawrth 2019 i'w chymeradwyo, ac wedyn caiff ei chyflwyno i CLlLC, gyda'r cais am statws siarter, erbyn diwedd mis Mawrth 2019.
- Gan gyfeirio at y gwiriadau GDG, mae'r holl Aelodau wedi cwblhau'r broses gofrestru. Bydd y gwiriadau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â gofynion y polisi.
- Mae Bywgraffiadau'r Aelodau nawr ar gael ar wefan y Cyngor ac maent yn cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd Pwyllgor a chofnodion hyfforddiant.

Fodd bynnag, tra bod y wybodaeth am bresenoldeb yn cael ei diweddaru'r awtomatig, bydd angen i'r Aelodau ddiweddaru eu gwybodaeth eu hunain yn rheolaidd ar hyfforddiant.

- Mewn perthynas ag aelodaeth yr Aelodau ar gyrff allanol, mae dolenni bellach ar gael ar wefan y Cyngor. Nodwyd y bydd angen adolygu'r atodlen o gyrff allanol mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion Grwpiau a'i hadrodd i'r Cyngor ym mis Mai 2019. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn monitro gwaith y prif bartneriaethau ar Raglen Waith y Pwyllgor.
- Nodwyd nad oes cyfleuster ar y system Modern.Gov i aelodau cyfetholedig allu cyhoeddi eu datganiadau o ddiddordeb ar-lein.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Unwaith y daw disgwyliadau'r Mesur Llywodraeth Leol newydd yn glir, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y disgwyliadau hynny yn ei adroddiad nesaf i'r Pwyllgor Safonau, a sut y byddant yn cael eu mesur, eu monitro, eu hadrodd a'u cefnogi.**
- **Bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cylchredeg copi o'r cais am Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau gan CLlLC i aelodau'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth yn unig**.
- **Nodi pob cynnydd arall fel y manylir yn yr adroddiad.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

**5. CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y diweddariad chwarterol am gwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ffurf matrics, ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Adroddodd y Swyddog Monitro na chyflwynwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir Ynys Môn yn ystod Chwarter 2, 2018/19 (Gorffennaf i Medi 2018). Nododd fod un cwyn wedi'i gwneud yn erbyn Cynghorydd Tref a Chymuned am yr un cyfnod, ac mae'r Ombwdsmon yn ystyried y gŵyn honno.

Nodwyd na chyflwynwyd unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Sir Ynys Môn ar gyfer Chwarter 3, 2018/19 (Hydref i Ragfyr 2018).

Adroddodd y Swyddog Monitro, ers mis Rhagfyr, fod dwy gŵyn arall wedi'i derbyn yn erbyn yr un Cyngor Tref a Chymuned, un gan aelod o'r cyhoedd, a'r llall gan aelod etholedig. Cafodd un o'r cwynion ei gwrthod, ac mae'r llall dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

*Gadawodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas y cyfarfod am 3.15 pm*

Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd un gŵyn wedi cael ei datrys o fewn cyfnod targed yr Ombwdsmon o chwe mis.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
  **Bodd y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at yr Ombwdsmon yn mynegi pryder y Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r oedi wrth gwblhau ei ymchwiliad i'r gŵyn hon yn erbyn Cynghorydd Tref a Chymuned, gan i'r gŵyn gael ei chyflwyno ym mis Awst 2018.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

**6. PENDERFYNIADAU OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn crynhoi'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ei Lyfrau Achosion chwarterol o gwynion o dan y Cod Ymddygiad.

Roedd y cwynion yr oedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt yn ymwneud â honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad i Aelodau, fel roedd wedi'i gynnwys yn ei Lyfrau Achosion chwarterol ar gyfer Gorffennaf a Hydref 2018.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) at gŵyn a wnaed yn erbyn aelod o Gyngor Tref Saltney mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad yng nghyswllt eithriad (i bob pwrpas, eithriad yw caniatâd arbennig sydd wedi'i ymgorffori yn y Cod). Roedd y Cynghorydd wedi gofyn am gyngor gan swyddog ac wedi cael cyngor. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg o'r crynodeb p'un a gredai'r Ombwdsmon fod cyngor y swyddog yn gywir ai peidio, oherwydd y data annigonol a gyflwynwyd fel rhan o grynodeb yr Ombwdsmon. Awgrymwyd bod y Pwyllgor Safonau yn cysylltu â'r Ombwdsmon i gael eglurhad ynghylch p'un a oedd y cyngor a roddwyd yn gywir ai peidio.

Cyfeiriwyd at gŵyn a wnaed gan unigolyn yn erbyn Cynghorydd o Gyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â thorri'r Cod Ymddygiad. O'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, nid oedd yn glir p'un a oedd yr achwynydd yn swyddog, yn aelod neu'n drydydd parti.

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau sylw hefyd at gofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Hwlffordd ar 5 Medi, 2018, oedd yn nodi bod Cynghorydd a oedd wedi torri'r Cod, ac wedyn wedi ymddeol o'r Cyngor, wedi derbyn cerydd cyhoeddus am ei ymddygiad.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiad a'r atodiadau.**
- **Bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu at yr Ombwdsmon i geisio:**

  - **eglurhad ynghylch a oedd y cyngor a roddwyd i aelod o Gyngor Tref Saltney yn gywir mewn gwirionedd.**

- **cadarnhad ynghylch a oedd yr achwynydd yn achos Cyngor Sir Ceredigion yn swyddog, yn aelod neu'n drydydd parti.**
- **yn amodol ar yr ymateb gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chyngor Tref Saltney, bod y Swyddog Monitro yn ceisio cael gwybodaeth bellach os oes angen gan Glerc Cyngor Tref Saltney, ar y sail y byddai'r fath wybodaeth yn cael ei golygu a'i rhannu'n gyfrinachol gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth yn unig.**
- **Ar ôl cael digon o wybodaeth, bod y Swyddog Monitro yn trafod canlyniad achos Cyngor Tref Saltney gyda'r Swyddogion Monitro rhanbarthol eraill.**

**Gweithredu: Gweler y Penderfyniad uchod**

## 7. PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ac a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 12 Medi 2018.

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) fod un achos wedi'i adrodd i'r Panel, oedd yn ymwneud â chyn Gynghorydd Sir o Gyngor Sir Fynwy yn torri'r Cod Ymddygiad, am ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i eraill, ac wedi anfon e-byst at Brif Weithredwr Cyngor Sir Fynwy oedd yn cynnwys datganiadau homoffobig. Cafodd yr achos yn erbyn y Cynghorydd ei adrodd yng nghyswllt ei rôl fel Chynghorydd Cymuned, nid fel Cynghorydd Sir.

Roedd yr Ombwdsmon wedi codi'r mater yn y Gynhadledd Pwyllgorau Safonau, lle teimlwyd yn gyffredinol fod penderfyniad y Panel Dyfarnu i wahardd y Cynghorydd am ddau fis, yn rhy drugarog. Roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau hefyd yn teimlo nad oedd y gwaharddiad yn ddigon.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r crynodeb o'r achos.**

**Gweithredu: Dim**

## 8. PANEL DYFARNU CYMRU (PDC) – CANLLAW AR GOSBAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y Canllaw Cosbau newydd a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru, ac a ddaw i rym ar 1 Medi 2019.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod copi o'r Canllaw wedi'i gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 4 Hydref 2018. Dywedodd efallai na fyddai'r Canllaw ond yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau pan fydd yn ystyried cyfeiriad gan yr Ombwdsmon mewn perthynas ag achos o dorri'r Cod Ymddygiad. Nodwyd fod y Pwyllgor Safonau yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r Canllaw a gyhoeddwyd gan PDC pan fydd yn delio gyda chwynion ac yn pennu cosbau.

Tynnodd yr Is-gadeirydd sylw at y ffaith fod y gair 'cosbi' yn cael ei ddefnyddio yn y Canllaw ar Gosbau. Teimlai y dylai'r geiriad gael ei addasu i ddarllen 'hyrwyddo ymddygiad da' yn hytrach na chosbi.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y Canllaw ar Gosbau.**
- **Nad oes gofyn i aelodau cyfredol y Pwyllgor Safonau fynd ar hyfforddiant ar y Canllaw ar Gosbau (er hyn, efallai y daw hyn yn berthnasol petai'r Pwyllgor yn derbyn cyfeiriad gan yr Ombwdsmon); ond,**
- **Dylid darparu hyfforddiant i unrhyw aelodau newydd o'r Pwyllgor Safonau ar ôl mis Ionawr 2019.**

**9. CEISIADAU AM GANIATÂD ARBENNIG**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn rhoi manylion am y ceisiadau am ganiatâd/au arbennig a gafodd eu hystyried gan Banel Caniatâd Arbennig y Pwyllgor Safonau er cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro ar y ceisiadau canlynol am ganiatâd/au arbennig:-

- 28 Ionawr, 2019 – rhoddwyd caniatâd arbennig heb gyfyngiadau i Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â diddordebau sy'n rhagfarnu yng nghyd-destun y rhaglen moderneiddio ysgolion yn nalgylch Amlwch a'r prosiect moderneiddio ar gyfer Addysg Ôl-16 yn y Sir.
- 7 Mawrth 2019 – rhoddwyd caniatâd arbennig bloc i 8 aelod o Gyngor Cymuned Llaneilian i oresgyn nifer o wahanol ddiddordebau sy'n rhagfarnu mewn perthynas â'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn nalgylch Amlwch.
- Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ar ganiatadau arbennig eraill a nodwyd yn 3.3 (Cyngor Cymuned Llaneilian) a 3.4 (caniatâd arbennig bloc gan 5 aelod o'r Pwyllgor Gwaith) yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi, 2019.

Nodwyd fod gwrandawiad wedi'i drefnu ar gyfer 22 Mawrth 2019 i ystyried cais bloc am ganiatâd arbennig gan 5 Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n neiniau/teidiau i bobl ifanc ar Ynys Môn a allai gael eu heffeithio gan unrhyw benderfyniad ar y prosiect moderneiddio ar gyfer Addysg Ôl-16.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi'r caniatadau arbennig a roddwyd a'r seiliau a'r amgylchiadau y rhoddwyd hwy ynddynt.**
- **Bod cofnodion drafft y Panel Caniatadau Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019, wedi cael eu cadarnhau'n gywir gan aelodau'r Panel yn unig (Michael Wilson, Denise Harris-Edwards a John R Jones).**
- **Bod y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ar ganiatadau arbennig eraill a nodwyd yn 3.3 (Cyngor Cymuned Llaneilian) a 3.4**

**(caniatâd arbennig bloc gan 5 aelod o'r Pwyllgor Gwaith) yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi, 2019.**

- **Bod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno i newid i'r Ffurflen Gais/Caniatâd Safonol am Ganiatâd Arbennig i gynnwys cyfeiriad pendant fel rhan o'r gwymplen "caniatâd", i ganiatáu i Aelod sy'n cael caniatâd arbennig gymryd rhan ym mhob cyfarfod cyhoeddus, cyfarfodydd cyrff allanol a chyfarfodydd anffurfiol ac ati. Cytunwyd i gynnwys y geiriad canlynol ar y ffurflen: *"os yn berthnasol, i gynnwys cyfranogiad llawn mewn cyfarfodydd cyhoeddus, cyfarfodydd unrhyw gyrff allanol ac unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau eraill nad ydynt wedi eu nodi'n benodol yn y caniatâd arbennig".***

## 10. CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – Y PRAESEPT A HYFFORDDIANT I GLERCOD

Cyflwynwyd – adroddiad diweddaru yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 12 Medi 2018, lle trafodwyd y mater o gynnwys swm ar gyfer hyfforddiant (Clercod ac aelodau) yn y swm praesept sy'n cael ei osod gan bob Cyngor Tref a Chymuned.

Adroddodd y Cyfreithiwr yr anfonwyd gohebiaeth ar 6 Tachwedd 2018 at 16 o Gynghorau Tref a Chymuned a oedd eisoes wedi ymateb yn gadarnhaol i e-bost yn gofyn iddynt gynnwys swm ar gyfer hyfforddiant wrth osod y praesept. Derbyniwyd 12 ymateb allan o'r 16 ac mae pob Cyngor Tref a Chymuned sydd wedi ymateb wedi cynnwys elfen o hyfforddiant yn y praesept. Nodwyd na fu unrhyw gyswllt pellach gyda'r 24 o Gynghorau Tref a Chymuned nad oedd wedi ymateb i gais y Pwyllgor Safonau.

Awgrymwyd anfon llythyr gan y Pwyllgor Safonau at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn amgáu matrics sy'n rhoi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd, ac yn enwi'r Cynghorau sydd heb ymateb, er mwyn amlygu pwysigrwydd yr hyn mae'r Pwyllgor yn ei ofyn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â'r Cynghorau Tref a Chymuned.**
- **Anfon llythyr gan y Pwyllgor Safonau at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned ac aelodau'r Pwyllgor Safonau yn amgáu matrics sy'n rhoi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd, ac yn enwi'r Cynghorau sydd heb ymateb, er mwyn amlygu pwysigrwydd yr hyn mae'r Pwyllgor yn ei ofyn.**

## 11. ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEB Y CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Gorfforaethol) ar adolygiadau a wnaeth y Pwyllgor Safonau mewn pum Cyngor Tref a Chymuned yn ystod mis Rhagfyr 2018, a Ionawr a Chwefror 2019, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Yn dilyn yr adolygiad, anfonwyd llythyr personol at Glerc a Chadeirydd pob Cyngor Tref a Chymuned a gymerodd ran, yn rhoi cyngor penodol iddynt.

Trafododd y Pwyllgor yr opsiynau oedd ar gael mewn perthynas â dosbarthu'r adroddiad cyffredinol a baratowyd ym mis Chwefror 2019 i holl aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned yn rhoi manylion am ganlyniad yr ymarfer.

Cadarnhau y gellir anfon yr adroddiad a baratowyd ym mis Chwefror 2019 at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned, gyda chais eu bod yn trafod yr adroddiad mewn cyfarfod o'r Cyngor Tref neu Gymuned a bod copi o'r cofnodion yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Safonau.

Bod y Swyddog Monitro yn paratoi adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2019, yn rhoi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd.

Bod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno i'r Cyfreithiwr (Llywodraethiant Gorfforaethol) adolygu'r Nodyn Cyngor Methodoleg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ym mis Medi 2018 a'r Nodyn Cyngor ar Ddiddordebau Personol ac sy'n Rhagfarnu i Gynghorau Tref a Chymuned a ddylai gael ei gylchredeg gyda'r Nodyn Cyngor y cyfeirir ato ym mhwynt bwled 2 uchod.

Atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned y bydd gwybodaeth ynglŷn â chynigion y Pwyllgor Safonau uchod yn cael ei chofnodi yn nghofnodion y cyfarfod hwn a'i chyhoeddi ar-lein.

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad.**
- **Cadarnhau y gellir anfon yr adroddiad a baratowyd ym mis Chwefror 2019 at yr holl Gynghorau Tref a Chymuned, gyda chais eu bod yn trafod yr adroddiad mewn cyfarfod o'r Cyngor Tref neu Gymuned a bod copi o'r cofnodion yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Safonau.**
- **Bod y Swyddog Monitro yn paratoi adroddiad diweddaru i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2019, yn rhoi manylion yr ymatebion a dderbyniwyd.**
- **Derbyn newidiadau i'r Nodyn Briffio yn yr adroddiad.**
- **Bod y Pwyllgor Safonau wedi cytuno i'r Cyfreithiwr (Llywodraethiant Gorfforaethol) adolygu'r Nodyn Cyngor Methodoleg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ym mis Medi 2018 a'r Nodyn Cyngor ar Ddiddordebau Personol ac sy'n Rhagfarnu i Gynghorau Tref a Chymuned a ddylai gael ei gylchredeg gyda'r Nodyn Cyngor y cyfeirir ato ym mhwynt bwled 2 uchod.**
- **Atgoffa Cynghorau Tref a Chymuned y bydd gwybodaeth ynglŷn â chynigion y Pwyllgor Safonau uchod yn cael ei chofnodi yn nghofnodion y cyfarfod hwn a'i chyhoeddi ar-lein.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.20 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR SAFONAU |
| **DYDDIAD** | 17 MEDI 2019 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | HYFFORDDAI DATBLYGU AD / RHEOLWR DATBLYGU AD |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | CHERIE DUFFY/MIRIAM WILLIAMS |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | DARPARU DIWEDDAROAD AR GYNNYDD Y RHAGLEN DATBLYGU AELODAU |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Pwyllgor Safonau â diweddariad ar y cynnydd o ran cyfleoedd datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig ers cyflwyno'r adroddiad ar 13 Mawrth 2019. Mae'r adroddiad hefyd yn mynd i'r afael ag ymholiadau a godwyd yn y cyfarfod.

## 2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Mae'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau yn nodi'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu a gynigwyd i Aelodau Etholedig yn 2019/2020. Mae'r cynllun yn ddogfen sy'n datblygu'n rheolaidd ac a adolygir ac a addasir yn rheolaidd er mwyn bodloni anghenion hyfforddiant Aelodau Etholedig. Y bwriad yw datblygu'r Cynllun Datblygu yn chwarterol ac i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd er mwyn i Swyddogion penodol allu adnabod cyrsiau datblygu addas neu benodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd; yn cynnwys y Pwyllgor Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a chyrsiau priodol ar gyfer bob aelod cyfetholedig. Yn ychwanegol at hyn, mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn y broses o greu taflen chwarterol i'w hanfon at Aelodau Etholedig a fydd yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddiant sydd ar y gweill. Gweler enghraifft yn Atodiad 4.

Ers 13 Mawrth rydym wedi adolygu ac adnabod anghenion dysgu a datblygu ychwanegol ac fe nodir y rhain yn y cynllun hyfforddiant a Datblygu (gweler Atodiad 1). Mae'r sesiynau datblygu ychwanegol hyn yn y broses o gael eu trefnu yn dilyn cyfnod gwyliau'r haf gan ddechrau ym mis Medi 2019. Mae'r pynciau hyn wedi eu hadnabod o ganlyniad i adborth o Adolygiadau Datblygiad Personol (PDR) a

mewnbwn gan yr UDA. Mae'r cynllun hefyd wedi'i gylchredeg ymysg Arweinyddion Grwpiau.

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn agored i drafod unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gaiff ei adnabod ac i addasu'r Rhaglen Hyfforddiant fel bo'n briodol.

## 3. GWERTHUSO'R CWRS

Yn ogystal â dosbarthu ffurflenni gwerthuso'r cwrs ar ddiwedd y cwrs, y bwriad yw anfon fersiwn electronig o'r ffurflen (fel y cytunwyd) mewn ymgais i gael cymaint o adborth â phosibl. Hyd yma, does neb wedi llenwi'r ffurflen adborth yn electronig.

## 4. COFNODI PRESENOLDEB

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu yn cofnodi gwybodaeth am gyrsiau a gynigwyd, cyrsiau a fynychwyd ac a wrthodwyd ac atI o fewn eu systemau AD. Yn ogystal â hyn, bydd Aelodau Etholedig yn cael eu hatgoffa ar ddechrau / diwedd pob cwrs hyfforddiant o'r angen iddynt sicrhau eu bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i gofnodi'r manylion ar eu cofnod hyfforddiant electronig. Unwaith y byddant wedi eu nodi, byddant yn ymddangos ar wefan y Cyngor o dan enw bob Aelod.

## 5. E-DDYSGU

Mae E-ddysgu yn parhau i gael ei hyrwyddo fel modd o gyd-ddatblygiad. Mae manylion y modiwlau a gafodd eu hymgymryd â nhw gan Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi eu nodi yn Atodiad 2.

Mewn cyfarfod diweddar gyda Thîm Datblygu'r GIG nodwyd fod diweddariadau i'r llwyfan E-ddysgu yn ceisio gwella'r profiad ar gyfer y defnyddiwr a'r gweinyddwr ac y bydd y system yn llawer haws i'w defnyddio a chael mynediad iddi yn y dyfodol.

Yn unol â'r diweddariadau hyn, mae mynediad i'r modiwlau E-ddysgu drwy'r iPad hefyd i gael ei ddatblygu. Mae mwyafrif y modiwlau bellach ar gael drwy'r iPad. Gweler Atodiad 1 am restr lawn o'r modiwlau.

Bydd manylion unrhyw ddatblygiadau pellach yn cael eu hanfon allan wrth iddynt godi.

Ynghyd â'r uchod, mae'r tîm Dysgu a datblygu yn gweithio ochr yn ochr â thîm Archwilio'r Awdurdod er mwyn helpu i greu modiwl E-ddysgu Archwilio. Mae'r fenter hon yn ganlyniad uniongyrchol i ymrwymiad a wnaed gan yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i CLlLC i greu llyfrgell ddatblygedig o fodiwlau ar gyfer Aelodau Etholedig. Rhagwelir y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn Medi 2020.

## 6. SGILIAU TGCH

Yn dilyn yr holiadur TG a ddosbarthwyd i Aelodau Etholedig ddechrau 2019; mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi bod yn cydweithio'n agos â Swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgais i fodloni anghenion hyfforddiant yr Aelodau Etholedig. Fel rhan o'r gwaith partneriaeth hwn, mae llawlyfr wedi'i gynhyrchu a'i ddosbarthu fesul penodau, dros gyfnod o wythnosau.

Mae'r wybodaeth wedi'i dosbarthu ar ffurf y penodau canlynol:

- Cadw eich iPad yn Iach / Apiau a gefnogir gan y Cyngor
- Defnyddio E-bost a'r Calendr
- Docs@Work (Gwneud nodiadau a golygu dogfennau)
- Argraffu / Defnyddio Web@Work

Mae fersiwn lawn o'r llawlyfr hefyd wedi'i chylchredeg.

Yn ogystal â dosbarthu'r llawlyfr, cynigiodd y timau Dysgu a Datblygu a TGCh gymorth ychwanegol i'r Aelodau Etholedig ar ffurf sesiynau iPad 'galw heibio'. Hyd yma, ychydig iawn o Aelodau Etholedig sydd wedi manteisio at y sesiynau 'galw heibio', fodd bynnag er mwyn sicrhau bod cymorth parhaus ar gael mae dwy sesiwn arall wedi eu trefnu ar gyfer Hydref a Rhagfyr.

Bydd manylion y sesiynau hyn yn cael eu cyhoeddi yn y man.

## 7. HYFFORDDIANT CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Yn dilyn yr hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol a gynigwyd i Aelodau Etholedig ym mis Rhagfyr 2018, dosbarthwyd gohebiaeth ddilynol er mwyn sefydlu a oedd angen cymorth ychwanegol. Dim ond dau Aelod Etholedig fynegodd ddiddordeb mewn sefydlu llwyfannau ar y Cyfryngau Cymdeithasol felly yn hytrach na threfnu sesiwn grŵp arall, penderfynwyd darparu cymorth ar sail unigol.

Mae cyswllt wedi'i wneud â'r rhai hynny a fynegodd ddiddordeb i ddechrau er mwyn gallu datblygu hyn ymhellach.

## 8. CYFLWYNIAD POWERPOINT GDPR

Mae'r cyflwyniad o'r hyfforddiant GDPR a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2019 wedi'i gyfieithu ac ar gael ar gyfer Aelodau Etholedig i gael mynediad ato drwy MonITor. Mae sesiynau GDPR pellach wedi eu trefnu ar gyfer yr hydref er mwyn i'r rhai hynny nad oedd yn gallu mynychu'r hyfforddiant Gorfodol gael cyfle arall i wneud hynny. Bydd y gwahoddiad hwn yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau ac Aelodau Cyfetholedig.

## 9. HYFFORDDIANT CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Trefnwyd dwy sesiwn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac fe'u darparwyd ar gyfer Aelodau Etholedig, Aelodau Lleyg a'r Pwyllgor Safonau.

Darparodd y sesiwn gyntaf drosolwg cyffredinol tra roedd yr ail sesiwn yn canolbwyntio fwy ar Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mynychodd cyfanswm o 27 allan o 38 y sesiwn Asesu Effaith Cydraddoldeb. Mae Sesiynau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pellach wedi eu cynllunio er mwyn targedu'r rheini nad oeddent yn gallu mynychu'r sesiynau blaenorol. Am fanylion presenoldeb ar y cwrs hwn a'r holl gyrsiau Gorfodol eraill, gweler Atodiad 3.

Mae fersiwn wedi'i chyfieithu o'r cyflwyniad bellach ar gael ar MonITor.

Mae sesiynau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth pellach wedi eu trefnu ar gyfer yr hydref er mwyn i'r rhai hynny nad oeddent yn gallu mynychu'r hyfforddiant Gorfodol hwn gael cyfle i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys Aelodau'r Pwyllgor Safonau ac Aelodau Cyfetholedig.

## 10. CRYNODEB

I gloi, argymhellir fod y materion a nodir mewn perthynas â'r Rhaglen Hyfforddi a Datblygu ar gyfer Aelodau Etholedig a'r Rhaglen Datblygu yn cael eu nodi a'u derbyn.

**CHERIE DUFFY – HYFFORDDAI DATBLYGU AD**
**MIRIAM WILLIAMS – RHEOLWR DATBLYGU AD**

**MEDI 2019**

| RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2018/19<br>**(Lle'n bosib, cynhelir sesiynau hyfforddiant ar ddydd Iau/Gwener gan osgoi'r p'nawn Iau cynta pob mis oherwydd sesiynau briffio Aelodau. Lle'n bosib, nodir dyddiadau/amseroedd)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Cynulleidfa** | **Dull** | **Pryd** |
| Rheoli'r Trysorlys | Pob Aelod Etholedig | Richard Bason | **Tachwedd 2019** |
| Materion Diogelu 'Mop up' | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Annwen M Hughes, Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ymarferydd Sicrhau Ansawdd) | **14eg Tachwedd 2019** |
| Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | Pob Aelod Etholedig | Alwyn Rhys Jones – Pennaeth Gwasanaeth Oedolion | **Cyflwyniad gan Dafydd Bulman a Rachel Williams.**<br>**Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Penderfynu er Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) | Pob Aelod Etholedig | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | **Dyddiad: i'w benderfynu** |
| "Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)". | Pob Aelod Etholedig **(M)** | Gweithdy ac E-Ddysgu | **25ain Chwefror 2019**<br>**16eg Hydref 2019 ('mop up')** |
| Cyflwyniad i Gydraddoldeb | Pob Aelod Etholedig **(M)** | E-Ddysgu/Gweithdy | **28ain Mawrth 2019**<br>**'Mop up' 2019/2020** |
| Arwain Cymuned a Thrin a Thrafod Achosion | Pob Aelod Etholedig | E-ddysgu | **Parhaus** |
| Dull cenedlaethol o ymdrin ag eiriolaeth statudol – hyfforddiant gweithredu am ddim | Pob Aelod Etholedig | Natalie Brimble<br>TrosGynnal Plant<br>North Wales Advocacy | **5ed Mawrth 2020** |
| CLILC – Rhaglen Arweinyddiaeth | Aelodau Etholedig Enwebedig | Gweithdai Rhanbarthol | **Medi – Tachwedd 2019** |
| Trwyddedu - Diweddariad | Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu | Swyddogion Mewnol | **Dyddiad: i'w benderfynu** |
| Diogelwch Personol a chamdriniaeth ar-lein | Pob Aelod Etholedig | Catrin Love | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cynllunio<br>• Materion Llifogydd<br>• Rôl Aelodau lleol yn y drefn cynllunio | Pob Aelod Etholedig | Swyddogion Mewnol | **18fed Medi 2019** |
| Delio â Materion Heriol | Pob Aelod Etholedig | David Jones - ACAS | **26th September 2019** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithredu'r Cyfansoddiad | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Arweinyddiaeth Gymunedol a Nodi Grantiau | Pob Aelod Etholedig | | **Dyddiad: I'w benderfynu** |
| Cadeirio Cyfarfodydd | Pob Aelod Etholedig | Ar gael ar y porth Learning@Wales | **Parhaus** |

**SGILLIAU TGCH**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Defnyddio iPads | Pob Aelod Etholedig | Mewnol | Parhaus |
| General ICT Skills | Pob Aelod Etholedig – Fel angen | Mewnol | Parhaus |

**MODIWLAU E-DDYSGU**

**Mae gan y Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at y system E-ddysgu. Gweler isod fanylion am y meysydd pwnc cyfredol sydd ar gael. Bydd modiwlau ychwanegol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno maes o law. Gellir bellach weld y cyrsiau a nodir gyda (i) isod drwy iPad.**

| **Datblygiad Aelodau** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Iechyd a Diogelwch** |
|---|---|---|
| - Moesau a Safonau (i)<br>- Y Cynghorydd Ward Effeithiol (i)<br>- Sgiliau Siarad Cyhoeddus (i)<br>- Cadeirio Cyfarfodydd (i)<br>- Rhianta Corfforaethol (i)<br>- Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol (i)<br>- Cyflwyniad I Graffu (i) | - Croeso Cymraeg Gwaith (i)<br>- Croeso'n ôl! Cymraeg Gwaith (i) | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel (i)<br>- Rheoli Iechyd a Diogelwch (i)<br>- Glendid Bwyd (i) |
| **Llesiant** | **Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol** | **Technoleg Gwybodaeth** |
| - Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol **(M)**<br>- Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (i)<br>- Gwybodaeth Iechyd (i)<br>- Ymwybyddiaeth Straen (i)<br>- Cadernid Personol (i)<br>- Atal (i) **(M)**<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (i)<br>- Cynllunio Cyn Ymddeol (i)<br>- Diogelu – Ymwybyddiaeth Sylfaenol (i)<br>- Caethwasiaeth Fodern (i) **(M)** | - Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) (i) **(M)**<br>- Ysgrifennu Effeithiol (i)<br>- Rheoli Eich Hun a'ch Amser (i)<br>- Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol (i)<br>- Rhoi a Derbyn Adborth (i)<br>- Sgiliau Cyfarfod (i)<br>- Sgiliau Cyflwyno (i)<br>- Deallusrwydd Emosiynol (i)<br>- Hunan Ddatblygiad (i)<br>- Llywodraethu Gwybodaeth yn Gyffredinol (i) | - Ymwybyddiaeth Seibr **(M)** |

**(M) = Mandadol**

**Fel dilyniant i gyfarfodydd Cynlluniau Datblygu Personol un i un gael ei cynnal, bydd anghenion pellach yn cael ei adnabod a'i cynnwys (os yn briodol) o fewn y cynllun yma.**

**Noder bydd rhaglen datblygu Sgriwtini yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r rhaglen hon**

**Atodiad 2 / Appendix 2 - Modiwlau E-ddysgu / E-Learning Modules**

| Categori E-ddysgu / E-learning Category | Modiwl / Module | Wedi cwblhau / Completed |
|---|---|---|
| Modiwlau Datblygiad Aelodau / Member Development Modules | Mosau a Safonau/ Ethics and Standards | Kenneth Hughes<br>Richard Owain Jones<br>Shaun Redmond |
| | Y Cynghorydd Ward Effeithiol / The Effective Ward Councillor | Margaret Roberts<br>Richard Griffiths<br>Richard Jones<br>Shaun Redmond<br>Robin Williams<br>Dafydd Roberts<br>Margaret Roberts |
| | Sgiliau Siarad Cyhoeddus / Public Speaking Skills | Margaret Roberts<br>Dafydd Thomas<br>Robin Williams |
| | Cadeirio Cyfarfodydd / Chairing Meetings | Kenneth Hughes<br>Robin Williams |
| | Rhianta Corfforaethol / Corporate Parenting | Robin Williams<br>Margaret Roberts |
| | Penderfyniadau I Genedlaethau'r Dyfodol / Decisions for Future Generations | Robin Williams |
| | Cyflwyniad I Graffu / Introduction to Scrutiny | Margaret Roberts<br>Robin Williams<br>Dafydd Roberts |
| Modiwlau Gofal Cwsmer a Sgiliau Proffesiynol / Customer Care and Professional Skills Module | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) / General Data Protection Regulations | |
| | Ysgrifennu Effeithiol / Effective Writing | |
| | Rheoli Eich Hun a'ch Amser / Managing Yourself and Your Time | |
| | Ysgrifennu Cofnodion Effeithiol / Effective Minute Writing | |
| | Rhoi a Derbyn Adborth / Giving and Receiving Feedback | |
| | Sgiliau Cyfarfod / Meeting Skills | |
| | Sgiliau Cyflwyno / Presentation Skills | |
| | Deallusrwydd Emosiynol / Emotional Intelligence | Dafydd Rhys Thomas<br>Robin Williams |
| | Hunan Datblygiad / Self Development | |
| | General Information Governance | Dylan Rees<br>Dafydd Thomas |
| Llesiant / Well-Being | Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol / Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence | Robin Williams<br>Dafydd Roberts<br>Nicola Roberts<br>Dafydd Rhys Thomas |
| | Atal / Prevent | |
| | Cyflwyniad I Gydraddoldeb ac Amrywiaeth / Introduction to Equality and Diversity | |
| | Ymwybyddiaeth Straen / Stress Awareness | |
| | Cadernid Personol / Personal Resilience | |
| | Deddf Lleisiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 | |
| | Cynllunio Cyn Ymddeol / Pre-Retirement Planning | |
| | Diogelu - Ymwybyddiaeth Sylfaenol / Basic Safeguarding Awareness | Robin Williams |
| | Caethwasiaeth Fodern / Modern Slavery | John Roberts |
| Iechyd a Diogelwch / Health and Safety | Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) / The Safe Use of Display Screen Equipment (DSE) | Dafydd Rhys Thomas |
| | Rheoli Iechyd a Diogelwch / Managing Health and Safety | Dafydd Rhys Thomas |
| | Modiwl Glendid Bwyd / Food Hygiene Module | |
| Technoleg Gwybodaeth / Information Technology | Ymwybyddiaeth Seibr / Cyber Awareness | |
| | | |

**Atodiad 2 / Appendix 2 - Hyfforddiant Gorfodol / Mandatory Training**

| | 05/06/2018 | | | | 12/07/2018 | | | | 14/11/2018 | | | | 25/02/2019 | | | | 28/03/2019 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant / Training** | Diogelu / Safeguarding | | | | Arwain yn Ddiogel IOSH Leading Safely | | | | Arwain yn Ddiogel 'Mop Up' / Leading Safely | | | | RhDDC / GDPR | | | | Sesiwn Cydraddoldeb / Equalities Session | | | |
| Enw / Name | Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies | Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies | Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies | Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies | Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies |
| Aled M Jones | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Alun Roberts | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Alun W Mummery | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Bob Parry | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Bryan Owen | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Carwyn Elias Jones | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Dafydd Rhys Thomas | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Dafydd Roberts | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Dylan Rees | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Eric W Jones | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Glyn Haynes | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Gwilym Jones | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Ieuan Williams | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| John Arwel Roberts | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| John Griffith | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Kenneth P Hughes | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Lewis Davies | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Llinos Medi Huws | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Margaret M Roberts | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| Nicola Roberts | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Peter Rogers | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | |
| R Meirion Jones | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Richard Dew | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Richard Griffiths | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Richard Owain Jones | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | ✓ |
| Robert Llewelyn Jones | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Robin W Williams | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | ✓ | | | ✓ |
| Shaun J Redmond | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Trefor Lloyd Hughes | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| Vaughan Hughes | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | |
| John Mendoza | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | | |
| Dilwyn Evans | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Anest Frazer | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Islwyn Jones | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Mike Wilson | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Dilys Shaw | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Denise Harris-Edwards | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |
| John R Jones | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | | |

| 16/05/2019 | | | |
|---|---|---|---|
| Hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb / Equality Impact Assessment | | | |
| Gwahodd / Invited | Wedi Mynychu / Attended | Ddim wedi Mynychu Non-Attendance | Ymddiheuriadau / Apologies |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | | ✓ |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | ✓ | ✓ |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | ✓ | |
| ✓ | | | |
| ✓ | | | |
| ✓ | | | |
| ✓ | ✓ | | |
| ✓ | | | |
| ✓ | | | |
| ✓ | ✓ | | |



# Rhaglen Hyfforddiant i Aelodau Etholedig

Croeso i'r Diweddariad Chwarterol cyntaf ar Hyfforddiant Aelodau Etholedig.

Isod fe welwch restr o'r Cyfleoedd Hyfforddiant a Datblygu a fydd yn cael eu cynnal rhwng mis Medi a Rhagfyr 2019.



## Delio gyda Sefyllfaoedd Heriol

Bydd y sesiwn hyfforddiant yma yn edrych ar y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder sy'n angenrheidiol i allu adnabod materion a sefyllfaoedd heriol ac i ddelio gyda gwrthdaro yn fwy effeithiol.

**26 Medi 2019**

## GDPR (ychwanegol)

Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyflwyniad i'r Ddeddf GDPR ac yn egluro'r newidiadau mewn cyfrifoldebau unigol. Mae'r cwrs yn sesiwn ychwanegol ac yn orfodol dim ond i'r Aelodau Etholedig oedd heb fynychu'r sesiwn flaenorol ym mis Chwefror.

**16 Hydref 2019**





## Diogelu (ychwanegol)

Mae'r sesiwn hyfforddiant yma yn rhoi trosolwg o'ch cyfrifoldebau diogelu yn eich rôl fel Aelod Etholedig ac yn eich rôl yn y gymuned. Mae'n orfodol i bob Aelod Etholedig a oedd wedi methu mynychu'r sesiwn hyfforddiant yn 2018 i gymryd rhan yn y sesiwn hon.

**14 Tachwedd 2019**

## Porth E-Ddysgu

Nodwch os gwelwch yn dda ei bod yn orfodol i'r holl staff ac Aelodau Etholedig gwblhau'r modiwlau E-ddysgu canlynol:


















**Canllaw TG: Gweler ynghlwm y Llyfryn TG i Aelodau Etholedig**

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Medi, 2019** |
| **Teitl:** | **Materion Aelodau Etholedig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Adrodd ar gynnydd hyd yma** |
| **Awdur:** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1.0 Cefndir

Diben yr adroddiad hwn ydi diweddaru'r Pwyllgor ar wahanol faterion yn ymwneud ag Aelodau.

1.1 Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau

Fe adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar drefniadau ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol am y cyfnod 2018 - 19.

Mae rhan 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdod Lleol i sicrhau bod trefniadau mewn lle er mwyn i Aelodau baratoi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith.

O safbwynt adroddiadau blynyddol ar gyfer 2018 / 19 mae 28 o Aelodau bellach wedi paratoi adroddiadau hyd yn hyn.

Mae modd gweld yr adroddiadau a baratowyd hyd yma ar y linc isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

<u>Diweddarwyd Arweinyddion Grwpiau ar y gwaith o baratoi adroddiadau. Bydd adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2019/20 ynghylch y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ddisgwyliadau penodol ar Aelodau yn y Mesur Llywodraeth Leol a gyhoeddir yn y dyfodol.</u>

1.2 Siarter Datblygu a Chefnogi Aelodau

Yn ogystal, adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar y bwriad i baratoi ail asesiad ar gyfer anghenion Siarter Datblygu a chefnogi Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cyflwynwyd tystiolaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol yn ystod chwarter 4 fel rhan o gais y Cyngor. Anfonwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor Safonau er gwybodaeth. Rwy'n falch o adrodd bod cais y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus. Cyflwynwyd tystysgrif swyddogol i'r Cyngor mewn cyfarfod o Rwydwaith Cefnogi CLlLC ym mis Gorffennaf. Mae'r Siarter yn ddilys am gyfnod o 3 blynedd.

## 2.0 Argymhelliad:

Nodi gwybodaeth yn yr adroddiad.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**27 Awst, 2019**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cwynion am Ymddygiad i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cwynion a anfonwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref a Chymuned.** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley<br>Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol<br>mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.gov.uk<br>01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau'n derbyn diweddariad bob chwarter ynglŷn â'r cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â (a) Cynghorwyr Sir a (b) Cynghorwyr Tref / Cymuned.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Cyflwynwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2018) a Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr 2018) yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau ar 13.03.2019.

2.2 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2019) at aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 08.04.2019.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 4, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

2.3 Anfonwyd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2019) at aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost ar 05.07.2019.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cynghorwyr Sir, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**.

Mae copi pellach o'r adroddiad ar gyfer Chwarter 1, ynghylch Cynghorwyr Tref a Chymuned , wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

2.4 Bydd yr adroddiadau ar gyfer Chwarter 4 a Chwarter 1 (Atodiadau 1-4) yn cael eu dosbarthu i'r Cynghroau Tref a Chymuned ac i aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor hwn yn dilyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Safonau.

2.5 Bydd yr adroddiad nesaf, ar gyfer Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi 2019), yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy ebost ar ddechrau mis Hydref 2019.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys Atodiadau 1-4 ac yn ystyried unrhyw dueddiadau a amlygir (os o gwbl) ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn cywiro pethau.

3.2 I'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ddosbarthy Atodiadau 1-4 efo'r Cynghorau Tref a Chymuned ac aelodau etholedig a chyf-etholedig y Cyngor.

**ATODIAD 1**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2019) – 2018/2019 – Quarter 4 (January – March 2019)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT | | | | |

**ATODIAD 2**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth 2019) - 2018/2019 – Quarter 4 (January – March 2019)**

Tudalen 34

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | (i)CC-021396<br>(ii)201802863 | 31.08.2018 | Ombwdsmon yn ymchwilio'r gŵyn. / Ombudsman investigating the complaint. |
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Aelod o'r Cyhoedd / Member of the Public | (i)CC-021628<br>(ii)201806381 | 21.01.2019 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn. /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint. |
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | (i)CC-021698<br>(ii)201807534 | 13.03.2019 | Ombwdsmon yn ystyried y gŵyn. / Ombudsman considering the complaint. |

**ATODIAD 3**

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2019) – 2019/2020 – Quarter 1 (April – June 2019)**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| DIM I'W ADRODD / NOTHING TO REPORT | | | | |



CC-019486/498246

**ATODIAD 4**

## CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD

## UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE

**Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin 2019) – 2019/2020 – Quarter 1 (April – June 2019)**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | (i)CC-021396<br>(ii)201802863 | 31.08.2018 | Casgliad yr Ombwdsmon, ar ôl ymchwilio, yw nad oes tystiolaeth o fethu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. /<br>The Ombudsman's conclusion, following an investigation, is that there is no evidence of a failure to comply with the Code of Conduct. |
| Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | Cynghorydd Cymuned/Tref Community/Town Councillor | (i)CC-021698<br>(ii)201807534 | 13.03.2019 | Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio'r gŵyn. /<br>Ombudsman has decided not to investigate the complaint. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori'r Pwyllgor am benderfyniadau Cymru Gyfan a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfrau ar gyfer Chwefror 2019 (Rhifyn 19) a Mai 2019 (Rhifyn 20)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi Coflyfr o Gwynion Côd Ymddygiad unwaith bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei Goflyfr ar gyfer Chwefror 2019 (Rhifyn 19) a'r Coflyfr ar gyfer Mai 2019 (Rhifyn 20). Mae crynodeb o'r achosion yn Rhifyn 19 ynghlwm yn **ATODIAD 1** a Rhifyn 20 ynghlwm yn **ATODIAD 2**.

## 2. CEFNDIR

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu pwerau "sifft gyntaf" dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n gosod dyletswydd arno i ystyried cwynion y gallai aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru fod wedi torri eu côd ymddygiad. Mae awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau tref a chymuned.

Ar ôl derbyn cwyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gweithredu prawf trothwy er mwyn gweld a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio. Mae'r prawf trothwy yn cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn bod yn fodlon:-

- Bod tystiolaeth i awgrymu y gallai'r côd ymddygiad fod wedi cael ei dorri; a
- Bod y mater yn ddigon difrifol fel ei fod o fudd i'r cyhoedd bod ymchwiliad yn cael ei agor.

Yn dilyn agor ymchwiliad, gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddod i un o bedwar canlyniad o dan Adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

(a) nad oes unrhyw dystiolaeth bod côd ymddygiad yr awdurdod wedi cael ei dorri;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad;

(c) y dylid cyfeirio'r mater at swyddog monitro'r awdurdod ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor safonau;

(d) bod y mater yn cael ei gyfeirio at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer penderfyniad drwy dribiwnlys (bydd hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Os yw (c) neu (d) uchod yn berthnasol, bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu Banel Dyfarnu Cymru (PDC) a lle'r pwyllgor, neu dribiwnlys achos ar ran y Panel, yw cynnal gwrandawiad er mwyn ystyried y dystiolaeth a gwneud penderfyniad terfynol a gafodd y côd ymddygiad ei dorri ai peidio, ac os hynny, a ddylid rhoi cosb a beth ddylid ei roi fel cosb. Mae gan bwyllgorau safonau awdurdod statudol i wahardd cynghorwyr am gyfnodau hyd at 6 mis. Does gan Bwyllgorau Safonau ddim pwerau anghymhwyso, a lle bydd canfyddiadau o dorri rheolau, byddant yn ceisio rhoi cosb sy'n briodol ar gyfer y drosedd. Bydd hyn yn aml iawn yn gerydd (cerydd cyhoeddus) neu'n argymhelliad o hyfforddiant/ymrwymiad/cyfryngu ayb. Mae gan dribiwnlys achos awdurdod i wahardd am hyd at 12 mis ac anghymhwyso hyd at 5 mlynedd.

## 3. ARGYMHELLIAD

I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau arwain trafodaeth ar unrhyw faterion o ddiddordeb yr adroddir arnynt yn **ATODIAD 1** ac **ATODIAD 2**.

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 201707024 | Gwnaeth Ms E gŵyn yn nodi efallai fod Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy sefydlu tudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol a oedd, ym marn Ms E, yn targedu ei busnes mewn modd annheg.<br><br>Fe wnaeth Ms E gwyno hefyd bod y Cynghorydd wedi cael e-bost na fyddai wedi'i gael fel arall a'i bod wedi rhannu cynnwys yr e-bost ar y dudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol. | Paragraff 4(a) – Hyrwyddo Cydraddoldeb<br><br>Paragraff 4(b) – Parch at eraill | Canfu'r Ombwdsmon bod y Cynghorydd wedi sefydlu'r dudalen ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn breifat; doedd dim cyfeiriad at ei gwaith fel Cynghorydd ac nid oedd yn gysylltiedig â'r Cyngor mewn unrhyw ffordd.<br><br>Roedd yr e-bost dan sylw wedi cael ei anfon at y Cynghorydd yn uniongyrchol. Doedd yr e-bost ddim wedi'i marcio'n gyfrinachol ac fe wnaeth y Cyngor gadarnhau y byddai'n rhannu'r math yma o wybodaeth ag unrhyw un a fyddai'n cwyno.<br><br>Penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. | Gall Cynghorwyr gael tudalennau preifat ar y Cyfryngau Cymdeithasol ond rhaid iddynt sicrhau eu bod ar wahân i'w rôl fel Cynghorwyr. Ni ddylai unrhyw wybodaeth a gyhoeddir ddeillio o rôl etholedig y Cynghorydd os yw'n sensitif/ cyfrinachol. Bydd defnyddio'r teitl "Cynghorydd" yn rhoi'r Côd ar waith. Nid yw peidio â defnyddio'r teitl y teitl yn gweithredu fel amddiffyniad awtomatig chwaith. Byddai'r Ombwdsmon yn cymryd cynnwys y deunydd/negeseuon i ystyriaeth. |
| Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf – 201802132 | Gwnaeth Mr C gŵyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad pan lofnododd ddatganiad i'r heddlu yn nodi ei bod wedi gweld ffrae rhwng Mr B ac unigolyn arall. Dywedodd Mr B fod y Cynghorydd wedi tynnu'r wybodaeth yn ôl yn y llys ac na fyddai'r achos | Paragraff 9(a) – Dyletswydd i Barchu'r Gyfraith | Canfu'r Ombwdsmon fod y datganiad a roddwyd yn ddidwyll a bod y cyfrif a roddwyd yn y llys mor debyg i'r gwreiddiol ei bod yn ymddangos mai dyna oedd y Cynghorydd yn ei gofio am y digwyddiad mewn | |

Tudalen 39

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | wedi mynd i'r llys oni bai am y datganiad hwnnw. | | gwirionedd.<br><br>Penderfyniad yr Ombwdsmon oedd nad oedd unrhyw dystiolaeth fod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. | |
| Cyngor Cymuned Bugeildy – 201801874 | Gwnaeth Ms B gŵyn bod y Cynghorydd wedi peidio â datgelu buddiant mewn cyfarfod pan gynhaliwyd trafodaeth am waith tirfesur ar ddraeniau wedi'u difrodi ar dir wrth ymyl tir roedd y Cynghorydd yn berchen arno.<br><br>Hefyd, dywedodd Ms B fod y Cynghorydd heb ddangos parch tuag ati na'i chydnabod.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd gydnabod ei fod wedi cael dadl frwd gyda Ms B ond dywedodd nad oedd yn bersonol ac nad oedd unrhyw falais rhyngddo a Ms B. Canfu'r Ombwdsmon bod y materion a godwyd gan y Cynghorydd o bwys gwleidyddol dilys, ac nid rôl yr Ombwdsmon yw atal dadleuon gwleidyddol cadarn. | Paragraffau 10-15 – Datgan a chofrestru buddiannau | Canfu'r Ombwdsmon bod y materion a godwyd gan y Cynghorydd o bwys gwleidyddol dilys, ac nid rôl yr Ombwdsmon yw atal dadleuon gwleidyddol cadarn.<br><br>Er bod y mater a drafodwyd wedi cael effaith uniongyrchol ar dir y Cynghorydd ac y gallai, felly, fod yn achos o dorri'r Côd Ymddygiad, roedd arwyddocâd mwy helaeth i'r mater yn y gymuned. Felly, ei benderfyniad oedd nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. | Ymddengys bod y penderfyniad hwn yn dilyn y penderfyniad Calver o ran amharodrwydd yr Ombwdsmon i ymyrryd mewn "dadleuon gwleidyddol cadarn".<br><br>Dylai aelodau ochel rhag dibynnu ar y penderfyniad hwn ac fe ddylent ddatgan diddordebau personol/rhagfarnus yn unol â'r Côd Ymddygiad.<br><br>[Efallai bod hwn yn fater y dymunai'r Pwyllgor Safonau ei godi gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan yr ymddengys fod ei adroddiad yn gwrthddweud |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Canllawiau'r Ombwdsmon ei hun] |
| Cyngor Sir Powys – 201706713 | Cafwyd cwyn ynghylch ymddygiad aelod o Gyngor Sir Powys yng nghyswllt camarwain preswylydd lleol, sef bod y Cynghorydd wedi gwneud sylw ynghylch gwrthwynebu i gais cynllunio. Dywedodd yr Achwynydd bod y Cynghorydd yn ceisio sicrhau mantais i'r sawl oedd yn gwneud cais ac yn ceisio atal preswylwyr lleol rhag gwrthwynebu. | Bod yn atebol ac yn agored<br><br>Paragraff 6(1)(a) – Dwyn Anfri<br><br>Paragraff 7 - defnyddio ei safle i roi mantais iddo ef ei hun neu i rywun arall. | Penderfynodd yr Ombwdsmon, yn dilyn cynnal ymchwiliad, nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ystod galwad ffôn gyda'r Achwynydd. | |
| Dinas a Sir Abertawe – 201802771 | Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn a oedd yn nodi efallai fod Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy hawlio gormod o gostau teithio. | Paragraff 9(a) – Dyletswydd i Barchu'r Gyfraith | Ar ôl ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad – er bod tystiolaeth bod yr aelod ar gam a'i fod wedi hawlio gormod o dreuliau – bod rhaid ystyried diffyg profiad yr aelod a'i fod yn anghyfarwydd â'r broses; bod yr aelod wedi peidio â hawlio digon o dreuliau ar sawl achlysur; gwerth y gordaliadau; ac ymddiheuriad yr aelod a'i barodrwydd i dalu'r arian yn ôl.<br><br>Gan ystyried yr uchod, penderfynodd yr Ombwdsmon na ddylid cymryd camau pellach. | Dylai Aelodau ofalu bod unrhyw geisiadau am dreuliau yn cael eu gwneud yn unol â pholisi'r Cyngor a'u bod yn gofyn am gyngor os oes angen. |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Cyngor Sir Powys – 201706847 | Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio i gŵyn bod Cynghorydd wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy beidio ag anrhydeddu addewid i Banel Dyfarnu Cymru, sef y byddai'n anfon llythyr ysgrifenedig at ddau gydweithiwr yn ymddiheuro iddynt. | 4(a) – Hyrwyddo Cydraddoldeb<br><br>Paragraff 4(b) – Parch at eraill | Ar ôl ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, gan gynnwys sylwadau'r Aelod yn nodi ei fod wedi ysgrifennu a phostio'r llythyrau, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na ddylid cymryd camau pellach, gan fod yr Aelod wedi cytuno i ailysgrifennu'r llythyrau a'u hanfon eto. | Nid oes unrhyw wybodaeth yng Nghoflyfr yr Ombwdsman ynghylch pa achos o eiddo Panel Dyfarnu Cymru y mae hyn yn cyfeirio ato ond mae chwilio drwy benderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru sy'n ymwneud â Chyngor Sir Powys yn arwain at y canlynol:<br><br>https://apw.gov.wales/about/upcoming-tribunals/Cllr-Edwin-Roderick-2019/?skip=1&lang=en<br><br>https://apw.gov.wales/about/upcoming-tribunals/Cllr-Edwin-Roderick-2019/?lang=cy |
| Cyngor Cymuned Sili a Larnog – 201705246 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod, yn ystod cyfarfod Cyngor Cymuned Sili a Larnog, wedi torri'r Côd Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau a oedd yn wahaniaethol ac yn rhagfarnu ar sail oedran am ymgeisydd a oedd wedi gwneud | Paragraff 4(a) – Hyrwyddo Cydraddoldeb<br><br>Paragraff 4(b) – Parch at eraill | Casglwyd gwybodaeth gan y Cyngor a chynhaliwyd cyfweliadau gyda thystion a oedd yn y cyfarfod, yn ogystal â'r Aelod.<br><br>Canfu'r archwiliad bod yr Aelod wedi gwneud y | Anogir Aelodau i gael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae CSYM yn ystyried bod hwn yn faes gorfodol (yn unol â phenderfyniad y Grŵp Arweinyddion). Dylai |

Tudalen 42

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | cais i gael ei gyfethol i'r Cyngor. | | sylwadau hyn, ond doedd dim tystiolaeth i awgrymu bod ei sylwadau wedi dylanwadu ar y canlyniad ar gyfer yr ymgeisydd. Ar ben hynny, dim ond ers chwe wythnos oedd yr Aelod wedi cael ei ethol i'r Cyngor, nid oedd y Côd wedi cael ei esbonio iddo, ac nid oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ar ei gynnwys. Hefyd, pan gafodd ei gyfweld, fe wnaeth yr Aelod ymddiheuro am y sylwadau, dywedodd na fyddai'n gwneud sylwadau o'r fath eto, ac fe gadarnhaodd ei fod wedi cael hyfforddiant ynghylch y Côd ers hynny.<br><br>Er bod yr Ombwdsmon wedi awgrymu bod yr Aelod yn ystyried mynd ar gwrs hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth, daeth i'r casgliad na fyddai hynny er budd y cyhoedd ac na fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach yng nghyswllt y materion y cafwyd cwyn yn eu cylch. | Aelodau ystyried cwblhau'r cwrs e-ddysgu sydd ar gael os nad oeddent yn bresennol yn y cwrs a drefnwyd ym mis Mawrth 2019. |
| Cyngor Tref Porth Tywyn a | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod o Gyngor Tref Porth Tywyn a | Paragraffau 10-15 – Datgan a | Cafodd yr Aelod ei gyfweld, yn ogystal â'r Cynghorydd a | Dylai aelodau gofio y gall perthynas bersonol |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Phen-bre – 201704860 | Phen-bre wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidlais mewn dau gyfarfod ynghylch materion yn ymwneud â chyn-aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cwyno am yr Aelod yn ddiweddar. | chofrestru buddiannau | wnaeth y gŵyn amdano ac aelod arall o'r Cyngor.<br><br>Yn y cyfweliad, dywedodd yr Aelod ei fod wedi gofyn am gyngor gan y Clerc ynglŷn ag a fyddai'n cael cymryd rhan yn y trafodaethau, a rhoddwyd gwybod iddo ei fod yn cael. Ceisiodd ei gyngor cyfreithiol ei hun ynglŷn â'r mater hefyd. Dywedodd yr Aelod ei fod yn anymwybodol y gallai perthynas bersonol agos gael ei hystyried yn fudd personol pan oedd yn ymwneud â rhywun y gallai aelod fod "mewn anghydfod" ag ef. Dywedodd yr Aelod nad oedd yn teimlo ei fod mewn anghydfod â'r aelod hwnnw o staff y Cyngor ar y pryd. Fodd bynnag, fe wnaeth yr Aelod gydnabod y byddai'n delio â materion tebyg yn wahanol iawn yn y dyfodol.<br><br>Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bod ymddygiad yr Aelod mewn perthynas â'r ddau gyfarfod yn awgrymu ei fod wedi mynd yn erbyn y | agos fodoli gyda rhywun y maent mewn anghydfod â nhw. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | paragraffau yn y Côd Ymddygiad sy'n ei gwneud yn ofynnol ei fod yn datgan buddiant a gadael yr ystafell lle y bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, o ystyried bod gweithredoedd yr Aelod yn gamsyniol yn hytrach na bwriadol, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai cyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau er budd y cyhoedd. | |
| Cyngor Gwynedd – 201702769 | Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a oedd yn nodi bod Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad i aelodau. Honnwyd bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod pan beidiodd â datgan ei fuddiant llesiannol mewn eiddo wedi'i gofrestru dan ei enw, ac fe nododd nad oedd ganddo unrhyw fuddiannau llesiannol mewn tir yn ardal y Cyngor.<br><br>Honnwyd bod y Cynghorydd wedi peidio â llofnodi a dychwelyd ffurflen datgan buddiannau'r Cyngor, er ei fod wedi cael sawl cyfle i wneud hynny. | Paragraffau 10-15 – Datgan a chofrestru buddiannau<br><br>[18.5.1 a 18.4.1(b) Côd Ymddygiad Gwynedd] | Ym mhob achos, rhaid i aelodau ystyried a oes ganddynt fuddiant personol ac a yw'r Côd Ymddygiad yn gofyn iddynt ddatgan y buddiant hwnnw. Mae'n rhaid i aelodau gydnabod bod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw ran o fusnes yr awdurdod os yw'n ymwneud ag unrhyw dir y mae ganddynt fuddiant llesiannol ynddo yn ardal eu hawdurdod, neu os yw'n debygol o effeithio ar y tir hwnnw. Mae'n rhaid i Aelodau gofrestru buddiannau ariannol neu fel arall cyn pen 28 diwrnod i gael eu hethol i'r swydd, | Atgoffir aelodau o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chofrestru diddordebau personol penodol yn y Gofrestr o Ddiddordebau, yn unol â'r Côd Ymddygiad.<br><br>Mae'r Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol/Diddordebau Personol sy'n Rhagfarnu i'w weld yma.<br><br>http://monitor.anglesey.gov.uk/Journals/n/h/o/Personal-and-Prejudicial-Interest---A-Briefing-Note-to-Members.pdf |

Tudalen 45

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig o'u buddiannau i Swyddog Monitro'r awdurdod.<br><br>Oherwydd bod y Cynghorydd yn aelod newydd pan ddigwyddodd hyn, ac oherwydd mai hwn oedd y tro cyntaf i unrhyw un dynnu sylw'r Ombwdsmon at ei ymddygiad, a'i fod wedi llenwi'r ffurflen datgan buddiannau ers hynny – penderfynodd yr Ombwdsmon (ar ôl cynnal ymchwiliad) beidio â chymryd camau pellach yn erbyn y Cynghorydd. | http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/c/f/c/Nodyn-Briffio-i-Aelodau---Diddordeb-Personol-a-Rhagfarnol.pdf<br><br>Mae cyfarwyddiadau ar sut y gall Aelodau ddiweddaru'r gofrestr i'w gweld yma.<br><br>http://monitor.anglesey.gov.uk/Journals/j/n/s/How-to-update-your-register-of-interest-form.pdf<br><br>http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/x/t/v/Sut-i-ddiweddaru-eich-cofrestr-o-ddiddordeb.pdf |
| Cyngor Cymuned Llandegla – 201704189 | Cafwyd cwyn am ymddygiad aelod o Gyngor Cymuned Llandegla mewn dau o gyfarfodydd y Cyngor ac am ei ymddygiad yng nghyswllt cyflwyno cais am gyllid heb awdurdod y Cyngor. | Uniondeb<br><br>Paragraff 4 – Parch a bwlio ac aflonyddu<br><br>Paragraff 6 – dwyn anfri | Penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi torri'r Côd yn yr ail gyfarfod nac yng nghyswllt y cais am gyllid. Canfu nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt ei ymddygiad yn y cyfarfod cyntaf. | |

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Cegidfa – 201707849 | Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn a wnaed am aelod o Gyngor Cymuned Cegidfa yn nodi efallai ei fod wedi torri'r Côd Ymddygiad drwy gamarwain aelodau o'r cyhoedd yng nghyswllt proses y Cyngor o ystyried cais cynllunio ac achos o ddatgan buddiant yn ystod cyfarfodydd y Cyngor ar 21 Tachwedd a 20 Rhagfyr 2017. | Bod yn atebol ac yn agored | Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi rhoi cyngor nad oedd yn ddidwyll i aelod o'r cyhoedd, a doedd dim tystiolaeth ei fod wedi mynd ati'n fwriadol i gamarwain unrhyw aelod o'r cyhoedd. O ganlyniad, fe benderfynodd na fyddai mynd ar ôl y mater hwn ymhellach er budd y cyhoedd.<br><br>Roedd yr Ombwdsmon yn cytuno, oherwydd bod y Cynghorydd wedi datgan diddordeb yn y Cais yn y ddau gyfarfod, bod ganddo fuddiant personol ynddo. Ar ben hynny, roedd o'r farn y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd, a oedd yn gwybod am y buddiant hwn, yn debygol o'i ystyried mor arwyddocaol i'r graddau y byddai'n debygol o ddylanwadu ar ei farn. Felly, dylai'r Cynghorydd fod wedi gadael yr ystafell pan oedd y mater yn cael ei drafod. Fodd bynnag, er bod y Cynghorydd wedi aros yn y | Dylai Aelodau ystyried yn ofalus a oes ganddynt ddiddordeb personol neu ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater.<br><br>Mae Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol/Diddordebau Personol sy'n Rhagfarnu i'w weld yma.<br><br>http://monitor.anglesey.gov.uk/Journals/n/h/o/Personal-and-Prejudicial-Interest---A-Briefing-Note-to-Members.pdf<br><br>http://monitor.ynysmon.gov.uk/Journals/c/f/c/Nodyn-Briffio-i-Aelodau---Diddordeb-Personol-a-Rhagfarnol.pdf<br><br>Dylai Aelodau ochel rhag dibynnu ar y penderfyniad hwn a dylent ddatgan diddordebau personol/diddordebau personol sy'n rhagfarnu |

Tudalen 47

| **Enw'r Cyngor** | **Crynodeb o'r Gŵyn** | **Rhan Berthnasol o'r Côd** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| | | | cyfarfod, doedd dim tystiolaeth ei fod wedi defnyddio ei safle mewn modd amhriodol, wedi tarfu ar y broses ddemocrataidd nac wedi dylanwadu ar drafodaeth y Cyngor a'i benderfyniad ynghylch y Cais yn y pen draw.<br><br>Felly, penderfynodd yr Ombwdsmon nad oedd angen cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt, er ei fod yn argymell y dylai'r Cynghorydd ystyried ei ddyletswyddau yn ofalus o dan y Côd Ymddygiad, yn enwedig y rhwymedigaeth i adael cyfarfod pan mae ganddo fuddiant rhagfarnus mewn mater, a gofyn am gyngor os yw'n ansicr o oblygiadau hynny. | yn unol â'r Côd Ymddygiad. |

| Enw'r Cyngor | Crynodeb o'r Gŵyn | Rhan Berthnasol o'r Côd | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Doc Penfro – 201706079 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod o Gyngor Tref Doc Penfro wedi torri'r Côd Ymddygiad ar gyfer aelodau. Honnwyd bod yr Aelod wedi ymddwyn mewn modd amharchus a bygythiol tuag at Glerc blaenorol y Cyngor, yng nghyfarfodydd y Cyngor ac wrth gysylltu â hi drwy e-bost, rhwng 2014 a'i hymddiswyddiad o'r Cyngor yn 2017.<br><br>Gofynnwyd am wybodaeth gan y Cyngor, Cyngor Sir Penfro a'r Aelod. Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd gyda thystion perthnasol. | Dangos parch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu, dwyn anfri ar y Cyngor a dyletswydd Aelod i ddatgan buddiant os oes ganddo un mewn unrhyw fusnes y Cyngor. | Nid oedd yr aelod wedi ymddwyn mewn modd amharchus na bygythiol tuag at y Clerc yn ystod cyfarfodydd neu wrth gysylltu â hi drwy e-bost. Nid oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y Côd sy'n ymwneud â'r Aelod yn dwyn anfri ar y Cyngor wedi cael ei dorri. Casglodd yr Ombwdsmon ymhellach ei bod yn debygol y gallai'r Aelod fod wedi torri'r Côd drwy fethu â datgan buddiant personol mewn cyfarfodydd. | |
| Cyngor Tref Saltney – 201800177 201800178 201800179 201800180 | Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelodau o Gyngor Tref Saltney wedi torri'r Côd Ymddygiad trwy gymryd rhan mewn dadl â chynghorwyr eraill o flaen aelodau'r cyhoedd, yn dilyn cyfarfod Cyngor Tref. | Dangos parch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu, dwyn anfri ar y Cyngor | Canfu'r Ombwdsmon bod yr ymddygiad y cwynwyd yn ei gylch yn is na'r safon y byddai'n ei ddisgwyl gan aelodau etholedig, a bod yr ymddygiad yn bitw ac yn anaeddfed. Daeth i'r casgliad felly na fyddai cymryd camau pellach a defnyddio adnoddau cyhoeddus pellach er lles y cyhoedd. | Dylai aelodau fod yn ofalus ynghylch sut y maent yn ymddwyn, yn arbennig mewn cyfarfodydd cyhoeddus. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth am y materion a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru hyd yma (cyfnod cyhoeddi Mawrth 2019 – Awst 2019)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru (PDC) gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

1. Ffurfio tribiwnlysoedd achosion, neu dribiwnlysoedd achos interim, er mwyn ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn dilyn ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod; ac

2. I ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgor safonau eu hawdurdod eu hunain eu bod wedi torri'r cod ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu a roddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf).

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a gyhoeddwyd gan PDC yn ystod y cyfnod ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019. Bwriedir iddo fod yn grynodeb ffeithiol o'r materion a benderfynwyd gan y PDC. Mae'r achosion a nodwyd ar gyfer y cyfnod perthnasol ar gael ar Wefan y PDC

## 2. CRYNODEB O'R ACHOSION PERTHNASOL

Mae crynodeb o'r achosion perthnasol wedi'i gynnwys yn **ATODIAD 1.**

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

17.07.2019 – Cynghorydd Graham Down o Gyngor Cymuned Matharn (yn flaenorol o Gyngor Sir Fynwy) [APW001/2018-019/CT]

CC-019486-MY/520128

### 2.2 Apeliadau a benderfynwyd

Dim

## 3. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys y crynodeb(au) achosion.

**Crynodeb o'r Achosion Tribiwnlys –Mawrth 2019 – Awst 2019**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| Y Cyn-gynghorydd Sir (Cynghorydd Cymuned ar hyn o bryd) Graham Down<br><br>Cyngor Sir Fynwy | Honiad fod y Cynghorydd Down wedi torri Côd Ymddygiad Cyngor Cymuned Mathern drwy ddwyn anfri ar ei awdurdod pan wnaeth sylwadau homoffobig mewn cyfarfod cyhoeddus o Banel Dyfarnu Cymru (PDC) ar 19.07.2019 a phan ysgrifennodd sylwadau homoffobig mewn llythyr at PDC dyddiedig 24.04.2019 gyda hynny fe dybiwyd yn torri Paragraff 6(1) y Côd.<br><br>Roedd y Cynghorydd yn ymddangos gerbron PDC ar 19.07.2019 o ganlyniad i honiad ei fod wedi torri Paragraff 4(b) y Côd (methu dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill). Cafodd manylion am y mater hwn eu cynnwys yn Rhaglen y Pwyllgor Safonau ar 13.03.2019 (Eitem 7) ('y gwrandawiad gwreiddiol').<br><br>Ar ddiwedd y gwrandawiad gwreiddiol ac wedi i ganfyddiadau'r tribiwnlys gael eu cyhoeddi, dywedodd y | Penderfynodd y tribiwnlys achos y dylid gwrthod y cais ar y sail nad oedd yr ail gyfeiriad at PDC a deunydd testun yr achos yn cydymffurfio gyda gofynion adran 69(1)(a) neu (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000 oherwydd na chafwyd unrhyw gŵyn ysgrifenedig ynghylch yr achos honedig o dorri'r Côd ac ni ddygwyd y posibilrwydd bod y Côd wedi'i dorri i sylw OGCC o ganlyniad i ymchwiliad dan adran 69(1)(a).<br><br>Roedd OGCC wedi cyfeirio'r mater i PDC yn uniongyrchol heb ymchwiliad.<br><br>Gellir gweld y penderfyniad ei hun drwy ddilyn y ddolen isod - [https://gweddill.gov.wales/docs/apw/publications/190717-decision-graham-down.pdf](https://gweddill.gov.wales/docs/apw/publications/190717-decision-graham-down.pdf) | Dyddiad y penderfyniad yw 17 Gorffennaf 2019 a dywed y bydd OGCC yn ymchwilio i gwynion gan drydydd partïon ac na fydd yn cychwyn y cwynion neu'r ymchwiliadau ei hun. Nodir yn y penderfyniad gan y tribiwnlys achos "nid mater i OGCC yw ymchwilio'n rhagweithiol i achosion posibl o dorri'r Côd os nad oes honiad ysgrifenedig (ac eithrio yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn adran 69(1)(b). Mae'r Tribiwnlys Achos wedi penderfynu nad yw'r amgylchiadau hynny'n berthnasol yma)".<br><br>Ar 22ain Mai 2019, daeth Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) i rym ac mae'n manylu ar bwerau pellach y gall OGCC eu defnyddio i ymchwilio ar ei liwt ei hun. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn achos aelodau o awdurdodau perthnasol. Gellir gweld y Ddeddf drwy ddilyn y ddolen isod - [http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/contents/enacted/welsh](http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/3/contents/enacted/welsh) |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Crynodeb o'r Penderfyniad | Canfyddiadau |
|---|---|---|---|
| | Cynghorydd Down *"I cannot be part of a system where I am required to suppress my conscience. I will not do so, nor will I stand up for, defend or promote the hideous and sickening perversions of "shirt lifters".*<br><br>Anfonwyd copi o benderfyniad PDC i'r Cynghorydd Down mewn llythyr ar 20 Gorffennaf 2018 ac ymatebodd fel a ganlyn mewn llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf 2018 yn dweud *"I believe homosexuality activity to be a sickening, depraved practice and I shall continue to do so"*.<br><br>Mae'r Adroddiad gan PDC yn delio gyda'r cyfeiriadau a wnaed gan OGCC i'r PDC mewn perthynas â'r achosion honedig hyn o dorri'r côd. Roedd y tribiwnlys achos, yn seiliedig ar y papurau yn unig, i benderfynu, yn y lle cyntaf a oedd yr achos wedi cael ei gyfeirio'n briodol i PDC yn unol â'r gyfraith. | | |

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Caniatâd Arbennig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Hysbysu'r Pwyllgor Safonau am ganlyniad unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig a dderbyniwyd ers yr adroddiad ysgrifenedig diwethaf i'r Pwyllgor Safonau ar 13.03.2019** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Os oes gan gynghorydd sir/cynghorydd tref/cymuned ddiddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater sy'n cael ei ystyried gan eu hawdurdod, mae'n ofynnol dan y côd ymddygiad fod y diddordeb yn cael ei ddatgan/gofrestru a bod yr aelod yn gadael y cyfarfod a ddim yn cymryd rhan yn y drafodaeth nac yn dylanwadu ar y penderfyniad(au).

Mae'r côd ymddygiad yn ymgorffori "caniatâd arbennig" o dan rai amgylchiadau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 12(2) y côd.

Yn ogystal, os nad yw paragraff 12(2) y Côd o gymorth, yna mae gan y Pwyllgor Safonau'r disgresiwn i roi caniatâd arbennig i aelod, o dan amgylchiadau penodol, sy'n cael eu rhestru mewn rheoliadau statudol.

Os yw'n cael ei ganiatáu, mae'r caniatâd arbennig yn goresgyn elfen ragfarnus y diddordeb (hynny yw'r rhagfarn neu'r rhagfarn ymddangosiadol) a bydd yn galluogi'r aelod i gymryd rhan yn y mater; efallai y bydd cyfyngiad ar gyfraniad yr aelod ac fe roddir y caniatâd am gyfnod penodol o amser.

## 2. CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo aelodau i ddefnyddio'r broses caniatâd arbennig pryd bynnag y bo'n briodol, ac mor effeithiol â phosib, mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyhoeddi Nodyn o Gyngor ac Arweiniad. Yn ogystal, rhoddwyd gwybodaeth i glercod cynghorau tref a

chymuned am y posibilrwydd o dderbyn caniatâd arbennig mewn e-bost wedi ei ddyddio 6 Mawrth 2017.

Yn aml mae angen caniatâd arbennig ar fyr rybudd, ac o fewn cyfnod o rybudd cyfreithiol lleiaf posib, ac oherwydd hynny mae'r Pwyllgor Safonau wedi sefydlu trefn lle y gellir galw ar Banel o dri aelod i ddelio ag unrhyw gais a dderbynnir rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor llawn. Gall unrhyw dri aelod annibynnol / Cyngor Sir gynnal gwrandawiad i geisiadau a dderbynnir gan gynghorwyr sir (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol) a chynhelir gwrandawiad i geisiadau gan gynghorwyr tref/cymuned gan aelodau annibynnol ac aelodau cyngor tref/cymuned (gyda mwyafrif o aelodau annibynnol).

## 3. CEISIADAU A DDERBYNIWYD ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF AR 13.03.2019

3.1 <u>Gwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 7 Mawrth 2019</u>

3.1.1 Cynhaliodd y Panel Caniatâd Arbennig Wrandawiad ar 7 Mawrth 2019 i ystyried cais a wnaed gan aelodau Cyngor Cymuned Llaneilian mewn perthynas â darparu addysg mewn ysgolion yn ardal Amlwch. Roedd dros hanner aelodau'r Cyngor Cymuned wedi cyflwyno cais a chafodd ei ystyried fel cais ar y cyd am ganiatâd arbennig.

3.1.2 Derbyniodd y Pwyllgor Safonau adroddiad llafar ar benderfyniad y Panel yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019.

3.1.3 Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn y Gwrandawiad ar 7 Mawrth 2019 ynghlwm yn **Atodiad 1**.

3.1.4 Mae cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig ynghlwm yn **Atodiad 2**.

3.1.5 Penderfynodd y Panel roi caniatâd arbennig heb gyfyngiadau i bob un o'r Cynghorwyr a enwyd a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig ar y telerau a ganlyn:

- Ysgrifennu at swyddogion a / neu'r Pwyllgor / Cyngor Cymuned ynglŷn â'r mater;
- Siarad gyda swyddogion y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r mater;
- Siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor / Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;
- Aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ynglŷn â'r mater;
- Pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny; a
- Mynychu a siarad mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac i siarad a chyfarfod â thrydydd partïon mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad hwn a'r prosiect yn gyffredinol; a
- Bod y caniatâd arbennig yn para tan ddiwedd y broses Moderneiddio Ysgolion yn ardal Amlwch neu am dymor y Cyngor Cymuned hwn, pa un bynnag yw'r hwyraf.

3.1.6 Rhoddwyd y caniatâd ar sail statudol (a) sef bod gan o leiaf hanner y Cynghorwyr Cymuned lle bydd y busnes yn cael ei ystyried ddiddordeb sy'n ymwneud â'r busnes hwnnw.

3.2 Gwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 22 Mawrth 2019

3.2.1 Yng Ngwrandawiad y Panel Caniatâd Arbennig ar 28 Ionawr 2019 i ystyried cais y Cynghorydd Llinos Medi Huws am ganiatâd arbennig, esboniodd y Panel ei fod yn ystyried y dylai unrhyw / pob aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n rhieni / neiniau neu deidiau i blant a phobl ifanc ar Ynys Môn a all gael eu heffeithio gan benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth addysg ôl-16 yn y Sir wneud cais am ganiatâd arbennig.

3.2.2 Cafodd cais gan 5 aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd yn neiniau/teidiau eu hystyried gan y Panel.

3.2.3 Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel yn y Gwrandawiad ar 22 Mawrth 2019 ynghlwm yn **Atodiad 3**.

3.2.4 Mae cofnodion drafft y Panel Caniatâd Arbennig ynghlwm yn **Atodiad 4**.

3.2.5 Penderfynodd y panel roi caniatâd arbennig heb gyfyngiadau i'r Cynghorwyr Dew, Jones, Mummery, Parry a Williams ar y telerau a ganlyn:

- Ysgrifennu at swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor / Cyngor ynglŷn â'r mater;
| **Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)** | o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;<br>o siarad gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;<br>o siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith /Pwyllgor/Cyngor ac ateb a gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;<br>o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater;<br>o pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;<br>o arall |
| **Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig (gweler trosodd am restr o'r rhesymau):** | |
| **A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000:** | **Ydy / Nac Ydy** |
| **Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:** | |
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu – diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

**Amgylchiadau lle gall Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig**

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) Mae gan o leiaf hanner Aelodau'r Cyngor neu Bwyllgor y Cyngor (fel sy'n briodol) fydd yn ystyried y busnes ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw;

(b) Mae gan o leiaf hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) fydd yn ystyried y busnes diddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw ac mae paragraff (d) neu (e) yn berthnasol hefyd;

(c) Byddai anallu Aelodau i gymryd rhan yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu unrhyw un o'i bwyllgorau fydd yn ystyried y busnes, i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y penderfyniad;

(d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;

(e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;

(g) Mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;

(h) Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r Aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli, ond nid fel cynrychiolydd o'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod unrhyw ddiddordeb arall yn y busnes hwnnw, ar yr amod nad yw'r caniatâd arbennig yn cynnwys cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o roddi caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu; neu

(j) Ymddengys i'r pwyllgor ei bod yn briodol rhoi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd (gwendid) yr Aelod a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR**

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | |

Yn unol â pharagraff [ ] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [ ] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- o siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- o siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn mater;
- o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â mater;
- o pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;
- o arall

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y trafodir a phleidleisir ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU
[a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig:______________________________

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN Y PWYLLGOR SAFONAU GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

| | |
|---|---|
| **Enw'r Aelod:** | • **Cynghorydd Richard Dew, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**<br>• **Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant**<br>• **Cynghorydd Alun Mummery, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau yn cynnwys Diogelwch Cymunedol**<br>• **Cynghorydd R. G. Parry OBE, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff**<br>• **Cynghorydd Robin Wyn Williams, Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllid** |
| **Manylion Cyswllt yr Aelod:** | **Gan ddilyn y drefn enwau uchod:-**<br>• **RICHARDDEW@ynysmon.gov.uk**<br>**01407 810825**<br>• **RMeirionJones@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 714270**<br>• **AlunMummery@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 714938**<br>• **BobParry@ynysmon.gov.uk**<br>**01407 720437**<br>• **RobinWilliams@ynysmon.gov.uk**<br>**07887 842404** |
| **Ward:** | **Gan ddilyn y drefn enwau uchod:-**<br>• **Llifon**<br>• **Aethwy**<br>• **Aethwy**<br>• **Canolbarth Môn**<br>• **Aethwy** |
| **Manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu* y gofynnir am Ganiatâd Arbennig yn ei chylch:** | **Mae'r pum aelod etholedig â enwir uchod yn deidiau i blant a phobl ifanc lleol â ellir gael eu heffeithio yn y dyfodol gan unrhyw benderfyniad â wneir ynghylch addysg ôl–16 yn y Sir.**<br><br>**Bydd penderfyniadau am hyn yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith dros y misoedd nesaf.**<br><br>**Mae'r Cynghorydd Robin Wyn Williams a'r Cynghorydd R Meirion Jones wedi eu henwebu gan y Cyngor i fod yn Lywodraethwyr yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.** |

| | |
|---|---|
| | **Mae Cynghorydd R Meirion Jones, wedi ei enwebu gan y Cyngor i fod yn aelod o Grŵp Llandrillo / Menai, Bwrdd Rheoli Cynnal a Chyd-Bwyllgor GwE – tri chorff sy'n ymwneud efo materion addysg (yn rhinwedd ei rôl fel deilydd portffolio ar gyfer Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant).**<br><br>**Mae darpariaeth yn y Côd Ymddygiad i ganiatáu i'r Cynghorydd R Meirion Jones a'r Cynghorydd Robin Williams, yn eu swyddogaethau fel Llywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor, a'r Cynghorydd R Meirion Jones fel cynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ar gyrff eraill, i gymryd rhan heb ganiatâd arbennig oherwydd maent wedi eu heithrio rhag bod â diddordebau sy'n rhagfarnu yn yr amgylchiadau hyn.**<br><br>**Mae'r cais ar gyfer caniatâd arbennig yn berthnasol i gysylltiadau teuluol yr ymgeiswyr yn unig.** |
| **Y busnes mae'r Aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo:** | **Materion addysg yn ymwneud â darpariaeth addysg ôl–16 yn y Sir.** |
| **Y math o Ganiatâd Arbennig y gofynnir amdano (rhowch ✓ fel sy'n briodol a chynhwyswch unrhyw wybodaeth sydd ei hangen)** | ○ **ysgrifennu at swyddogion a/~~neu'r~~ Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ynglŷn â'r mater**<br>○ **siarad gyda swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater ~~[ym mhresenoldeb dau berson arall] [ nad ydynt yn ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA~~], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;**<br>○ **siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith /Pwyllgor/Cyngor ac ateb a gofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r mater;**<br>○ **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â'r mater (ar gael pan fo Aelod efo anabledd);**<br>○ **pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;**<br>○ **arall – rhowch fanylion os gwelwch yn dda;**<br>**I gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd allanol a chyfarfodydd o unrhyw gyrff allanol yn ei gapasiti fel aelod etholedig.** |
| **Sail statudol ar gyfer gofyn am Ganiatâd Arbennig (gweler trosodd am restr o'r rhesymau):** | **(b) Mae gan o leiaf hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) fydd yn ystyried y busnes diddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw ac mae paragraff (d) neu (e) yn berthnasol hefyd;**<br><br>**(d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y** |

| | |
|---|---|
| | **Cyngor;**<br><br>**(e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;**<br><br>**(f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r bunes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigoedd penodol yr Aelod;**<br><br>**(g) Mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;**<br><br>**(i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu.** |
| **A yw'r diddordeb wedi'i gofrestru yn unol ag Adran 81(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000:** | **Mae swyddogaethau'r Cynghorwyr fel Llywodraethwyr ac aelod o fudiadau eraill wedi eu cofrestru.**<br><br>**Nid yw'r diddordebau eraill â nodir uchod wedi eu cofrestru, oherwydd nad ydynt yn addas ar gyfer eu cofrestru.** |
| **Dyddiad erbyn pryd y bydd angen y penderfyniad:** | **Cyn gynted â phosib.** |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

* Diddordebau sy'n Rhagfarnu – diddordebau personol yw'r rhain y byddai arsyllwr gwrthrychol yn ystyried eu bod mor sylweddol fel eu bod yn debygol o effeithio'n andwyol ar allu Aelod i weithredu er budd y cyhoedd.

## Amgylchiadau lle gall Pwyllgor Safonau Roddi Caniatâd Arbennig

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 yn nodi y caniateir i Bwyllgor Safonau'r Cyngor roi caniatâd arbennig o dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) Mae gan o leiaf hanner Aelodau'r Cyngor neu Bwyllgor y Cyngor (fel sy'n briodol) fydd yn ystyried y busnes ddiddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw;

(b) Mae gan o leiaf hanner Aelodau Pwyllgor Gwaith y Cyngor (h.y. Yr Arweinydd a'r Pwyllgor Gwaith) fydd yn ystyried y busnes diddordeb sy'n gysylltiedig â'r busnes hwnnw ac mae paragraff (d) neu (e) yn berthnasol hefyd;

(c) Byddai anallu Aelodau i gymryd rhan yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor, neu unrhyw un o'i bwyllgorau fydd yn ystyried y busnes, i'r fath raddau y byddai'n debygol o effeithio ar y penderfyniad;

(d) Mae natur diddordeb yr Aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn ymwneud ag ef yn andwyol i hyder y cyhoedd yn y modd yr ymdrinnir â busnes y Cyngor;

(e) Mae'r diddordeb yn gyffredin i'r Aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd;

(f) Mae cyfranogiad yr Aelod i'r busnes y mae'r diddordeb yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gyfiawnhau yn rhinwedd swyddogaeth neu arbenigedd penodol yr Aelod;

(g) Mae'r diddordeb cofrestradwy'n ymwneud â busnes fydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod ddiddordeb ariannol yn y busnes hwnnw;

(h) Mae'r busnes yn ymwneud ag arian neu eiddo sefydliad gwirfoddol y mae'r Aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli, ond nid fel cynrychiolydd o'r Cyngor, ac nid oes gan yr Aelod unrhyw ddiddordeb arall yn y busnes hwnnw, ar yr amod nad yw'r caniatâd arbennig yn cynnwys cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(i) Ymddengys i'r Pwyllgor Safonau fod y diddordeb yn ddiddordeb i drigolion ardal y Cyngor ac y dylid dileu'r anallu, cyhyd â bod hysbysiad ysgrifenedig o roddi caniatâd arbennig yn cael ei roi i Lywodraeth Cenedlaethol Cymru o fewn 7 niwrnod. Dylai hysbysiad o'r fath roi manylion am yr Aelod sydd wedi derbyn y caniatâd arbennig a rhesymau'r Pwyllgor Safonau dros ddileu'r anallu; neu

(j) Ymddengys i'r pwyllgor ei bod yn briodol rhoi caniatâd arbennig, fel ateb ymarferol i anabledd yr Aelod a fyddai'n golygu y byddai'n anodd iddynt adael yr ystafell/siambr pan drafodir mater y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo.

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

## PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR SAFONAU MEWN PERTHYNAS Â CHAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN AELOD O'R CYNGOR SIR

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Enw'r personau y dylid ei hysbysu am benderfyniad y Pwyllgor Safonau:** | |
| **Dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben:** | |

Yn unol â pharagraff [ ] Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu rhoi **caniatâd arbennig** i'r Cynghorydd [ ] mewn perthynas â'r diddordeb hwnnw y cyfeirir ato / y diddordebau hynny y cyfeirir atynt yn nhudalen 1 y Cais, sy'n caniatáu i'r Cynghorydd:

- o ysgrifennu at swyddogion [a/neu'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor] ynglŷn â'r mater;
- o siarad â swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r mater [ym mhresenoldeb dau berson arall] [nad ydynt yn Ymddiriedolwyr neu'n Aelodau o Fwrdd [NODWCH YMA], cyhyd ag y cedwir cofnod o unrhyw drafodaethau;
- o siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ac ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn mater;
- o aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/bleidlais ynglŷn â mater (oherwydd anabledd yr Aelod);
- o pleidleisio yn y cyfarfodydd hynny;
- o arall - ______________________________________________
  ______________________________________________

Mae gan y Cynghorydd felly hawl i siarad [a phleidleisio] yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor mewn perthynas â'r mater ac ateb unrhyw gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor [ond mae'n rhaid iddo/iddi adael y cyfarfod cyn y trafodir a phleidleisir ar y materion hynny y mae'r Cynghorydd yn siarad yn eu cylch] NEU
[a chaniateir iddynt aros yn yr ystafell yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater ond ni chaniateir iddynt bleidleisio ar y mater].

Cyn i'r Cynghorydd siarad â, neu ysgrifennu at, swyddogion y Cyngor, neu siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith/Pwyllgor/Cyngor ar y mater, mae'r rhaid i'r Cynghorydd :-

- ddatgan diddordeb yn y mater; a
- cadarnhau bod caniatâd arbennig wedi ei roi er mwyn caniatáu i'r Cynghorydd siarad [a phleidleisio] ar y mater; a
- cwblhau hysbysiad i'r Clerc yn manylu ar y diddordeb a'r caniatâd arbennig.

Drwy awdurdod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiedig:______________________________

**YSTYRIAETHAU CANIATÂD ARBENNIG**
**Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Safonau wrth ystyried ceisiadau gan Gynghorwyr am ganiatâd arbennig:**

1. Darllen:
    - Ystyriwch yr Adroddiad a baratowyd gan / ar ran y Swyddog Monitro.
    - Ystyriwch yr atodiadau i'r Adroddiad, yn arbennig y Ffurflen Gais a gwblhawyd gan y Cynghorydd, er mwyn casglu'r holl ffeithiau.

2. Ceisiadau Lluosog:
    - Ymdriniwch â phob cais yn unigol ac ar sail ei ffeithiau ei hun.
    - Ystyriwch y weithdrefn a ganlyn yn y Gwrandawiad:
        - Casglu gwybodaeth gefndir / cyffredinol (os oes angen);
        - Gwrando ar gais Cynghorydd A / gofyn cwestiynau os yw ef/hi yn bresennol / gofyn i'r Clerc;
        - Ymneilltuo i ystyried cais Cynghorydd A;
        - Ailgychwyn – gellir cyhoeddi'r penderfyniad mewn perthynas â chais Cynghorydd A, neu gellir dewis gohirio cyhoeddi'r penderfyniad hyd nes y bydd pob cais wedi'i ystyried;
        - Ailadrodd, yn dibynnu ar nifer y ceisiadau i'w hystyried.

3. Diddordeb Personol / Diddordeb Personol sy'n Rhagfarnu:
    - Ar gyfer pob cais, penderfynwch –
        - A oes <u>DIDDORDEB PERSONOL</u>?
            - Ystyriwch y Côd Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad)
            - – beth yw diddordeb personol?
        - A yw'r diddordeb personol yn ddiddordeb <u>SY'N RHAGFARNU</u>?
            - Unwaith eto, ystyriwch y Côd Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad) – a yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu hefyd?
    - Os nad oes diddordeb personol, neu os nad yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu, nid oes angen ystyried y cais am ganiatâd arbennig gan fod modd i'r Cynghorydd gymryd rhan lawn yn y busnes.

4. Sail ar gyfer Caniatâd Arbennig:
    - Os oes diddordeb personol sy'n rhagfarnu, ystyriwch ar ba SAIL y gellir rhoi caniatâd arbennig. Rhestrir y seiliau ar gefn y Ffurflen Gais.
        - A yw'r Ymgeisydd wedi eu nodi'n gywir ar y Ffurflen Gais?
        - A yw'r Ymgeisydd wedi cynnwys pob Caniatâd Arbennig sydd eu hangen ar y Ffurflen h.y. ar gyfer pleidleisio / siarad / ysgrifennu ayb?

5. Cyfyngiadau ar y Caniatâd Arbennig
    - Wrth benderfynu rhoi Caniatâd Arbennig neu beidio, ystyriwch (os bydd y Caniatâd Arbennig yn cael ei ganiatáu) a oes angen unrhyw gyfyngiadau. Materion megis caniatáu i'r Aelod siarad ond nid i bleidleisio, neu, a roddir y caniatâd arbennig am un cyfarfod yn unig yntau am weddill cyfnod y Cyngor.

6. Ffurflen Penderfyniad
    - Wrth roi'r caniatâd arbennig, bydd angen i'r Panel gwblhau'r Ffurflen Penderfyniad sy'n manylu ar (a) benderfyniad y Pwyllgor Safonau; (b) dyddiad gwneud y penderfyniad; (c) pwy sydd angen cael gwybod am y penderfyniad; (d) dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben; (e) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig; a (f) beth mae'r caniatâd arbennig yn caniatáu i'r Cynghorydd ei wneud (h.y. siarad, pleidleisio ayb).

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr Michael Wilson (Cadeirydd),<br>Ms Denise Harris-Edwards. |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Cyflwynwyd cais ar y cyd am ganiatâd arbennig gan y Cynghorwyr Richard Dew, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R G Parry OBE FRAgS a Robin W Williams (Aelodau'r Pwyllgor Gwaith), yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau ystyried rhoi caniatâd arbennig er mwyn goresgyn diddordebau sy'n rhagfarnu ym mhrosiect y Cyngor Sir ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn y Sir.

Roedd y Panel Caniatâd Arbennig, drwy'r Cadeirydd, eisoes wedi cytuno i ystyried cais ar y cyd ar ffurf ymarfer papur yn unig.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Cyngor Sir Ynys Môn, fel rhan o'i Strategaeth Moderneiddio Ysgolion, yn ymgynghori ynghylch dyfodol addysg ôl-16. Ar 28 Ionawr 2019 cynhaliodd y Pwyllgor Safonau Wrandawiad i ystyried cais am ganiatâd arbennig gan y Cynghorydd Llinos M Huws. Roedd un o'r rhesymau dros y cais hwnnw'n ymwneud â'r prosiect moderneiddio ysgolion ar gyfer addysg ôl-16. Yn y Gwrandawiad hwnnw, esboniodd Panel y Pwyllgor Safonau ei fod o'r farn y dylai aelodau eraill o'r Pwyllgor Gwaith, sydd yn rhieni ac yn neiniau a theidiau i blant/pobl ifanc ar Ynys Môn, a all hefyd gael eu heffeithio gan benderfyniadau ynghylch addysg ôl-16, wneud cais am ganiatâd arbennig hefyd.

Mae'r broses ymgynghori statudol ar addysg ôl-16 yn debygol o gychwyn yn ystod y misoedd nesaf. Bydd rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ymgynghoriad ac efallai y bydd gofyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud nifer o benderfyniadau yn ystod yr ymgynghoriad ac wedi iddo ddod i ben.

Ymhellach, adroddwyd fod y Cynghorwyr R Meirion Jones a Robin W Williams yn Llywodraethwyr yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Penodwyd y ddau Aelod yn rhinwedd eu rôl fel aelodau etholedig o'r Cyngor Sir. Mae eu penodiad fel Llywodraethwyr yn golygu fod ganddynt ddiddordeb personol yn unol â'r Côd Ymddygiad (Paragraff 10(2)(a)(viii)). Fodd bynnag, nid oes angen ystyried y prawf ym mharagraff 12(1) y Côd Ymddygiad er mwyn penderfynu a yw'r diddordeb personol hefyd yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu oherwydd bod eithriad awtomatig ym mharagraff 12(2)(a)(iii) y Cod sy'n golygu nad oes ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu.

Cyflwynwyd y cais ar y cyd yn bennaf ar y sail bod, ym marn y Pwyllgor Gwaith, dros hanner aelodau'r Pwyllgor Gwaith (mae 9 aelod o'r Pwyllgor Gwaith ac mae 5 wedi eu henwi yn y cais atodol) efo diddordeb personol a rhagfarnol.

Nododd y Cadeirydd, at ddibenion y cais hwn, y bydd y Panel felly yn ystyried cysylltiadau teuluol yr Ymgeiswyr mewn perthynas â'r Prosiect Moderneiddio Ysgolion ôl-16 yn unig.

Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Panel drafodaeth breifat ac yn dilyn y drafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Panel Caniatâd Arbennig wedi **PENDERFYNU:-**

- **rhoi caniatâd arbennig ar y cyd i'r Cynghorwyr Richard A Dew, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bob Parry OBE FRAgS a Robin W Williams hyd ddiwedd yr holl faterion mewn perthynas â'r Prosiect Moderneiddio Ysgolion ôl-16 neu am dymor y Cyngor Sir hwn (Mai 2022), pa un bynnag yw'r hwyaf;**
- **bod yr Aelodau yn datgan eu diddordeb sy'n rhagfarnu, a hefyd y ffaith eu bod wedi derbyn caniatâd arbennig gan Banel y Pwyllgor Safonau, ym mhob cyfarfod perthnasol pan fydd y Prosiect Moderneiddio Ysgolion ôl-16 yn cael ei drafod a/neu pan fydd pleidlais yn cael ei chynnal ar y mater hwnnw.**

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR SAFONAU (PANEL CANIATÂD ARBENNIG)** |
| **DYDDIAD:** | **29 MAWRTH 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I BENDERFYNU AR GAIS AM GANIATÂD ARBENNIG GAN GYNGHORYDD SIR (AELOD O'R PWYLLGOR GWAITH) A THELERAU UNRHYW GANIATÂD A RODDIR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**CYFREITHIWR (LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL)**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk / 01248 752566** |

**DOGFENNAU ATODOL**

1. Côd Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn
2. Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001
3. Adran 4 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016
4. Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig a ddarparwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gyfer aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â Ffurflenni Cais a Phenderfyniad
5. Cais Cynghorydd Carwyn Elias Jones (Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi)
6. Nodyn Methodoleg wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig

**1. CEFNDIR CYFREITHIOL**

Yn unol â Chod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn **(Atodiad 1)**, ni all aelodau sydd â diddordeb personol sy'n rhagfarnu drafod y mater hwnnw yn y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith, nac mewn unrhyw gyfarfod mae nhw'n ei fynychu yn rhinwedd eu swyddogaeth fel aelod o'r Cyngor.

Mae rhestr o ddiddordebau personol ym mharagraff 10 y Cod. Mae'r diffiniad o ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym mharagraff 12 y Cod.

Mewn rhai amgylchiadau penodol, a chyfyngedig, gall aelod oresgyn y rhwystr sy'n cael ei greu gan y diddordeb personol sy'n rhagfarnu drwy dderbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau.

Ni fedrir ond rhoi caniatâd arbennig yn yr amgylchiadau sy'n cael eu rhestru yn Adran 2 o **Atodiad 2**, ac wedi eu diwygio yn unol ag **Atodiad 3**. Yn ogystal, manylir ar yr amgylchiadau hyn yn y Nodyn Briffio ac ar gefn y Ffurflen Gais sydd yn rhan ohono (**Atodiad 4**).

## 2. CEFNDIR FFEITHIOL

Mae Moderneiddio Ysgolion yn un o amcanion Cyngor Sir Ynys Môn o fewn Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017-2022. Mae'n hysbys fod Cyngor Sir Ynys Môn, fel rhan o'i raglen Moderneiddio Ysgolion, yn cynnal ymgysylltiadau efo ysgolion uwchradd y sir ynghylch addysg ôl-16.

Ar 28 Ionawr 2019, cynhaliwyd Gwrandawiad er mwyn ystyried cais am ganiatâd arbennig Cynghorydd Llinos Medi Huws ynghylch dau fater, ac un oedd darpariaeth addysg ôl-16 yn Ynys Môn.  Yn y Gwrandawiad hwnnw, eglurodd y Panel ei fod yn ystyried y dylai cais am ganiatâd arbennig gael ei wneud gan aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith sydd yn rieni neu yn deidiau/neiniau i blant a phobl ifanc yn Ynys Môn, a ellir eu heffeithio gan benderfyniad ynghylch addysg ôl-16 yn y Sir.

Ar 22 Mawrth 2019, cynhelir Gwrandawiad er mwyn ystyried cais am ganiatâd arbennig pum aelod o'r Pwyllgor Gwaith sydd yn deidiau i blant a phobl ifanc yn Ynys Môn, a ellir eu heffeithio gan benderfyniad ynghylch addysg ôl-16 yn y Sir.

Mae'n debygol y bydd proses ymgynghori statudol ar addysg ôl-16 yn dechrau o fewn y misoedd nesaf. Yn ystod y broses yna, bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion a phenderfyniadau.  Bydd y mater yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini ar wahanol ysbeidiau.  Y Pwyllgor Gwaith fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

**3. Y CAIS**

Rhaid i unrhyw aelod sydd eisiau caniatâd arbennig wneud cais ysgrifenedig sy’n egluro’r rhwystr a’r egwyddor mae o eisiau dibynnu arni er mwyn ymgeisio. Bydd y Pwyllgor Safonau, neu Banel o’r Pwyllgor Safonau, yn gwrando ar y cais mewn cyfarfod cyhoeddus.

Mae’r cais sydd angen ei ystyried wedi ei atodi yn **Atodiad 5** ac mae’r cais yn nodi’r busnes y mae’r aelod yn dymuno cymryd rhan ynddo, y math o ganiatâd mae o’n gofyn amdano a’r sail stadudol ar gyfer gwneud y cais. Mae diddordeb yr ymgeisydd yn ddeublyg – (1) mae’n riant i blant a ellir eu heffeithio gan benderfyniad ynghylch addysg ôl-16 yn y Sir; a (2) mae’n cael ei gyflogi fel Darlithydd i Grŵp Llandrillo / Menai, sy’n ddarparwr addysg ôl-16.

O fewn **Atodiad 5,** nodir fod Cynghorydd Carwyn Elias Jones yn Lywodraethwr yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Mae wedi ei benodi yn rhinwedd ei rôl fel aelod etholedig yn y Cyngor Sir. Mae ei apwyntiad fel Llywodraethwr yn golygu fod ganddo ddiddordeb personol o dan y Cod Ymddygiad (gweler paragraff 10(2)(a)(viii)). Fodd bynnag, nid oes angen ystyried y prawf ym mharagraff 12(1) y Cod Ymddygiad i benderfynnu os ydi’r diddordeb personol yn ddiddordeb sy’n rhagfarnu oherwydd bod eithriad awtomatig ym mharagraff 12(2)(a)(iii) y Cod sy’n golygu nad oes ganddo ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Mae’r ddarpariaeth yma o fewn y Cod yn galluogi’r Cynghorydd i gymryd rhan lawn mewn materion addysg yn gyffredinol, a’r materion hynny sy’n delio efo Ysgol David Hughes yn benodol, oherwydd fod Llywodraethwyr sydd wedi eu penodi gan y Cyngor wedi eu heithrio rhag cael diddordeb rhagfarnol yn yr amgylchiadau yma. Mae Cynghorydd Carwyn Elias Jones yn Lywodraethwr mewn ysgolion cynradd hefyd ond tydi manylion yr apwyntiadau yma ddim wedi eu nodi yn y cais oherwydd na fydd ysgolion cynradd yn cael eu heffeithio gan y Cynllun Moderneiddio Ysgolion ar gyfer addysg Ôl-16.

Bydd y Panel yn cofio i’r Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad, sy’n Reolwr Prosiect efo Moderneiddio Ysgolion, fynychu’r Gwrandawiad ar 28 Ionawr 2019 er mwyn darparu gwybodaeth ynghylch y Prosiect ei hun. Nid oes bwriad iddo fynychu’r Gwrandawiad hwn, ond mae wedi darparu gwybodaeth benodol ynghylch y Prosiect a’i effaith posib ar Grŵp Llandrillo/Menai:-

> Gall penderfyniad y Cyngor ynghylch addysg ôl-16 olygu fod sefyllfa bresennol Grŵp Llandrillo/Menai yn parhau fel ag y mae h.y. bod Coleg Menai yn parhau i

ddarparu'r mwyafrif o addysg galwedigaethol tra bod y dosbarthiadau 6ed yn yr ysgolion yn dysgu lefel 'A'. Ar y llaw arall, gallai penderfyniad y Cyngor olygu y bydd cyfle i Grŵp Llandrillo/Menai feithrin a datblygu darpariaeth addysg ôl-16 ehangach nag sydd ar hyn o bryd yn weithredol o fewn y grŵp ym Môn (oherwydd gallai'r Cyngor benderfynu peidio parhau gyda'r ddarpariaeth 6ed yn un neu fwy o'r ysgolion uwchradd, a byddai holl bynciau lefel 'A' yr Ynys yn cael ei dysgu drwy Coleg Llandrillo Menai).

Nid oes proses ymgynghori statudol wedi dechrau eto, ac felly nid oes opsiynau wedi eu pennu, ond yr effeithiau posib o unrhyw benderfyniad ynghylch darpariaeth addysg ôl-16 ar Grŵp Llandrillo/Menai, yw

- Gallai'r Grŵp beidio cynnig darpariaeth Lefel 'A' a pharhau gyda blaenoriaeth i'r cyrsiau galwedigaethol;
- Gallai'r Grŵp fod yn cystadlu gydag ysgolion yr Ynys (neu goleg chweched ar wahân) drwy ddarparu mwy o ddarpariaeth lefel 'A'
- Gallai'r Grŵp fod yr unig ddarparwr ar gyfer addysg lefel 'A' (petai'r ysgolion yn peidio)

Ar hyn o bryd (a rhagwelir y rhif yma bob blwyddyn am y 5 mlynedd nesaf), mae oddeutu 550 o ddisgyblion sydd eisiau Addysg Lefel 'A' yn yr ysgolion. Os bydd darpariaeth addysg ôl-16 yn stopio yn gyfan gwbl yn yr ysgolion, mae potensial fod y 550 yma'n chwilio am ddarparwr Lefel 'A' arall - a gallai Grŵp Llandrillo/Menai elwa o hyn.

Bydd yr ymgeisydd yn mynychu gerbron Panel y Pwyllgor Safonau er mwyn cyflwyno ei gais a chynnig unrhyw wybodaeth bellach er budd y Panel.

## 4. YSTYRIAETHAU'R PANEL

Dylai'r Panel gysidro dilyn y Nodyn Methodoleg (**Atodiad 6**) sy'n rhestru'r materion hynny sydd angen eu hystyried gan y Panel.

Nodir fod y cais yn cael ei wneud ar y sail fod, ym marn Panel y Pwyllgor Safonau, dros hanner aelodau'r Pwyllgor Gwaith efo diddordeb personol a rhagfarnol. Mae 9 aelod o'r

Pwyllgor Gwaith. Mae’r Arweinydd wedi derbyn caniatâd arbennig ar 28 Ionawr 2019. Ystyrir cais pum aelod arall o’r Pwyllgor Gwaith ar 22 Mawrth 2019. Dyma’r seithfed aelod i ddatgan diddordeb rhagfarnol.

Mewn unrhyw achos lle mae’r Panel yn penderfynu rhoi caniatâd arbennig, rhaid i’r Panel ystyried hefyd a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau ar y caniatâd e.e. cyfyngu’r caniatâd i’r diddordebau penodol hynny sydd wedi eu nodi yn y cais yn unig neu ei ymestyn i gynnwys materion eraill fydd yn codi o’r mater hwn yn y dyfodol, ayyb. Cyfeirir y Panel at y ‘Ffurflen Benderfyniad’ sydd wedi ei chynnwys yn **Atodiad 4** sy’n nodi’r ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof pan yn rhoi caniatâd arbennig i ymgeisydd.

## 5. ARGYMHELLION

I ystyried y cais yn ôl ei haeddiant, a

(A) Phenderfynu â ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio; ac

(B) os yn rhoi caniatâd arbennig, ystyried :-

- (i) ar ba sail y mae’r caniatâd arbennig yn cael ei roi; ac
- (ii) a ddylid gosod unrhyw gyfyngiadau/rwystrau ar y caniatâd.

## 5.1 Côd Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

**Rhan 1 – Dehongli**

1. (1) Yn y cod hwn

mae "aelod" ("member") yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("co-opted member"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr "eich awdurdod" ("your authority") yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("relevant authority") yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr "cofrestr o fuddiannau'r aelodau" ("register of members' interests") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "cyfarfod" ("meeting") yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

**Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy’n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â’r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw’n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i’r graddau y mae’n gwrthdaro â’r cyfryw rwymedigaethau.

4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a’ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i’r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo’u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy’n cyfaddawdu, neu sy’n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy’n gweithio i’ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i’r Cyngor Sir am y tro cyntaf a’r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod di-dor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu’r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai’n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o’r fath, neu onid yw’r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i’w gweld yn ôl y gyfraith.

6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy’n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p’un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu’n uniongyrchol i’r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy’n gweithio i’ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae’n rhesymol i chi fod o’r farn ei fod yn golygu neu’n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae’n rhesymol i chi fod o’r farn ei fod yn groes i’r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy’n gweithio i’ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**Rhan 3 - Buddiannau**

Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y

buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o
leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy’n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o’r cyhoedd sy’n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o’r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy’n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â’ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â’r ysgol yr ydych yn un o’i llywodraethwyr;

(v) â’ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda’ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i’ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw’r swyddogaethau hynny’n ymwneud yn arbennig â’ch tenantiaeth neu â’ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi’n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu’n nain neu’n dad-cu neu’n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y’i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy’n cael addysg amser llawn, onid yw’r busnes yn benodol gysylltiedig â’r ysgol y mae’r plentyn hwnnw’n ei mynychu;

       - Unwaith eto, ystyriwch y Côd Ymddygiad (wedi ei gynnwys fel atodiad i'r Adroddiad) – a yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu hefyd?
   - Os nad oes diddordeb personol, neu os nad yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu, nid oes angen ystyried y cais am ganiatâd arbennig gan fod modd i'r Cynghorydd gymryd rhan lawn yn y busnes.

4. Sail ar gyfer Caniatâd Arbennig:
   - Os oes diddordeb personol sy'n rhagfarnu, ystyriwch ar ba SAIL y gellir rhoi caniatâd arbennig. Rhestrir y seiliau ar gefn y Ffurflen Gais.
     - A yw'r Ymgeisydd wedi eu nodi'n gywir ar y Ffurflen Gais?
     - A yw'r Ymgeisydd wedi cynnwys pob Caniatâd Arbennig sydd eu hangen ar y Ffurflen h.y. ar gyfer pleidleisio / siarad / ysgrifennu ayb?

5. Cyfyngiadau ar y Caniatâd Arbennig
   - Wrth benderfynu rhoi Caniatâd Arbennig neu beidio, ystyriwch (os bydd y Caniatâd Arbennig yn cael ei ganiatáu) a oes angen unrhyw gyfyngiadau. Materion megis caniatáu i'r Aelod siarad ond nid i bleidleisio, neu, a roddir y caniatâd arbennig am un cyfarfod yn unig yntau am weddill cyfnod y Cyngor.

6. Ffurflen Penderfyniad
   - Wrth roi'r caniatâd arbennig, bydd angen i'r Panel gwblhau'r Ffurflen Penderfyniad sy'n manylu ar (a) benderfyniad y Pwyllgor Safonau; (b) dyddiad gwneud y penderfyniad; (c) pwy sydd angen cael gwybod am y penderfyniad; (d) dyddiad y daw'r caniatâd arbennig i ben; (e) ar ba sail y rhoddir y caniatâd arbennig; a (f) beth mae'r caniatâd arbennig yn caniatáu i'r Cynghorydd ei wneud (h.y. siarad, pleidleisio ayb).

ATODIAD 8

# PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | **Aelodau Lleyg**<br><br>Mr Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr John Robert Jones<br>Mr Keith Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Swyddog Pwyllgor ddatganiad o ddiddordeb personol yn y cyfarfod gan fod ei gŵr yn berthyn pell i'r ymgeisydd.

**2. CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG**

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) bod cais am ganiatâd arbennig wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Derek Owen, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbadrig mewn perthynas â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn nalgylch Amlwch. Mae'r Cynghorydd Owen yn dymuno cymryd rhan yn y trafodaethau yn ystod y broses.

Mae'r Cynghorydd Owen yn ystyried fod ganddo ddiddordeb bersonol gan ei fod yn daid i blant sy'n mynychu Ysgol Penysarn, sef un o'r ysgolion sydd dan ystyriaeth fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar gyfer ardal Amlwch. Ysgol Cemaes yw'r ysgol leol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanbadrig ac mae'r ysgol hon hefyd dan ystyriaeth fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar gyfer ardal Amlwch. Mae diddordeb rhagfarnus y Cynghorydd Owen yn codi o'r ffaith bod Ysgol Penysarn ac Ysgol Cemaes yn rhan o'r un gyfres o ysgolion y bydd eu dyfodol yn cael ei adolygu.

Roedd y Panel Caniatâd Arbennig, drwy'r Cadeirydd wedi cytuno i ystyried y cais ar sail ymarfer papur yn unig. Nid oedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) at y Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngor Cymuned Llanbadrig a thynnodd sylw at y sail perthnasol dros ddiddordeb personol y Cynghorydd Owen, sef Paragraff 10(2)(c)(i) ac mae'r cwestiwn a yw'r diddordeb yn rhagfarnus yn cael ei ystyried o dan Baragraff 12(1).

Eglurodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i'r Panel, petai'n cytuno bod gan y Cynghorydd Owen ddiddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu, y byddai

wedyn angen i'r Panel benderfynu a fyddai'n rhoi caniatâd arbennig, ac os felly, ar ba sail ac a fyddai'n ganiatâd arbennig llawn neu rhannol.

Adroddodd y Swyddog Monitro, wrth benderfynu ar ddiddordeb sy'n rhagfarnu, nad dim ond rôl y sawl sy'n gwneud y penderfyniad sy'n rhaid ei ystyried, ond dylanwadu ar benderfyniad pwysig, sy'n creu diddordeb rhagfarnus. Nododd fod y posibilrwydd o gau ysgol neu ysgolion yn fater sylweddol ar gyfer yr ardal a'r rhai a effeithir arnynt.

Adroddodd y Swyddog Monitro, fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio ysgolion, y gallai Cadeiryddion Cyrff Llywodraethwyr fynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor Sir er mwyn cyflwyno eu safbwyntiau. Yna, bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cyflwyno ei safbwyntiau i'r Pwyllgor Gwaith, a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

Trafododd y Panel yr amgylchiadau unigol mewn perthynas â'r cais ac fe gytunwyd fod diddordeb y Cynghorydd Owen yn bersonol ac yn rhagfarnu. Gan fod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi caniatâd arbennig o dan amgylchiadau tebyg yn y gorffennol (h.y. Nain neu taid plant sy'n mynychu Ysgolion a effeithir gan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion) ystyriwyd fod gan yr ymgeisydd ddiddordeb personol a diddordeb rhagfarnus yn y cyswllt hwn hefyd.

Cynhaliodd Aelodau'r Panel drafodaeth breifat. Yn dilyn trafodaeth, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Safonau wedi **PENDERFYNU rhoi caniatâd arbennig llawn i'r Cynghorydd Derek Owen o Gyngor Cymuned Llanbadrig i:-**

- **ysgrifennu at swyddogion a/neu'r Pwyllgor/Cyngor Cymuned mewn perthynas â'r mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor Cymuned am y mater heb amodau;**
- **siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor/Cyngor Cymuned ac ateb unrhyw gwestiynau am y mater;**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth a phleidleisio ar y mater;**
- **cymryd rhan yn yr holl gyfarfodydd allanol a chyfarfodydd unrhyw gyrff allanol yn ei gapasiti fel aelod o'r Cyngor Cymuned.**

**Rhoddir y caniatâd arbennig o dan Baragraff 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar y sail ganlynol:-**

**(d) mae natur y diddordeb o'r fath na fyddai cymryd rhan yn y busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd; ac**
**(f) mae modd cyfiawnhau'r Cynghorydd yn cymryd rhan o ganlyniad i'w rôl neu arbenigedd penodol (fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanbadrig).**

**Bydd y Caniatâd Arbennig yn ddilys tan i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben a than i'r holl drafodaethau/penderfyniadau yn ymwneud â neu sy'n codi o unrhyw ymgynghoriad o'r fath mewn perthynas â'r ddarpariaeth o addysg yn ardal Amlwch ddod i ben neu tan ddiwedd tymor presennol y Cynghorydd Derek Owen ar Gyngor Cymuned Llanbadrig, pa bynnag un sydd hwyraf.**

**Gweithred:**

- **Y Swyddog Monitro i ysgrifennu at y Cynghorydd Owen yn cadarnhau ei fod wedi cael caniatâd arbennig llawn yn caniatáu iddo ysgrifennu at swyddogion; siarad a phleidleisio ar yr holl faterion yn ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion;**
- **Y Swyddog Monitro i hysbysu Clerc Cyngor Cymuned Llanbadrig am benderfyniad y panel o ran y caniatâd arbennig a amlinellwyd uchod.**
- **Y Cynghorydd Owen i ddatgan ei ddiddordeb personol a'i ddiddordeb sy'n rhagfarnu pan fydd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor/Cyngor Cymuned ac i gadarnhau ei fod wedi derbyn caniatâd arbennig.**

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad o Gofrestrau Diddordeb aelodau etholedig a chyfetholedig CSYM** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cynghori aelodau'r Pwyllgor Safonau ar y canfyddiadau a chytuno i rannu'r nodyn cynghori gydag aelodau etholedig a chyfetholedig** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## A ADOLYGIAD O GOFRESTRAU'R AELODAU ETHOLEDIG

### 1. Cefndir

1.1 Yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth 2019, penderfynodd y Pwyllgor Safonau gynnal adolygiad o'r tair cofrestr o ddiddordebau aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig CSYM.

1.2 Cafodd yr adolygiad ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig y Cyngor (ac eithrio aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Safonau – gweler Adran B yr adroddiad hwn) ei gynnal ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019.

1.3 Penderfynwyd hefyd yn y cyfarfod ar 13 Mawrth 2019 y byddai llythyr cyffredinol yn cael ei anfon at holl yr holl aelodau yn cadarnhau canlyniad yr adolygiad a hynny'n dilyn trafodaeth anffurfiol gan y Pwyllgor Safonau ar ganfyddiadau pob aelod. Penderfynwyd hefyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'n mynychu'r cyfarfod nesaf o'r Arweinyddion Grwpiau yn dilyn yr adolygiad er mwyn trafod y canfyddiadau.

1.4 Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'r cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau ar 21 Mawrth 2019 er mwyn sôn wrth yr Arweinyddion Grwpiau am fwriadau a chynigion y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r adolygiad o'r cofrestrau. Yn ogystal, fe fynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau y cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau ar 5 Medi pryd trafodwyd materion a oedd yn codi o'r adolygiad o'r cofrestrau.

1.5 Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol o aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau (a gynhaliodd yr adolygiadau) ar 19 Gorffennaf 2019.

1.6 Mae llythyr cynghori cyffredinol wedi cael ei ddrafftio yn seiliedig ar y trafodaethau yn y cyfarfod ar 19 Gorffennaf ac mae ynghlwm yn **Atodiad 1**.

## 2. Canfyddiadau Cyffredinol

2.1 Credir bod yr adolygiad wedi bod yn ymarfer buddiol. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Safonau'n blês gyda'r canfyddiadau oherwydd nodwyd nifer o arferion da. Nodwyd rhai meysydd a oedd yn peri pryder hefyd ac fel yr eglurwyd yn yr e-bost i aelodau (**Atodiad 1**), mae angen rhoi sylw i'r rhain. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, er bod lle i wella o hyd, mae'r safonau'n well unwaith eto na rhai'r flwyddyn flaenorol a bod hynny'n galonogol.

2.2 O ganlyniad i'r adolygiad ac fel y nodir yn **Atodiad 1**, bydd angen codi rhai materion gyda swyddogion y Cyngor, sef:

2.2.1 <u>Adain TGCh / Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd:</u>

Nid yw'r cyfan o'r Adroddiadau Blynyddol ar gael ar y wefan. Os yw Cynghorwyr wedi cwblhau Adroddiadau Blynyddol, dylid eu cyhoeddi.

2.2.2 <u>Adain TGCh / Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol:</u>

Mae Cynghorwyr yn gorfod diweddaru eu cofnodiadau hyfforddiant eu hunain. A fyddai modd darparu hyfforddiant pellach i aelodau ynghylch sut i wneud hyn?

2.2.3 <u>Adain TGCh:</u>

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i aelodau cyfetholedig gofnodi eu hyfforddiant ar-lein. Er mwyn sicrhau tryloywder, a fyddai modd trefnu hyn?

2.2.4 <u>Adain TGCh:</u>

A oes modd cynnwys dolen i'r Caniatadau Arbennig a roddwyd i aelodau o dudalen bywgraffiad/adroddiad blynyddol pob aelod?

## B ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEB AELODAU'R PWYLLGOR SAFONAU

### 3. Cefndir

3.1 Fel ymarfer ar wahân, penderfynwyd y byddai aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau'n cynnal adolygiad o ddiddordebau aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau.

3.2 Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ar 28 Mehefin 2019.

3.3 Anfonwyd llythyrau cynghori at y 5 aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ar 19 Gorffennaf 2018.

### 4. Canfyddiadau Cyffredinol (Aelodau Cyfetholedig yn gyffredinol)

4.1 Mae'r canfyddiadau cyffredinol a wnaed, sy'n cyfeirio at gyfyngiadau systemau yn hytrach na bod yn adlewyrchiad ar weithredoedd yr aelodau annibynnol, yn cynnwys:

4.1.1 Nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch hyfforddiant i aelodau annibynnol ar gael ar-lein. Ym marn yr adolygwyr, dylid cyhoeddi'r manylion hyn. Hyd yn oed os na fydd modd mewnbynnu'r manylion ar feddalwedd y wefan, cynigiwyd y dylid cyhoeddi dogfen pdf ar gyfer pob aelod ar eu tudalen bywgraffiad (pob aelod unigol i gadw rhestr) a rhestru ar hon yr holl hyfforddiant a fynychwyd.

4.1.2 Gwyddys fod un aelod wedi datgan diddordeb mewn cyfarfod ac mae'r Cofnodion y cyfarfod hwnnw'n cadarnhau y gwnaed y datganiad. Fodd bynnag, nid yw manylion am y datganiad yn ymddangos ar ôl gwneud chwiliad o'r holl ddatganiadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw ar y wefan; a hynny fe dybir oherwydd nad yw'r wefan ond yn caniatáu datganiadau gan aelodau etholedig (h.y. mae'r gwymplen yn cynnwys enwau'r aelodau etholedig yn unig ac nid yr aelodau cyfetholedig). Roedd yr adolygwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol bod hyn yn cael ei gyhoeddi ar y wefan oherwydd mae'r wybodaeth a rennir gydag aelodau'r cyhoedd yn anghyson.

4.1.3 Ar sail y canlyniad a nodir yn 3.4.2 uchod, roedd yn anodd i'r adolygwyr fod yn siŵr a oedd y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ar y wefan ynghylch "datganiadau mewn cyfarfodydd" a "rhoddion a lletygarwch" yn gywir oherwydd nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys. A fedr yr adolygwyr dybio bod hyn oherwydd nad oedd unrhyw ddatganiadau wedi cael eu gwneud gan yr aelodau annibynnol mewn cyfarfodydd a/neu bod ddim rhoddion neu lletygarwch wedi'u derbyn? Ynteu a oedd hyn oherwydd nad yw'r rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan (oherwydd nad yw enwau'r aelodau annibynnol wedi'i eu cynnwys ar y gwymplen)?

4.2 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau a yw'n dymuno i faterion 4.1.1 – 4.1.3 gael eu codi gyda'r adain TG.

## 5 ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau

(a) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn;

(b) Cymeradwyo cynnwys **Atodiad 1** a chadarnhau ei fod yn cytuno i'r llythyr gael ei rannu gydag aelodau cyfetholedig ac aelodau etholedig;

(c) Cadarnhau ei fod yn cytuno i ddilyn y camau gweithredu a nodir mewn perthynas â'r eitemau sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 2.2 yr adroddiad hwn; a

(d) Penderfynu a ydyw am gysylltu gyda'r adain TG mewn perthynas â'r eitemau sydd wedi eu nodi ym mharagraff 4.1 yr adroddiad hwn neu pa gamau eraill (os o gwbl) y mae'n dymuno eu cymryd.

Annwyl Aelod,

Fel y gwyddoch, fel rhan o'i raglen waith flynyddol, cynhaliodd y Pwyllgor Safonau adolygiad o'r tair Cofrestr mewn perthynas â datganiadau o ddiddordebau gan Aelodau. Mae'r Pwyllgor Safonau'n credu mai ei rôl yw cynorthwyo Aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau ac mae'n bleser gennyf ddweud bod yr adolygiad diweddaraf hwn yn galonogol ac yn sicr yn welliant o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol ond bod lle i wella ymhellach yn achos rhai Aelodau.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cymorth gyda'r adolygiad. Roedd yr wybodaeth a adolygwyd yn cynnwys: -

- Y Gofrestr Sefydlog
- Datganiadau o ddiddordeb a wnaed mewn cyfarfodydd
- Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau
- Rhaglenni a Chofnodion Cyfarfodydd
- Hyfforddiant a gynigir gan y Cyngor a Chofnod Hyfforddi pob aelod
- Adolygiadau Datblygiad Personol (dim manylion – dim ond fod hyn wedi'i gynnig)
- Bywgraffiadau fel y maent yn ymddangos ar wefan y Cyngor
- Rhestr Cyrff Allanol

Yn dilyn Adolygiad eleni, mae'r Pwyllgor yn gofyn i chi roi sylw dyladwy i'w gasgliadau cyffredinol / argymhellion fel a ganlyn: -

**Y Gofrestr Sefydlog**

Cafwyd enghreifftiau yn ddiweddar o gwynion yn cael eu cyflwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) oherwydd nad oes digon o wybodaeth yn cael ei chynnwys ar Gofrestr Sefydlog rhai unigolion. O'r herwydd, anogir Aelodau i gymryd y materion isod yn benodol i ystyriaeth:

1. Sicrhau bod cyfeiriadau a daliadau tir wedi'u disgrifio'n glir ac yn gyflawn. Yn ychwanegol at hyn, os nad oes gan Aelod ddiddordeb mewn unrhyw dir, dylent nodi 'Dim' neu 'Dim Diddordebau' ar y gofrestr.

2. Mae hefyd yn bwysig bod Aelodau'n datgelu eu haelodaeth o gyrff cyhoeddus, elusennau a chymdeithasau cyhoeddus eraill. Dylai aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y sefydliadau / elusennau y maent yn aelodau ohonynt. Dylai'r Aelodau hefyd adolygu eu Cofrestrau i siecio eu bod wedi cynnwys manylion am eu statws yn y sefydliadau hynny.

3. Ble mae Aelodau'n datgan eu bod yn llywodraethwyr ysgol, dylid nodi enw'r ysgol ar y Gofrestr ac ym mha gapasiti y maent yn gwasanaethu, h.y. wedi eu penodi gan y Cyngor, rhiant-llywodraethwr ac ati. Y rheswm am hynny yw fod hyn yn effeithio ar hawl Aelodau i siarad/pleidleisio ar rai materion oherwydd efallai y bydd modd/na fydd modd dibynnu ar y caniatâd sydd wedi ei gynnwys yn y Côd Ymddygiad.

4. Ble mae Aelodau wedi eu hethol neu eu cyfethol ar Gyngor Tref/Cymuned arall, dylid cynnwys aelodaeth y Cyngor hwn yn y Gofrestr Sefydlog.

5. Atgoffir Aelodau o’r angen statudol i ddiweddaru’r Gofrestr Sefydlog o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid.

6. Atgoffir Aelodau hefyd o’r angen statudol i ddiweddaru’r Gofrestr Sefydlog yn dilyn pob etholiad, hyd yn oed os nad yw’r wybodaeth yn newid.

7. Er nad yw’n ofyniad statudol, anogir Aelodau i adolygu eu Cofrestr Sefydlog yn flynyddol hyd yn oed os nad oes unrhyw newidiadau er mwyn diweddaru’r dyddiad (sy’n ymddangos ar-lein) ac sy’n dangos bod y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan yr Aelod.

**Datgan diddordebau mewn cyfarfodydd**

1. Pan fydd Aelodau'n ticio'r blwch i ddatgan diddordeb, rhaid iddynt hefyd nodi manylion y diddordeb hwnnw. Rhaid i natur y diddordeb ac a yw'r diddordeb hwnnw yn ddiddordeb personol neu’n un sy'n rhagfarnu fod yn amlwg ar y ffurflen.

2. Mae angen mwy o eglurder mewn perthynas â'r wybodaeth a ddarperir gan yr Aelodau ynghylch natur y diddordeb a’r modd y mae'n ymwneud â'r eitem ar yr agenda.

3. Ni ddylai Aelodau ddefnyddio byrfoddau sefydliadau ac ati ar y ffurflenni datgan na chymryd yn ganiataol bod gan y sawl sy’n ei darllen wybodaeth gefndirol am y diddordeb sy’n cael ei datgan.

4. Anogir Aelodau i lenwi’r ffurflenni’n gyflawn gan ateb pob cwestiwn yn y drefn gywir.

5. Os yw Aelodau’n ansicr ynghylch a oes ganddynt ddiddordeb y mae angen ei ddatgan mewn cyfarfodydd, dylent ofyn am gyngor.

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**

1. Un datganiad a nodwyd mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch.

2. Gwahoddir Aelodau i ail-ymgyfarwyddo eu hunain â’r Protocol Rhoddion a Lletygarwch er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod pryd i’w datgan.

**Adroddiadau Blynyddol**

1. Nid yw’r holl Adroddiadau Blynyddol yn ymddangos ar y wefan ac mae’r Pwyllgor Safonau’n gwneud ymholiadau ynghylch hyn.

2. Mae dau o’r 30 Aelodau wedi penderfynu peidio â chyhoeddi Adroddiadau Blynyddol. Er nad oes unrhyw ofyniad statudol ar Aelodau i gynhyrchu Adroddiadau Blynyddol, mae’r Pwyllgor Safonau o’r farn bod hyn yn arfer dda ac anogir Aelodau i ddarparu’r wybodaeth hon.

## Hyfforddiant

1. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rhoes y Pwyllgor Safonau ystyriaeth i'r cofnod hyfforddiant sydd ar gael ar-lein (mae pob Aelod yn bersonol gyfrifol am eu diweddaru) a rhestr o bresenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddiant a drefnwyd gan yr Adain Adnoddau Dynol. Mae'r Pwyllgor Safonau'n pryderu fod Aelodau yn gwneud cam â nhw eu hunain oherwydd ymddengys eu bod yn cofnodi llai o sesiynau hyfforddiant ar-lein nag y maent wedi eu mynychu mewn gwirionedd.

2. Ar y llaw arall, ystyriwyd bod nifer y digwyddiadau hyfforddiant a fynychwyd gan rai Aelodau'n isel (fel yr oedd eu presenoldeb mewn cyfarfodydd). Codwyd y mater hwn gyda'r Arweinyddion Grwpiau. Anogir Aelodau i fynychu hyfforddiant a chyfarfodydd yn unol â'r ceisiadau y maent yn eu derbyn.

3. Anogir Aelodau i gwblhau eu cofnod hyfforddiant ar-lein ar ôl bob digwyddiad hyfforddiant. Mae hyfforddiant yn cynnwys digwyddiadau yn y dosbarth, e-ddysgu a sesiynau briffio.

4. Mae'r Pwyllgor Safonau'n ceisio trefnu hyfforddiant pellach i Aelodau ynghylch sut i ddiweddaru eu cofnodiadau hyfforddiant.

5. Mae ymholiadau'n mynd rhagddynt hefyd ynghylch cofnodi hyfforddiant aelodau cyfetholedig oherwydd nid yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd. Ym marn y Pwyllgor Safonau, mae hyn yn wendid yn y system y dylid ei gywiro cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn darparu sicrwydd a thryloywder.

## Adolygiadau Datblygiad Personol

1. Nid yw ADP yn orfodol ac maent y tu allan i sgôp uniongyrchol y pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mae Arweinyddion Grwpiau wedi cael eu hannog i gynnig yr opsiwn o ADP i Aelodau ac anogir Aelodau i fynychu pan gânt wahoddiad.

2. Mae ADP yn declynnau defnyddiol i ddatblygu cynllun anghenion hyfforddiant ar gyfer pob Aelod a bwydo i mewn i'r hyfforddiant a gynigir i Aelodau yn gyffredinol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn benodol, yn ddefnyddiol, wedi'i dargedau ac yn rhoi gwerth am arian.

## Bywgraffiad

Fel y gwyddoch, mae gan bob Aelod adran bywgraffiad ar wefan y Cyngor. Nid yw'r wybodaeth yn y bywgraffiad bob amser yn cyfateb i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Gofrestr Sefydlog ar gyfer pob Aelod. Anogir Aelodau i adolygu eu bywgraffiadau a'u croes-gyfeirio gyda'u Cofrestrau Sefydlog a'r gofrestr o gyrff allanol a ddelir gan y Cyngor.

## Aelodaeth a Phresenoldeb ar Gyrff Allanol

Gofynnwyd i Arweinyddion grwpiau ailystyried y cyfrifoldeb a roddir ar rai Aelodau unigol mewn perthynas â chyrff allanol oherwydd mae'r Pwyllgor Safonau yn pryderu fod baich gwaith rhai Aelodau'n anghymesur (hyd yn oed ar ôl diystyru'r cyflogau uwch a delir i rai aelodau). Er mai mater i'r Cyngor yw hwn, mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y dylai'r Cyngor

adolygu ei aelodaeth ar y cyrff allanol y mae ymrwymiad arno i anfon cynrychiolwyr iddynt. Dylai disgwyliadau'r Cyngor o'i Aelodau fod yn realistig.

**Arall**

Mae nifer o Ganiatadau Arbennig wedi cael eu rhoddi i Aelodau'n ddiweddar. Mae'r Pwyllgor Safonau'n ymholi ynghylch a fyddai modd creu dolen i'r holl Ganiatadau Arbennig, efallai o dudalen bywgraffiad pob Aelod, neu o fewn eu hadroddiadau blynyddol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn nodi casgliadau cyffredinol yr adolygiad. Mae rhai Aelodau unigol wedi derbyn negeseuon e-bost personol gan y Pwyllgor Safonau gydag argymhellion ar gyfer adolygu / diweddaru / esbonio peth o'r wybodaeth a gyhoeddwyd. Lle ystyriwyd bod hynny'n angenrheidiol, gofynnwyd i rai Aelodau gyfarfod â mi. Yn y llythyrau, rydym wedi gofyn am ymatebion. Lle na dderbyniwyd ymatebion, cofiwch y byddwn yn codi'r mater gyda'ch Arweinyddion Grwp.

Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eich bod chi i gyd yn brysur iawn ac yn ymwybodol mai dim ond un o nifer o dasgau y mae'n rhaid i chi fynd i'r afael â nhw yw hon. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd yr argymhellion uchod yn cynorthwyo i arbed amser i'r Aelodau oherwydd bydd gwella safon y ffurflenni, gobeithio, yn osgoi beth allai fod yn gwynion di-sail sy'n draul ar amser pawb. Fel y gwelsom, mae diffyg eglurder mewn achosion diweddar wedi arwain at gwynion/heriau oherwydd nad yw'r Ffurflenni Datgan Diddordeb wedi cael ei cwblhau'n gyflawn/yn gywir.

Cofion,

Mike Wilson
Cadeirydd y Pwyllgorau Safonau
Cyngor Sir Ynys Môn

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad ar y cyfarfod o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2019** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Diweddaru Aelodau'r Pwyllgor Safonau** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Michael Wilson**<br>**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@ynysmon.gov.uk**<br>**Rhif Ffôn: 01248 752586** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn fforwm ac arno gynrychiolwyr o Bwyllgorau Safonau awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae Powys a Cheredigion hefyd yn aelodau newydd ar y Fforwm.

1.2 Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Fforwm ar 24 Mehefin 2019 ac fe'i trefnwyd gan Gyngor Sir Y Fflint.

## 2. CYFARFOD Y FFORWM AR 24 MEHEFIN 2019

2.1 Yn unol â phrotocol y Fforwm, cafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn eu gwahodd i'r cyfarfod o'r Fforwm ar 24 Mehefin.

2.2 Mae copi o'r Rhaglen ynghlwm yn **Atodiad 1**.

2.3 Cafwyd cyflwyniadau mewn perthynas ag eitemau 4, 5 a 7 ar y Rhaglen. Mae'r cyflwyniad ar eitem 4 yn ymddangos yn **Atodiad 2**, y cyflwyniad ar eitem 5 yn **Atodiad 3** a'r cyflwyniad ar eitem 7 yn **Atodiad 4**.

2.4 Byddaf i ac Islwyn Jones fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi diweddariad llafar yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ar 17 Medi 2019 ar y materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Fforwm.

2.5 Mae copi o’r Cofnodion drafft ynghlwm yn **Atodiad 5** sydd eto i’w cymeradwyo gan y Fforwm.

## 3. PWYLLGOR SAFONAU AR Y CYD

3.1 Bydd Aelodau’n nodi y cafodd sefydlu Pwyllgor Safonau ar y Cyd ei ystyried dan eitem 7 ar y Rhaglen a bod y cyflwyniad sy’n ymddangos yn **Atodiad 4** wedi cael ei gyflwyno gan Swyddog Monitro Cyngor Sir Y Fflint.

3.2 Er fy mod yn deall bod yr egwyddor o bwyllgor safonau ar y cyd yn cael ei dderbyn, mae’n gynnig sy’n datrys problemau nad yw CSYM yn eu cael; megis anawsterau recriwtio, argaeledd aelodau ar gyfer materion brys / cyfarfodydd ar fyr rybudd ac ati. Mae’r mater wedi cael ei drafod gyda’r Prif Weithredwr ac ar hyn o bryd awgrymir nad oes dymuniad i ymchwilio ymhellach i’r posibilrwydd hwn oherwydd ni fyddai o unrhyw fudd ar hyn o bryd i CSYM. Deallaf hefyd fod y Prif Weithredwr yn mynd i drafod y mater yma ymhellach efo Arweinyddion y Grwpiau.

3.3 Mae CSYM yn ddiweddar wedi cynnal proses recriwtio ar gyfer pedwar o aelodau annibynnol newydd ac rwyf ar ddeall fod calibr a nifer yr ymgeiswyr wedi gwneud argraff ar y Panel Penodiadau. Yn ychwanegol at hyn, nid oes unrhyw broblem o ran ffurfio Panelau ar fyr rybudd neu ar frys ar gyfer trafod materion megis ceisiadau am ganiatâd arbennig. Mae datrys anghydfodau ar lefel leol yn gynnar yn rhywbeth sy’n cael ei ddefnyddio’n fwy aml ac sydd yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. A oes marc cwestiwn felly dros ba mor effeithiol y gellid datrys anghydfodau’n lleol petai’n cael ei wneud ar lefel ranbarthol?

## 4. ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR AR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS AR GYFER LLOEGR

4.1 Rwy’n deall y bwriedir cyflwyno adroddiad pellach i’r Pwyllgor Safonau ar ffurf hyfforddiant i’w aelodau ar ganfyddiadau’r Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus sy’n berthnasol i Lloger ond ble mae gwersi y gellir eu dysgu yng Nghymru hefyd. Bwriedir cyflwyno hwn i’r Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod ffurfiol nesaf ym mis Mawrth 2020, yn arbennig felly o ystyried y ffaith y bydd pump o’r naw aelod o’r Pwyllgor newydd eu penodi (pedwar aelod annibynnol ac un cynrychiolydd o’r Cyngor Sir).

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod aelodau’r Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys y Rhaglen a’r cyflwyniadau a wnaed yng nghyfarfod y Fforwm ar 24 Mehefin 2019.

5.2 Nodi’r diweddariad llafar a ddarparwyd gennyf i ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

5.3 Codi unrhyw faterion ar gyfer eu hystyried yn y cyfarfod nesaf o’r Fforwm.

# Rhaglen Gyflawn

## FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

**Dydd Llun, 24ain Mehefin, 2019 am 11.00 y.b**

**Ystafell Delyn, Swyddfa'r Cyngor, Yr Wyddgrug, Sir Y Fflint, CH7 6NB**

**At y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Swyddog Monitro:-**

Pwyllgor Safonau Ynys Môn

Pwyllgor Safonau Ceredigion

Pwyllgor Safonau Conwy

Pwyllgor Safonau Sir Ddinbych

Pwyllgor Safonau Sir y Fflint

Pwyllgor Safonau Gwynedd

Pwyllgor Safonau Powys

Pwyllgor Safonau Wrecsam

Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# RHAGLEN

1. **PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

(D.S Mae'r fforwm wedi penderfynu eisoes y bydd ei gyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan yr awdurdod lletya.)

2. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MEHEFIN 2018**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y Fforwm a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

4. **CYFLWYNIAD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - NICK BENNETT**

Bydd Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn siarad am y thema ganlynol a bydd cyfle ar gyfer cwestiynau -

Gweithrediadau tu hwnt i'r Cod i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael.

Materion ac ymddygiadau cyffredin sy'n arwain at gwynion lefel isel nad ydynt yn pasio'r prawf cam 2. Cyngor gan yr Ombwdsman ar sut i osgoi materion o'r fath, neu ddelio gyda nhw wrth iddynt godi.

5. **GWERSI O ADOLYGIAD PWYLLGOR SAFONAU MEWN BYWYD CYHOEDDUS AR GOD YMDDYGIAD YN LLOEGR**

Yng ngoleuni'r canfyddiadau, a oes angen argymell unrhyw newidiadau yng Nghymru?

Gellir dod o hyd i adroddiad y Pwyllgor yma -

https://www.gov.uk/government/collections/local-government-ethical-standards

EGWYL CINIO

6. **ENW'R FFORWM**

Ystyried newid yr enw yng ngoleuni'r aelodaeth ehangedig.

7. **CYD-BWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyniad a thrafodaeth ar gyflwyno un neu fwy o Gyd-bwyllgorau Safonau ar draws y rhanbarth.

8. **MAE ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU WEDI’U CYHOEDDI’N DDIWEDDAR MEWN PERTHYNAS Â DAU GYNGOR CYMUNED YN YNYS MÔN**

Er bod mwyafrif y materion sydd wedi’u codi yn yr adroddiadau tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, mae rhai materion cod ymddygiad / llywodraethu, sy'n ymwneud â’r Pwyllgor Safonau. Mae’r adroddiadau yn ddyddiedig 30 Ionawr 2019, ond yn ymwneud â’r cyfnodau archwilio 2013-2014 a 2014-2015. Ymddengys hyn yn oediad hir rhwng yr adolygiad a chyhoeddi'r canfyddiadau, yn arbennig lle mae materion o ran pryderon. A yw hyn yn stori cyfarwydd? Beth yw profiadau awdurdodau eraill?

9. **UNRHYW FATER ARALL**

Ystyried unrhyw fater arall.

10. **DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Pennu dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

# COFNODION CYFARFOD O FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU A GYNHALIWYD YN SIAMBR HYWEL DDA, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON AR DDYDD GWENER, 29 MEHEFIN, 2018

**YN BRESENNOL**

Cyngor Gwynedd – Einir Young (Cadeirydd) a Margaret E.Jones (Is-gadeirydd),
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Michael Pugh (Cadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ian Kyffin (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir y Fflint – Phillipa Earlam (Aelod Annibynnol)
Cyngor Sir Ddinbych – Ian Trigger (Cadeirydd) a Julia Hughes (Is-gadeirydd)
Cyngor Sir Ynys Môn – Mike Wilson (Cadeirydd) ac Islwyn Jones (Is-gadeirydd)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Sharon Warnes (Cadeirydd)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyngor Gwynedd – Iwan Evans (Swyddog Monitro), Carwyn Meredydd (Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau)
Cyngor Sir Ceredigion – Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Cyngor Sir Ynys Môn – Mared Yaxley (Cyfreithiwr)

## 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

Penodwyd Einir Young, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd yn gadeirydd y cyfarfod.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

Cyngor Sir Ceredigion - Hywel Jones (Cadeirydd) a Caroline White (Is-gadeirydd)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Neil Benson (Is-gadeirydd) a Sioned Davies (Swyddog Monitro)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Iwan Jones (Swyddog Monitro)

## 3. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 24 TACHWEDD, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd, 2017 fel cofnod cywir.**

<u>Mater yn codi o'r cofnodion</u>
<u>Eitem 6 – Gweithdrefnau i fynd i'r afael â honiadau yn erbyn aelodau</u>

Gan gyfeirio at y penderfyniad i ofyn i Swyddog Monitro Môn ddrafftio llythyr i'r Ombwdsmon i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod, nododd, Cyfreithiwr Môn ei bod ar ddeall bod llythyr wedi'i ddrafftio a'i anfon at Gyngor Bwrdeistref

Sirol Wrecsam, ond cyn i unrhyw beth pellach na hynny ddigwydd, bod yr Ombwdsmon wedi drafftio canllaw oedd yn ateb llawer o'r cwestiynau a godwyd yn y fforwm.

Cytunwyd i drefnu copïau o'r canllaw ar gyfer yr aelodau oedd yn bresennol ac i drafod y mater ymhellach o dan eitem 6 - Unrhyw Fater Arall.

**4. ARFERION / PROTOCOLAU AR Y DEFNYDD O GYFRYNGAU CYMDEITHASOL A'R ADOLYGIAD O ARWEINIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

Eglurodd Swyddog Monitro Gwynedd y cefndir i'r eitem hon gan nodi:-

- Bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru newydd ryddhau drafft cyn-ymgynghori o ganllawiau newydd i aelodau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Bod yr hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol a drefnir ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd yn ymdrin â natur y cyfryngau hynny, yn ogystal â'r agwedd ymddygiad.
- Mai amcan cyflwyno'r eitem hon oedd sbarduno trafodaeth ynglŷn â sut mae gwleidyddion yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sut mae'n newid eu byd o ran cyfathrebu, ac ati, a'r risgiau sy'n deillio o hynny.

Derbyniwyd cyflwyniad cyffredinol i'r maes cyfryngau cymdeithasol gan Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau Cyngor Gwynedd. Manylodd hefyd ar y math o hyfforddiant a'r cyngor a ddarperir i aelodau'r Cyngor. Nododd fod y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd hwylus a phwerus o hyrwyddo gwasanaethau, cynnal sgwrs ddwy ffordd a sicrhau bod cynghorwyr yn atebol ac yn agored, ond 'roedd yna risgiau hefyd i'r cynghorwyr eu hystyried wrth sefydlu cyfrifon a chyhoeddi gwybodaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad cynhwysfawr ar bwnc mor amserol.

Yna trafodwyd yr arferion / protocolau ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol sy'n cael eu gweithredu gan y gwahanol awdurdodau.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd:-

- Y cynghorir aelodau Cyngor Gwynedd i wahaniaethu rhwng eu bywyd preifat a'u bywyd cyhoeddus ar lein drwy sefydlu cyfrif personol a chyfrif aelod ar wahân oherwydd y gall cyfuno'r ddau arwain at risgiau gan fod y cod yn berthnasol i aelodau pan yn gweithredu fel cynghorydd neu'n arddel eu hunain fel aelod.
- Er bod Erthygl 10, sy'n cyfeirio at yr hawl i wneud datganiadau gwleidyddol yn ddidramgwydd, yn golygu bod modd bellach gwneud sylwadau eithaf hallt a beirniadol heb dramgwyddo'r cod, bod llawer o'r trafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol yn gallu ysgogi cwynion o hyd.
- Gan fod ymwneud gwahanol bobl â'r cyfryngau cymdeithasol yn amrywio, ei bod yn anodd rheoli disgwyliadau a bod hyn yn codi cwestiynau gwirioneddol anodd o ran sut a phryd y dylid ymyrryd a beth sy'n dwyn anfri ar swydd cynghorydd. Yn y cyd-destun hwn, dosbarthwyd a gofynnwyd am farn yr aelodau ar esiampl o gŵyn yn ymwneud â Facebook.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Bod angen i'r sawl sy'n llunio neges ystyried, nid beth mae ef / hi yn feddwl o'r neges, ond sut y gall gael ei ddehongli gan rywun arall.
- Bod y ffin yn denau iawn a bod y ffordd mae neges yn cael ei derbyn gan bobl yn dibynnu ar y gynulleidfa.

Gwahoddwyd cyfraniadau i’r adolygiad o arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Tynnwyd sylw gan Swyddog Monitro Gwynedd at rai materion allai fod o ddiddordeb i’r aelodau yn y ddogfen, sef:-

- Tudalen 19 – y cysyniad o ‘ffrind’ ar Facebook. Mae’n bosib’ cael cannoedd o ‘ffrindiau’ ar Facebook, ond mae’r awgrym bod yna gysylltiad personol agos rhwng person ar Facebook a’i ddilynwyr yn eithafol ac yn debygol o greu llawer o broblemau o safbwynt dehongliad.
- Tudalen 21 – y cyfeiriad at y gwahaniaeth rhwng rôl fel aelod ac unigolyn preifat. Gall aelod ddwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd mewn unrhyw gapasiti, ond mae gwahaniaethu cyfrifon yn ffordd o sicrhau cystal rheolaeth dros y berthynas ag sy’n bosib’.
- Tudalen 22 – penderfynu ymlaen llaw. Mater yn codi o Bwyllgorau Cynllunio lle e.e. mae aelod o’r pwyllgor yn cefnogi ymgyrch i wrthod caniatâd cynllunio ac yn gorfod camu’n ôl o’r pwyllgor ac mewn perygl o dorri’r cod.

Nododd y byddai yna gyfle i Bwyllgorau Safonau'r holl awdurdodau drafod y canllawiau newydd ar adeg yr ymgynghoriad llawn.

Holwyd ynglŷn â pherthnasedd y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i aelodau etholedig a’u hawliau o safbwynt gosod lluniau pobl ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol preifat a chyhoeddus. Eglurodd Swyddog Monitro Gwynedd, ac eithrio Aelodau Cabinet, wrth weithredu rôl ffurfiol y Weithrediaeth, bod cynghorwyr, fel deilyddion swyddi, yn gyfrifol am eu data eu hunain fel aelodau etholedig. O ran cyhoeddi lluniau o bobl, mae’n debyg na fyddai’r ddeddf yn berthnasol i lun y gallai unrhyw un gael gafael arno, ond byddai’n rhaid i aelod gymryd mwy o bwyll os yw'n defnyddio llun na fyddai wedi cael mynediad iddo oni bai am ei swyddogaeth fel cynghorydd. Nododd hefyd, petai’r achos yn un digon difrifol, e.e. o safbwynt priodoldeb, neu rywbeth sy’n awgrymu bod yr aelod yn dwyn anfri ar ei swydd, y gallai aelod dorri’r cod drwy gam-ddefnyddio llun ar y we. Fodd bynnag, petai aelod yn gyson yn cael ei gyhuddo o dorri rheolau diogelu data, byddai’r ymddygiad, yn hytrach na’r toriad ei hun, yn arwain at ddwyn anfri.

Ychwanegodd Swyddog Cyfathrebu – Y Wasg / Hyrwyddo Gwasanaethau Gwynedd fod angen bod yn ofalus hefyd o ran y cyfnod amser mae llun yn cael ei ddefnyddio a bod y Cyngor yn gwaredu lluniau ar ôl 5 mlynedd gan na all fynnu bod ganddo’r hawl i’w defnyddio y tu hwnt i hynny.

Nodwyd y gallai sefyllfa lle mae cynghorydd yn tynnu llun mewn lleoliad lle mae plant yn digwydd bod yn bresennol fod yn heriol gan na fyddai wedi bod yn ymarferol i’r aelod fynd o gwmpas pawb i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio’r llun. Awgrymwyd o bosib’ y byddai’n well i’r cynghorydd beidio tynnu’r llun yn y lle cyntaf.

Nodwyd y byddai yna lawer o drafod ar y maes yma dros y misoedd nesaf a chytunwyd y gallai hyn fod yn bwnc i’r fforwm edrych arno yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD gofyn i Bwyllgorau Safonau’r gwahanol awdurdodau drafod y drafft cyn-ymgynghoriad a’r ymgynghoriad llawn ar y canllawiau newydd ar gyfryngau cymdeithasol ac ymateb yn uniongyrchol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.**

**5. CWESTIYNAU A GODWYD GAN GADEIRYDD PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Trafodwyd y cwestiynau canlynol a godwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn

(a) Yn wyneb bwriad Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol uno, sut mae'r Fforwm yn rhagweld y bydd y Pwyllgorau Safonau yn gweithio yn y dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned? Er enghraifft, petai Ynys Môn a Gwynedd yn uno, fel sy'n cael ei gynnig, byddai yna dros 100 o Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer un Pwyllgor Safonau – oes angen lleihau'r nifer o Gynghorau Cymuned a Thref?

Cyfeiriodd Swyddog Monitro Gwynedd at yr adolygiad o'r cynghorau cymuned a thref sy'n digwydd ar y funud gan nodi:-

- Bod cwestiwn yn codi ynglŷn â'r angen i gynghorau cymuned a thref gael cod ymddygiad mor gyflawn a manwl â chynghorau sir, o ystyried mater y risgiau a maint y penderfyniadau a wneir ganddynt.
- Bod y ganran uchaf o ymholiadau a phroblemau ynglŷn ag ymddygiad aelodau yn codi o gynghorau cymuned a thref.

Nododd Cadeirydd Pwyllgor Safonau Môn:-

- Na ddylai unrhyw gydweithio rhwng cynghorau yn y dyfodol arwain at lai o Bwyllgorau Safonau, o ystyried nifer y cynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd.
- Bod nifer cynyddol o fân gwynion yn dod o'r cynghorau tref yn arbennig, sy'n disgyn islaw trothwy'r Ombwdsmon mewn perthynas â budd cyhoeddus ac felly'n gorfod cael eu datrys yn lleol.

Gofynnwyd oedd profiadau Môn yn cael eu hadlewyrchu yn y cynghorau eraill. Mewn ymateb, nodwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Y derbyniodd Cyngor Dinbych lai o gwynion ar bob lefel dros yr 8 mlynedd ddiwethaf a bod nifer o resymau am hynny, gan gynnwys yr hyfforddiant effeithiol iawn sy'n cael ei drefnu ar gyfer aelodau a chlercod a'r ffaith bod pobl yn cychwyn sylweddoli bellach nad oes gan yr Ombwdsmon adnoddau di-ben-draw i ymchwilio i gwynion.
- Bod y drefn datrys lleol wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi dod â nifer yr achosion i lawr yn sylweddol ar draws Cymru.
- Gan nad yw'r hyfforddiant yn orfodol, y bobl hynny sydd ddim ei angen sy'n fwyaf tebygol o fynychu'r sesiynau.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd ymhellach:-

- Bod angen codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl gynghorau cymuned a thref ynglŷn â'r gyfundrefn a bodolaeth a swyddogaeth y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.
- Bod cyfeiriad yr Ombwdsmon a'r prawf budd cyhoeddus yn awgrymu y gellid tynnu'r rhannau amherthnasol allan o'r cod heb golli fawr ddim o safbwynt priodoldeb a thrwy hynny ganiatáu i'r cynghorau cymuned a thref ganolbwyntio ar y rhannau perthnasol ohono.

(b) 'Roedd y broses ddiweddar o ddewis cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned i eistedd ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn ymddangos yn un hir a beichus. Sut mae Pwyllgorau Safonau eraill yn cynnal y broses hon?

Rhoddodd Cyfreithiwr Môn, amlinelliad o'r broses a ddilynwyd ym Môn, a manylodd cynrychiolwyr y gwahanol awdurdodau ar eu prosesau hwythau o benodi cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned ac aelodau annibynnol ar eu Pwyllgorau Safonau.

Awgrymwyd y gallai awdurdodau sy'n chwilio am aelod annibynnol newydd holi awdurdodau cyfagos ydynt hwythau angen aelod newydd hefyd fel y gallai'r person eistedd ar Bwyllgor Safonau'r ddau awdurdod.

Diolchwyd i bawb am rannu eu profiadau.

(c) Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu Protocol Datrys Lleol diwygiedig yn ddiweddar sy'n seiliedig ar broses wirfoddol o gyflafareddu rhwng y Cynghorwyr ac aelodau'r Pwyllgor Safonau. Os yw'r ddwy ochr yn cytuno i'r broses, rhaid i'r Cynghorwyr ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain a bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Safonau yn bresennol fel canolwr yn unig. Er mwyn cynnal y drefn yn effeithiol, mae trefniadau mewn llaw i aelodau'r Pwyllgorau Safonau dderbyn hyfforddiant cyflafareddu. Ydi'r Pwyllgorau Safonau eraill wedi trefnu hyfforddiant o'r fath? Oes yna arferion da / pwyntiau dysgu i'w rhannu ymysg aelodau'r Fforwm?

Manylodd cynrychiolwyr y gwahanol awdurdodau ar eu trefniadau a'u profiadau. Daeth yn amlwg bod y sefyllfa'n amrywio o awdurdod i awdurdod, gyda'r Swyddog Monitro yn unig yn cynnal y drefn mewn rhai cynghorau, tra bo eraill yn cynnwys aelod(au) o'r Pwyllgor Safonau a / neu Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Pe na fyddai'r cyflafareddu'n llwyddiannus a'r mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau, y byddai'n rhaid i unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau fu'n rhan o'r broses gyflafareddu sefyll i lawr o'r pwyllgor rhag cael ei weld yn bleidiol i un ochr.
- Mai'r Swyddog Monitro ac Arweinyddion y Grwpiau ddylai fod yn gyfrifol am y drefn gyflafareddu.
- Gall aelod o'r Pwyllgor Safonau sy'n gweithredu fel canolwr deimlo ei fod wedi cael baich annheg.
- Os bydd mater lle cynigiwyd datrysiad lleol yn cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon, bydd yr Ombwdsmon yn ymwybodol bod y cynnig wedi'i wneud a gall gymryd y ffaith bod y drefn wedi methu i ystyriaeth.
- Na ddylai canolwr gymryd ochr neb, eithr ceisio cael y ddwy ochr i weld ochr ei gilydd.

(ch) Byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn fodlon trefnu i David Richards, Cyfarwyddwr LLC, ddod i gyfarfod o'r Fforwm hwn yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar faterion llywodraethu cyffredinol. Ydi hyn yn rhywbeth fyddai o gymorth i aelodau'r Fforwm?

Nododd Cyfreithiwr Môn y bu Swyddog Monitro'r Awdurdod ar gwrs lle'r oedd David Richards yn cynnal sesiwn ar lywodraethu yn gyffredinol ac iddo gynnig y gallai roi cyflwyniad i'r fforwm hwn ar hynny, neu bwnc arall.

**PENDERFYNWYD gofyn i Swyddog Monitro Cyngor Sir Ynys Môn anfon copi o gyflwyniad David Richards ar lywodraethu yn gyffredinol i bob Swyddog Monitro fel y gallent ei roi i'w Pwyllgorau Safonau i'w drafod a phenderfynu oes modd ei deilwrio ar gyfer y fforwm hwn.**

## 6. UNRHYW FATER ARALL

(a) Rhaglen y Cyfarfod nesaf

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd y byddai'n fuddiol i bwy bynnag sy'n trefnu'r fforwm nesaf gael amcan o'r math o eitemau y dymunid eu gosod ar y rhaglen.

**PENDERFYNWYD gofyn i bawb ymgynghori â'u Pwyllgorau Safonau ynglŷn ag eitemau posib' ar gyfer y cyfarfod nesaf a bwydo unrhyw awgrymiadau, drwy'r Swyddogion Monitro, i'r awdurdod lletya nesaf.**

(b) Cynhadledd Safonau 2018

Amlinellodd Swyddog Monitro Ceredigion y trefniadau ar gyfer Cynhadledd Safonau 2018 a gynhelir yn Aberystwyth ar y 14eg o Fedi. Cyflwynodd fraslun o gynnwys rhaglen y dydd gan nodi y croesawid unrhyw syniadau neu gymorth gan unrhyw un.

(c) Gweithdrefnau i fynd i'r afael â honiadau yn erbyn aelodau

Trafodwyd canllaw drafft yr Ombwdsmon 'Code of Conduct – Interim Powers'.

Nododd Swyddog Monitro Gwynedd mai'r safbwynt ar hyn yng nghyfarfod Swyddogion Monitro Cymru oedd na ddymunid gweld ymchwiliad yn gorfod disgwyl i gael dyfarniad ar atal gan y byddai hynny'n ychwanegu baich amser.

Eglurodd Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau Môn iddynt ddod â'r mater hwn gerbron yn wreiddiol gan nad oeddent yn argyhoeddedig bod yna broses yn bodoli petai yna gyhuddiad yn erbyn cynghorydd sir. Gan hynny, penderfynodd y fforwm diwethaf y byddai Môn yn drafftio llythyr i'r Ombwdsmon i'w gylchredeg ymysg Swyddogion Monitro pob awdurdod. Anfonwyd y llythyr at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ond cyn iddo gael ei anfon ymlaen at yr Ombwdsmon, trafodwyd mater digon tebyg mewn cyfarfod Swyddogion Monitro yn Llandrindod, lle bu i swyddog o swyddfa'r Ombwdsmon oedd yn bresennol gytuno i fynd â'r mater yn ôl at yr Ombwdsmon. Nid oedd y canllaw drafft yn ateb bob un o'r cwestiynau yn y llythyr, ond credid mai hwn oedd yr ateb gorau roedd y fforwm yn debygol o gael gan yr Ombwdsmon, yn enwedig o ystyried faint o amser oedd wedi mynd heibio ers drafftio'r llythyr.

## 7. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd gwybodaeth yn cael ei chylchredeg ynglŷn â dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yp a daeth i ben am 11.55yb.

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# The Role of PSOW in Code of Conduct matters
# Rôl OGCC mewn materion Cod Ymddygiad

**Nick Bennett**

**Public Services Ombudsman for Wales**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

# Who is the Ombudsman?
# Pwy yw'r Ombwdsmon?

- Est 2006 - PSOW Act 2005
- Two specific roles:
  - Complaints about public services providers in Wales
  - Complaints that members of local authorities have broken the Code of Conduct
- New PSOW Act 2019



- Sefydlwyd 2006 – Deddf OGCC 2005
- Dwy rôl benodol:
- Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
- Cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad
- Deddf OGCC newydd 2019

# Trends – Enquiries & Complaints
# Tueddiadau – Ymholiadau & Chwynion




Tudalen 302

# PSOW Annual Report 2018/19
# Adroddiad Blynyddol OGCC 2018/19

Nature of Code of Conduct complaints received
Natur y cwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd






Investigating Complaints
Ymchwilio Cwynion

Improving Services
Gwellhau Gwasanaethau

# Outcomes
# Canlyniadau

| | |
|---|---|
| 255 | • Closed After Initial consideration // Caewyd ar ôl ystyriaeth gychwynnol |
| 2 | • Complaint Withdrawn // Tynnwyd y gŵyn yn ôl |
| 15 | • Investigation Discontinued // Terfynwyd yr ymchwiliad |
| 9 | • Investigation Completed: No evidence of breach // • Ymchwiliad wedi'i gyflawni: Dim tystiolaeth bod y cod wedi'i dorri |
| 19 | • Investigation Completed: No action necessary // • Ymchwiliad wedi'i gyflawni: Dim angen gweithredu |
| 4 | • Investigation completed: Refer to Standards Committee // Ymchwiliad wedi'i gyflawni: Atgyfeirio at y Pwyllgor Safonau |
| 4 | • Investigation completed: Refer to Adjudication Panel // Ymchwiliad wedi'i gyflawni: Atgyfeirio at y Panel Dyfarnu |

# Types of complaints
# Mathau o gwynion

190

- Town and Community Councils
  Cynghorau Tref a Chymuned

91

- Local Authority
- Awdurdod lleol

1

- National Park
- Parc Cenedlaethol

282

# Two stage test
# Prawf Dau gam



- Is there direct evidence that a breach actually took place?

If so:

- Is an investigation required in the public interest?



- A oes tystiolaeth uniongyrchol bod toriad gwirioneddol wedi digwydd?

Os felly:

- A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd?

# The Public Interest Test
# Prawf Er Budd y Cyhoedd

## Is an investigation required in the public interest?

## A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd?







# Public Interest in practice
# Budd y cyhoedd yn ymarferol




Tudalen 308



# North Wales
# Gogledd Cymru

- 22% of the population
- 32% of the complaints
- Only 17% of the total referrals across Wales

- 22% o’r boblogaeth
- 32% o’r cwynion
- Dim ond 17% o gyfanswm yr atgyfeiriadau ledled Cymru

# Recent examples of vexatious complaints
# Enghreifftiau diweddar o gwynion blinderus

**‘Absurd’ terrorism complaint made about councillors thrown out by Ombudsman**

**Cwyn ‘hurt’ am derfysgaeth a wnaed am gynghorwyr wedi’i wrthod gan Ombwdsmon**

# Examples of vexatious complaints
# Enghreifftiau o gwynion blinderus

**A Councillor left a one star rating on a local business without an explanation!**
**Gadawodd Gynghorydd radd un seren ar fusnes lleol heb roi esboniad!**

**A Councillor unfriended me on Facebook so I had to set up an account in my cat's name!**
**Cefais fy nileu oddi ar Facebook gan Gynghorydd felly roedd rhaid i mi greu cyfrif yn enw fy nghath!**

# Moving forward / Symud ymlaen

- Member v Member complaints (at a county level) are now largely dealt with by an internal dispute resolution procedure
- Extension of this to Town & Community Councils
- Serious cases referred to Standards Committees or Adjudication Panel for Wales

- Erbyn hyn, ymdrinnir â chwynion Aelod yn erbyn Aelod (ar lefel siriol) yn bennaf gan weithdrefn fewnol ar gyfer datrys anghydfodau
Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, daeth yn amlwg nad yw'r cyfrifoldeb newydd i gyhoeddi'r gofrestr buddiannau ar-lein yn cynnwys llenwi'r ffurflen yr oedd Un Llais Cymru wedi'i dosbarthu i aelod gynghorau ar yr 28ain Mai 2015. Credwyd yn wreiddiol y cafodd y ddarpariaeth i eithrio cynghorwyr cymuned a thref o ofynion paragraff 15(1) y model god ymddygiad i gofrestru rhai buddiannau ariannol ac o fathau eraill o fewn 28 diwrnod i dderbyn eu swyddi ei dileu gan Ddeddf 2013. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda swyddog perthnasol Llywodraeth Cymru, gwelwn nad yw hynny'n wir. Mae'r swyddog yn deall efallai y bu dryswch ar y mater hwn, ac fe gadarnhaodd nad yw Deddf 2013 yn effeithio o gwbl ar ofynion y cod ymddygiad sy'n ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau. Yn fyr, mae gofynion y cod ymddygiad, fel y mae'n berthnasol i gynghorau cymuned a thref, fel a ganlyn:

a) Rhaid i gynghorwyr ddatgan buddiant personol ac, os yn briodol, fuddiant rhagfarnol sy'n gysylltiedig â materion perthnasol pan maent yn bresennol mewn cyfarfodydd.
b) Pan mae cynghorwyr yn datgan buddiant personol am y tro cyntaf, rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o'r buddiant i'r Swyddog Priodol, cyn neu'n union wedi diwedd y cyfarfod. Mae'n arfer da i'r Swyddog Priodol gofnodi'r datganiadau hyn yng nghofnodion y cyfarfod.
c) Dylai'r Swyddog Priodol gofnodi buddiannau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf yn y gofrestr buddiannau yn unol ag adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan

10/8/15

y cyhoedd ar unrhyw adeg resymol ac, yn dilyn dyfodiad Deddf 2013, rhaid iddi gael ei gosod ar wefan y cyngor.
d) Dylid diweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn dilyn pob cyfarfod pan gaiff buddiannau newydd eu datgan.

<u>Pa ddatganiadau i'w cofnodi</u>:

Dylid gwneud datganiadau o fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru (trowch at y Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned – sydd ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru). Mae'r canllawiau yn cynnwys manylion am fuddiannau personol a rhagfarnol ac maent yn cyfeirio hefyd at roddion a lletygarwch. Yn y pendraw, mater i'r aelodau yw penderfynu a ydynt yn gwneud datganiad o fuddiant ai peidio, gan ddibynnu ar amgylchiadau eu sefyllfa. Mae gan eraill (trydydd partïon) wastad yr hawl i herio unrhyw fethiant i ddatgan buddiant, ac mae'n bwysig felly fod aelodau'n cael eu hatgoffa i gymryd materion o'r fath o ddifrif.

<u>Templed ar gyfer cofrestr/datganiadau:</u>

Mae Un Llais Cymru wedi paratoi "templed" i'w ddefnyddio gan aelod gynghorau at ddibenion gweithredu cofrestr o'r fath, a chafodd ei ddosbarthu i aelod gynghorau. Mae copïau o'r templed hwn ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru, os oes angen. Os ydych yn defnyddio'r ffurflenni hyn (neu unrhyw rai eraill) ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiannau yn swyddogol, y "gofrestr" fel y cyfryw fydd y casgliad o'r holl ffurflenni yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Gellir cyflwyno'r rhain mewn unrhyw ddull cyfleus, efallai wedi'u trefnu yn ôl enw aelod neu ddyddiad. Yn naturiol, ni fydd aelodau nad ydynt wedi datgan unrhyw fuddiannau wedi llenwi unrhyw ffurflenni i'r perwyl hwnnw, sy'n golygu y bydd eu cofnodion yn wag (hynny yw, ni fydd ganddynt unrhyw gofnodion). Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol dangos unrhyw ffurflenni "gwag" o'r fath ar wefan y cyngor, ond nid yw'n anghywir gwneud hynny os mynnwch.

10/8/15

ATODIAD 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau Statudol

# Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mai 2015

ISBN digidol 978 1 4734 3399 1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25090

# CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU

# GWYBODAETH AM GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

## Statws a Chymhwyso

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir, yn rhannol o dan adran 55(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 55(1) y Ddeddf mae'n ddyletswydd statudol ar Gynghorau Cymuned a Thref i ystyried y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cynghorau a chofrestrau o fuddiannau aelodau.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ( Democratiaeth ) (Cymru ) 2013, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y canllaw hwn, Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf amrywiaeth o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

2. Mae adrannau 55 i 58 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at wybodaeth, ac yn fwyaf penodol, fynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned. (At ddibenion y canllaw hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor neu Gynghorau Cymuned yn cynnwys unrhyw Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas sy'n gwasanaethu cymuned neu gymuned wedi'i grwpio ac a gafodd ei sefydlu yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ( "Deddf 1972").

3. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael gwefannau; i gyhoeddi hysbysiadau a phapurau'n electronig; ac i gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn electronig (y rhai a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ).

## Gwefannau Cynghorau Cymuned – Adran 55

4. Mae Adran 55 o Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am sut i gysylltu â hwy ac, os yw'n wahanol, sut i gysylltu â'r clerc. Mae'r wybodaeth a ddylai fod

ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

5. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'n electronig wybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau'r cyngor, enw pob aelod, manylion am sut i gysylltu â hwy, eu hymlyniad gwleidyddol (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn perthyn iddo o fewn y cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.

6. Rhaid i'r Cyngor Cymuned hefyd gyhoeddi cofnodion electronig o'i gyfarfodydd ac, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Yn y ddau achos hyn, mae'n ofynnol i gynghorau gyhoeddi deunydd a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth adran 55 i rym yn unig.

Nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi unrhyw wybodaeth y maent yn cael eu hatal rhag ei datgelu gan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 55, mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned roi sylw i'r canllaw hwn.

**Canllaw ynglyn Gwefannau Cynghorau Cymuned**

8. Penderfyniad i bob Cyngor Cymuned unigol yw a fyddant yn gweithredu eu gwefan annibynnol eu hunain, neu a fyddant yn penderfynu cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill yn eu hardal, neu â'r prif gyngor, neu ag unrhyw gorff arall sy'n hapus i gynnal eu safle. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y gwefannau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a ddisgrifir uchod.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltiadau'r cyhoedd â llywodraeth leol yn gyffredinol a Chynghorau Cymuned yn benodol. Rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol bod modd cysylltu'n electronig â phob awdurdod lleol a'u bod wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y we. Byddai trigolion lleol yn disgwyl cael y cyfleuster hwn yn yr oes hon.

10. Mae gan y rhan fwyaf o'r Cynghorau Cymuned yng Nghymru bresenoldeb ar-lein ac maent yn cyhoeddi gwybodaeth yn electronig eisoes. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i ofyn am gymorth

gan Un Llais Cymru, eu Prif Gyngor neu ffynonellau dibynadwy eraill os oes angen er mwyn datblygu eu presenoldeb ar y we.

11. O dan adran 55, mae’n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi’n electronig ei rif ffôn, ei gyfeiriad post ac e-bost ar y wefan. Mae’n rhaid cael yr wybodaeth hefyd ar gyfer clerc y Cyngor os yw'n wahanol i fanylion cysylltu â’r Cyngor. Byddai hefyd o fantais cael cyfeiriad e-bost cyffredinol at ddefnydd aelodau ac o bosibl Cadeirydd y cyngor. Mewn rhai achosion, bydd gan y Cyngor Cymuned ei swyddfeydd ei hun, neu bydd yn rhannu swyddfeydd, a byddai’n briodol cael rhif ffôn, cyfeiriad post ac e-bost y rhain hefyd. Ond bydd disgwyl i’r cynghorau gael trefniadau yn eu lle i ddarllen ac ymateb i negeseuon yn rheolaidd.

12. Nid yw'n orfodol i aelodau unigol gael cyfeiriadau e-bost. Mewn Prif Gyngor byddai hyn yn ddisgwyliedig oherwydd gall y Cyngor ei hun fel arfer roi cyfeiriadau e-bost ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhestru enwau'r aelodau a rhaid bod manylion ar-lein am sut i gysylltu â hwy. Bydd rhai cynghorau’n dymuno rhoi ffotograffau o bob aelod ar eu gwefan ond mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy.

13. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi ymlyniad gwleidyddol aelodau'r cynghorau. Mae rhai Cynghorau Cymuned yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hawl gan y cyhoedd i wybod beth yw argyhoeddiad gwleidyddol y rhai sydd mewn swydd etholedig, neu a ydynt yn annibynnol o unrhyw grŵp. Mae'n annerbyniol i aelod gelu ei ymlyniad gwleidyddol.

14. Os yw'r Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n wardiau cymunedol, rhaid cyhoeddi’r ward y mae’r aelod yn ei chynrychioli. Os yw’n dal swydd o ryw fath yn y cyngor neu os yw’n perthyn i un o bwyllgorau’r cyngor, rhaid i hynny gael ei gyhoeddi ar y wefan.

15. Dylai aelodau cyfetholedig gael eu cofnodi er budd tryloywder i'w gwahaniaethu oddi wrth aelodau etholedig.

16. Mae paragraffau 4 i 6 uchod yn disgrifio’r dogfennau sydd angen eu rhoi ar y wefan. Dylai Cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefan mewn trefn, gan gadw archif o ddogfennau’r gorffennol am gyfnod rhesymol, ond bod modd cael gafael arnynt yn hawdd o’r dudalen flaen.

17.Os oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg a'i arfer o dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw i gynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, yna mae hynny'n berthnasol yr un fath i ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn electronig.

18.Dylai darpariaethau y Ddeddf cael ei hystyried yn amlinellu'r gofynion sylfaenol. Bydd llawer o gynghorau yn awyddus i roi llawer mwy o wybodaeth na hyn ar eu tudalennau gwe ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd angen i gynghorau roi sylw i'r Côd Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol wrth ystyried pa mor briodol yw hyn y maent yn dymuno eu cyhoeddi.

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/local-authority-publicity-wales/?lang=cy

19. Byddem yn disgwyl Cynghorau Cymuned i ystyried anghenion cymunedol gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd. Mae gwefan Diverse Cymru yn rhoi arweiniad pellach.
http://www.diversecymru.org.uk

20. Dylai pob Cynghorau Cymuned a Thref gofrestru gyda'r wefan ganlynol,os hoffech Band Eang uwch gyflym gael eu hystyried yn eich cymuned leol.

http://btsf-wales-uat.lbi.co.uk/home?lang=_alt

21.O dan ddeddfwriaeth bresennol mae’n ofynnol i Gynghorau Cymuned osod unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu ragor o fannau amlwg yn eu hardal, ac mewn unrhyw fan arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

**Gwybodaeth am gyfarfodydd a thrafodion**

22. O dan ddeddfwriaeth mewn bodolaeth, mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned i bostio unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu fwy amlwg le yn eu hardal, ac yn unrhyw le arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

23.Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned i roi rhybudd o gyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod dri diwrnod clir cyn y cyfarfod cael ei gynnal drwy arddangos hysbysiad mewn lle amlwg yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar gyfer hysbysiadau o'r fath i gael ei gyhoeddi yn electronig. Rhaid gwneud hyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gofyniad i gyhoeddi yn electronig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod

hefyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r dogfennau yn ymwneud â busnes sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol i'w drafod yn breifat neu lle byddai datgelu dogfennau o'r fath yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall.

24.O dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n bosibl i gyfarfod cymunedol cael ei alw ar unrhyw adeg gan grŵp o etholwyr llywodraeth leol cyfanswm o 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, neu 50 o'r etholwyr (os yw 10% yn fwy na 50 o etholwyr ). Rhaid i'r rhai sy'n galw'r cyfarfod rhoi rhybudd i Gyngor Cymuned neu, os nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yn yr ardal, rhaid rhoi rhybudd i'r Prif Gyngor. O dan y darpariaethau newydd, gellir rhoi rhybudd i'r Cyngor Cymuned naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig. Lle mae'n cael ei roi ar ffurf electronig, rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â'r gofynion technegol a osodwyd gan y Prif Gyngor.

25. Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Prif Gynghorau ddarparu cyfleusterau ar gyfer hysbysiadau sydd i'w rhoi'n electronig a rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod cymunedol yn electronig yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol.

26.Yn olaf, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion newydd sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau aelodau. Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn am Gyngor Cymuned (yn ogystal ag awdurdodau eraill) i gadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill aelodau fel a bennir yn y cod ymddygiad enghreifftiol (a ragnodir gan Orchymyn o dan adran 50 o'r Deddf 2000 *). Cyn cychwyn adran 58 o'r Ddeddf, mae'r gofrestr sydd ei angen i fod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ar bob adeg resymol. Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig hefyd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau gan swyddog monitro'r prif awdurdod i'r 'swyddog priodol' o bob Cyngor Cymuned. Y 'swyddog priodol' yw'r aelod o staff y Cyngor a ddynodwyd gan y Cyngor i'r diben hwn.

* Ar hyn o bryd, 'Y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008'

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD**

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch**

- ☐ **Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

- ☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

- ☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod……………………………..…. Dyddiad Llofnodi………………………

**DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**



CC-016602-LB/160035

## ADOLYGIAD Y PWYLLGOR SAFONAU / STANDARDS COMMITTEE REVIEW

### Ymateb erbyn / Response by 31.07.2019

| | **Dyddiad Ymateb Wedi ei dderbyn /**<br><br>**Date Response Received** | **Copi Cofnodion wedi eu derbyn /**<br><br>**Copy Minutes Received** |
|---|---|---|
| Aberffraw | 30/7/2019 | 19062019c.doc<br><br>19062019e.doc |
| Amlwch | 30/5/2019 | 01 Amlwch - Cofnodion 23-4-20 |
| Bodedern | | |
| Biwmares / Beaumaris | | |
| Bodffordd | | |
| Bodorgan | | |
| Bryngwran | 30/7/2019 | Cofnodion 19.05.09.doc |
| Cwm Cadnant | | |
| Cylch y Garn | 22/4/2019 | |
| Caergybi / Holyhead | | |
| Llanbadrig | 16/6/2019 | 059 Cofnodion 20-5-2019.pdf |
| Llanddaniel Fab | | |
| Llanddona | 30/7/2019 | Cofnodion Llanddona_Mehefin |

| | | |
|---|---|---|
| Llanddyfnan | 30/7/2019 | Cofnodion 19.05.21.doc |
| Llaneilian | 14/6/2019 | 312 minutes 7-5-2019.docx |
| Llanerchymedd | | |
| Llaneugrad **(llythyr)** | | |
| Llanfachraeth | | |
| Llanfaelog | 31/7/2019 | Minutes April 2019 Lanfaelog.pdf |
| Llanfaethlu a Llanfwrog | | |
| LlanfairME | | |
| Llanfair yn Neubwll | 31/7/2019 | April 2019 M LNB.pdf |
| Llanfairpwll | | |
| Llanfihangelesceifiog | | |
| Llangefni | 17/6/2019 | COFNODION 07.05.2019.docx |
| Llangoed a Phenmon | 30/7/2019 | Cofnodion Llangoed Mehefin 1! |
| Llangristiolus **(llythyr)** | 30/7/2019 | Cofnodion 19.05.28.doc |
| Llanidan | | |
| Mechell | | |
| Porthaethwy / Menai Bridge | 23/6/2019 | Minutes Council Meeting 16 May 201 |
| Moelfre | | |

| | | |
|---|---|---|
| Penmynydd a Star | 30/7/2019 | Cofnodion 19.05.01.doc |
| Pentraeth | | |
| Rhoscolyn **(llythyr)** | 8/7/2019 (llythyr dyddiedig 3/7/2019) | SKM_C25819070810 580.pdf |
| Rhosybol | | |
| Rhosyr | | |
| Trearddur | 31/7/2019 | APRIL 2019 MTB.doc |
| Tref Alaw | | |
| Trewalchmai | 30/5/2019 | Cofnodion Mai 2019.doc |
| Y Fali / Valley | | |

**From:** Lynn Ball
**To:** Aberffraw; Amlwch; Beaumaris; Bodedern; Bodffordd a Llanfachraeth; Bodorgan Cwm Cadnant Llanfihangelesceifiog; Bryngwran; Cylch-y-Garn Community Council; Holyhead Town Council; Llanbadrig; Llanddaniel Fab; Llanddona a Llangoed; Llanddyfnan; Llaneilian; Llanerchymedd; Llanfaelog; Llanfaethlu; Llanfair ME; Llanfair yn Neubwll; Llanfairpwll; Llangefni; Llangefni ; Llanidan; Mechell; Menai Bridge; Moelfre; Penmynydd a Star; Pentraeth; Rhosybol; Rhosyr; Trearddur; Tref Alaw; Trewalchmai; Valley
**Cc:** Mared W. Yaxley
**Subject:** Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref/Cymuned / Training and Development for Town/Community Councillors and Clerks
**Date:** 01 May 2019 13:06:26
**Attachments:** image001.png

---

Annwyl Glerc,

Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2019, bu'r Pwyllgor Safonau yn trafod anghenion hyfforddiant a datblygiad y Cynghorau Cymuned a'r Clercod. Gwelir linc i adroddiad a baratowyd ynghylch y mater (Eitem 10).

Yn sgîl hyn, trafodwyd cynnwys adroddiadau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar ynghylch dau o Gynghorau Cymuned yn Ynys Môn - Cyngor Cymuned Llangristiolus a Cerrigceinwen, a Cyngor Cymuned Bodorgan.

Roedd hyfforddiant yn rhywbeth gafodd ei ystyried o fewn yr Adolygiadau yn y Cynghorau Tref a Chymuned hefyd. 'Roedd hi'n amlwg wrth ystyried canlyniadau'r adolygiadau, fod yr arian ar gael ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n teimlo'n gryf fod Clercod ac Aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn sefyllfa gryfach o ran sicrhau materion llywodraethol, gan gynnwys cadw o fewn gofynion y Cod Ymyddygiad.

Mae'r Pwyllgor Safonau felly'n awyddus fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn cytuno ar eu cynlluniau ar gyfer hyfforddiant y Clerc a'r Aelodau ar gyfer y flwyddyn. Gofynnir i'r cynlluniau hyn gael eu rhannu efo'r Pwyllgor Safonau dros e-bost i mwjcs@ynysmon.gov.uk erbyn **31 Gorffennaf 2019**. Bydd adroddiad cyhoeddus yn cael ei chyhoeddi o fewn papurau'r Pwyllgor Safonau ar gyfer ei gyfarfod ym mis Medi 2019 fydd ym amlygu'r ymatebion sydd wedi eu derbyn.

Yn gywir iawn,

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

---

Dear Clerk,

In its meeting in March 2019, the Standards Committee discussed the training and development requirements of Community Councils and their Clerks. See link to the report provided on this matter (Item 10).

As a result, a report published recently by the Wales Audit Office regarding two Community Councils on Anglesey - Llangristiolus and Cerrigceinwen Community Council, and Bodorgan Community Council was discussed.

Training was also considered in the Reviews of Town and Community Councils. It was evident when considering the results of the reviews that funding was available but was not being used to its full potential.

The Standards Committee strongly feels that Clerks and Members who have received training are better placed to deal with governance issues, including compliance with the Code of Conduct.

The Standards Committee therefore is eager for Town and Community Councils to agree on their training plans for Clerks and Members for the year. It is requested that these plans be shared with the Standards Committee via e-mail to mwjcs@ynysmon.gov.uk by **31 July 2019**. A public report will be published with the Standard Committee's papers for the September 2019 meeting which will incorporate the responses received.

Yours sincerely,

Michael Wilson
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Chair of the Standards Committee

Document: CC-019486-MY/499568

Cymraeg
Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

A yw'r e-bost hwn wedi ei farcio'n 'Swyddogol-Sensitif'? Os ydyw, rhaid i chi ystyried a oes gennych hawl i'w ddyblygu, ei argraffu neu ai anfon ymlaen. Os oes, sicrhewch os gwelwch yn dda fod yr e-bost ynghyd ag unrhyw atodiadau'n cael eu marcio'n 'Swyddogol-Sensitif'. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau fod mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu, storio a chael gwared ar y wybodaeth mewn modd priodol. Mae hyn yn golygu fod rhaid diogelu'r wybodaeth gyda chyfrinair neu ei chadw mewn cwpwrdd ffeilio y mae modd ei gloi. Rhaid cael gwared ar ddogfennau 'Swyddogol-Sensitif' yn y biniau gwastraff y mae modd eu cloi. Os ydych yn ansicr ynghylch sut i ddefnyddio gwybodaeth 'Swyddogol-Sensitif', yna cysylltwch os gwelwch yn dda gyda llywodgwyb@ynysmon.gov.uk

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

Has this e-mail been marked 'Official-Sensitive'? If so you must consider whether you have the right to duplicate, print or forward it on. If so please ensure that the e-mail and any attachments are marked as 'Official-Sensitive. It is your responsibility to ensure that appropriate measures are taken to protect, store and dispose of this information properly. This means that the information must be password protected or kept in a lockable filing cabinet. 'Official-Sensitive' documents must be disposed of in the lockable waste bins. If you are unsure about how to use Official-Sensitive information please contact infogov@anglesey.gov.uk

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

**Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Tref/Cymuned / Training and Development for Town/Community Councillors and Clerks**

**Ymatebion erbyn / Responses by 31.07.2019**

| | **Dyddiad Ymateb wedi ei dderbyn / Date Response Received** |
|---|---|
| Aberffraw | |
| Amlwch | 17/6/2019<br>Trafodwyd cynnwys yr e-bost isod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Nodwyd nad oedd gan y Cyngor gynllun penodol ond bod posib i aelodau fynychu hyfforddiant perthnasol a bod cyllideb wedi ei glustnodi ar gyfer y gost. Nododd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu nifer o sesiynau Un Llais Cymru a'u bod yn ddefnyddiol iawn.<br><br>*The content of the following e-mail was discussed in the last meeting of the Council. It was noted that the Council did not have a specific programme but that it is possible for members to attend relevant training and that a budget has been allocated for the cost. The Chair noted that she had attended a number of One Voice Wales and that they were very useful*. |
| Bodedern | |
| Biwmares / Beaumaris | |
| Bodffordd | |
| Bodorgan | |
| Bryngwran | 30/7/2019<br>Mae Cynghorau Cymuned Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus a Penmynydd wedi trafod a chytuno ar gynlluniau hyfforddi ac wedi cyllidebu ar gyfer hyfforddiant. Mae'r pedwar cyngor yn mynychu cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael.<br><br>*Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus and Penmynydd Community Council had discussed and agreed on training programmes and had provided a training budget. The four councils attend courses as they become available*. |
| Cwm Cadnant | |
| Cylch y Garn | |
| Caergybi / Holyhead | 26/7/2019<br>Yn dilyn yr e-bost isod, dyma'r hyfforddiant sydd wedi ei drefnu ar |

| | |
|---|---|
| | gyfer aelodau hyd yn hyn.<br>• Hyfforddiant Côd Ymddygiad wedi ei drefnu ar gyfer yr holl aelodau a swyddogion ar 10 Hydref.<br><br>Cytunir ar hyfforddiant pellach ar ôl yr hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.<br><br>Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio i gael cymhwyster CILCA (tystysgrif mewn gweinyddiaeth cynghorau lleol).<br><br>*Following the email sent below the training booked in for the members up to date.*<br><br>• *Code of Conduct for all members and officers booked in 10th October.*<br><br>*Further training will be agreed after the Code of Conduct training.*<br><br>*I am currently undertaking the CILCA (certificate in local council administration) qualification*. |
| Llanbadrig | 29/5/2019<br>Ar ran Cyngor Cymuned Llanbadrig, hoffwn gadarnhau bod yr aelodau wedi trafod eich e-bost yn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod cyllideb ar gyfer hyfforddiant i aelodau a'r clerc ond nad oedd cynllun penodol. Mae cyfle i unigolion fynychu unrhyw sesiwn hyfforddiant perthnasol sydd ar gael iddynt. Mae gwybodaeth am sesiynau Un Llais Cymru er enghraifft yn cael eu rhannu a'r aelodau yn reolaidd.<br><br>*On behalf of Llanbadrig Community Council, I wish to confirm that the members discussed your e-mail in the last meeting. It was noted that a budget was available for training for the members and the clerk but that there was no specific programme. Individuals may attend any relevant training sessions. Information regarding One Voice Wales sessions is circulated regularly to the members*. |
| Llanddaniel Fab | |
| Llanddona | *30/7/2019*<br>Mae'r ddau gyngor wedi clustnodi cyllideb ar gyfer hyfforddiant am 2019/20 ac mae dyddiadau a gynigir gan Un Llais Cymru neu asiantaethau eraill yn cael eu cylchredeg i'r aelodau ar unwaith wedi iddynt cael eu cyhoeddi.<br><br>Mae Aelodau'n achub ar y cyfle i fynychu hyfforddiant os yn bosibl ond nid oes gennym raglen hyfforddiant.<br><br>*Both Councils have set a budget for training for 2019/20 and training dates offered by One voice Wales or other agencies are circulated to members as soon as they are released.* |

| | |
|---|---|
| | *Members take up the opportunity for training if possible, no do not have a training plan in place.* |
| Llanddyfnan | 30/7/2019<br>*Mae Cynghorau Cymuned Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus a Penmynydd wedi trafod a chytuno ar gynlluniau hyfforddi ac wedi cyllidebu ar gyfer hyfforddiant. Mae'r pedwar cyngor yn mynychu cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael*.<br><br>Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus and Penmynydd Community Council have discussed and agreed training plans and have provided a training budget. The four councils attend courses as they become available. |
| Llaneilian | 29/5/2019<br>*Ar ran Cyngor Cymuned Llaneilian, hoffwn gadarnhau bod yr aelodau wedi trafod eich ebost yn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod cyllideb ar gyfer hyfforddiant i aelodau a'r clerc ond nad oedd cynllun penodol. Mae cyfle i unigolion fynychu unrhyw sesiwn hyfforddiant perthnasol sydd ar gael iddynt. Mae gwybodaeth am sesiynau Un Llais Cymru er enghraifft yn cael eu rhannu a'r aelodau yn reolaidd*.<br><br>On behalf of Llaneilian Community Council, I wish to confirm that the members discussed your e-mail in the last meeting. It was noted that a budget is available for training for members and the clerk but that there is no specific training programme. Individuals may attend any relevant training session which is available to them. Information regarding One Voice Wales sessions for instance is circulated regularly to the members. |
| Llanerchymedd | |
| Llaneugrad **(llythyr)** | |
| Llanfachraeth | |
| Llanfaelog | 31/7/2019<br>Minutes May 2019 Llanfaelog.pdf<br>Llanfaelog CC Training Plan 2019-2 |
| Llanfaethlu a Llanfwrog | 1/7/2019<br>Yn y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanfaethlu a Llanfwrog a gynhaliwyd ar 7 Mai 2019, cafodd eich e-bost ynghylch trafodaeth y Pwyllgor Safonau ar ofynion hyfforddiant a datblygu Cynghorau Cymuned a'u Clercod ei drafod yn faith. |

Er nad oedd unrhyw un yn gwrthwynebu i'r Côd Ymddygiad, roedd teimladau cryf ynghylch y disgwyliad sydd ar Gynghorwyr Cymuned i fynychu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer eu rolau. Rhaid nodi bod Cynghorwyr yn rhoddi o'u hamser yn rhad ac am ddim er budd y gymuned ac yn y rhan fwyaf o achosion, maent dan bwysau oherwydd eu hymrwymiadau i'w swyddi neu eu busnesau eu hunain. Ni fyddai gorfodi gofynion ychwanegol ar gynghorwyr i ymrwymo mwy yn cael derbyniad da yn enwedig pan mae gan aelodau ymrwymiadau eraill yn y gymuned, megis fel Llywodraethwyr ysgol. Mae gennym lefydd gwag eisoes ar y cyngor ac mae nifer o gynghorwyr wedi dweud yn glir y byddant yn sefyll i lawr os ydynt yn cael eu gorfodi i fynychu hyfforddiant. Roedd cryn drwgdeimlad ynghylch y ffaith fod swyddogion o'r cyngor sydd ar gyflogau da yn mynnu eu bod hwy, fel gwirfoddolwyr, yn mynd ar hyfforddiant.

Ymhellach, yn ystod y cyfnod hwn o dorri cyllidebau cynghorau, rydym yn teimlo bod cost hyfforddiant o'r math yma yn foethusrwydd nad oes ei angen. Er mwyn arbed arian, mae'r cyfan o'n haelodau unwaith eto eleni wedi cytuno i beidio hawlio eu lwfansau.

Mae gennym nifer o aelodau ar ein Cyngor sydd wedi bod yn gwasanaethu am flynyddoedd lawer a chanddynt gryn brofiad o'r modd y mae cyfarfodydd yn cael eu rhedeg. Yn fy achos i, fel un sy'n weddol newydd i'r ardal, rwy'n fodlon rhoi o fy amser i'r Cyngor ond nid i ymrwymo fy hun i gyfarfodydd pellach. Rwyf hefyd yn gyn-Gadeirydd Cymdeithas ar lefel y DU gyda dros 30 o flynyddoedd o brofiad o gadeirio cyfarfodydd.

Hyderaf y byddwch yn deall teimladau'r Cyngor ac edrychwn ymlaen at ymateb yn y man.

*At the meeting of the Llanfaethlu and Llanfwrog Community Council on 7th May 2019, your email regarding the Standards Committee discussion of training and development requirements of Community Councils and their Clerks was discussed at length.*

*Whilst no-one objected to the Code of Conduct, there was very strong feeling about the expectation on Community Councillors to undertake additional training for their roles. It must be pointed out that the Councillors give of their time freely for the benefit of the community, whilst in most cases being pressured by the commitments of their own employment or businesses. To impose additional requirements on councillors to increase their commitments would not be received well, particularly when members have other community commitments, such as school Governors. We already carry vacancies and several members have made it clear that they will stand down if forced to undergo training. There was considerable ill-feeling at being required to do such training as volunteers by well-paid officers of the council.*

| | |
|---|---|
| | *Furthermore in these days of cost-restricted council budgets we feel the expense of training of this sort is an unnecessary luxury. In order to save money all our members have agreed not to claim their allowance again this year.*<br><br>*On our Council we have members who have served many years, with considerable experience of how the meetings run. For my part, as a relative newcomer to the area, I am happy to give up my time for the Council but not to commit myself to further meetings. I am also a former Chair of a UK-wide Association, with over 30 years of experience chairing meetings.*<br><br>*I trust you will understand the feeling of the Council and we look forward to a response in due course*. |
| LlanfairME | |
| Llanfair yn Neubwll | 31/7/2019<br><br>May 2019M.doc    Llan NB Training Plan 2019-2022.pdf |
| Llanfairpwll | |
| Llanfihangelesceifiog | |
| Llangefni | |
| Llangoed a Phenmon | 30/7/2019<br>Mae'r ddau Gyngor wedi gosod cyllideb ar gyfer hyfforddiant am 2019/20 ac mae dyddiadau hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru neu asiantaethau eraill yn cael eu cylchredeg i aelodau ar unwaith pan gânt eu cyhoeddi.<br><br>Mae Aelodau'n achub ar y cyfle i fynd ar hyfforddiant os yw hynny'n bosibl ond nid oes cynllun hyfforddiant ar gael.<br><br>*Both Councils have set a budget for training for 2019/20 and training dates offered by One voice Wales or other agencies are circulated to members as soon as they are released.*<br><br>*Members take up the opportunity for training if possible, no do not have a training plan in place.* |
| Llangristiolus **(llythyr)** | 30/7/2019<br>Mae Cynghorau Cymuned Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus a Penmynydd wedi trafod a chytuno ar gynlluniau hyfforddi ac wedi cyllidebu ar gyfer hyfforddiant. Mae'r pedwar cyngor yn mynychu |

| | |
|---|---|
| | cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael |
| Llanidan | |
| Mechell | |
| Porthaethwy / Menai Bridge | |
| Moelfre | |
| Penmynydd a Star | 30/7/2019<br>Mae Cynghorau Cymuned Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus a Penmynydd wedi trafod a chytuno ar gynlluniau hyfforddi ac wedi cyllidebu ar gyfer hyfforddiant. Mae'r pedwar cyngor yn mynychu cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael.<br><br>*Llanddyfnan, Bryngwran, Llangristiolus and Penmynydd Community Councils have discussed and agreed training plans and have provided a budget for training. The four coucils attend courses as they become available*. |
| Pentraeth | |
| Rhoscolyn **(llythyr)** | |
| Rhosybol | |
| Rhosyr | |
| Trearddur | 31/7/2019<br>Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda gopi o'r Cofnodion a'r cynllun hyfforddiant yn ôl yr angen.<br><br>Mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i mi hefyd fwydo'n ôl fod Un Llais Cymru'n darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn bennaf ac mai ychydig iawn o hyfforddiant o ansawdd sydd ar gael i'r clercod ar hyn o bryd. Awgrymwyd hefyd bod staff y Cyngor efallai mewn gwell sefyllfa i rannu arfer orau a rhoi cefnogaeth i glercod.<br><br>*Please find attached a copy of the Minutes and Training plan as requested.*<br><br>*I have also been asked by the Community Council to feed back that One Voice Wales mainly provide awareness training and that there is very little quality training available to the clerks at this time. It was also suggested that perhaps the County Council staff would be well placed to share best practices and provide support for clerks*.<br><br>May 2019M.dotx TB Training Plan 2019-2022.pdf |

| | |
|---|---|
| Tref Alaw | |
| Trewalchmai | 16/7/2019 - Yn dilyn yr e-bost isod, amgaeaf gopi o gofnodion y Cyngor sy'n cadarnhau a Hyfforddiant a Datblygiad ar gyfer Cynghorwyr a Chlercod Cynghorau Cymuned a Thref (fe'u gwelir dan Eitem 4 Materion yn Codi (d).<br><br>*16/7/09 – Following the e-mail attached below, a enclose a copy of the Council minutes which confirm the Training and Development for Councillors and Clerks of Community and Town Councils (as they appear under Item 4 – Matters Arising (d).*<br><br>Cofnodion Gorffennaf 2019.do |
| Y Fali / Valley | 14/7/2019 - Amgaeaf daflen yn gosod gwybodaeth ynglyn a hyfforddiant aelodau Cyngor Cymuned y Fali.<br><br>*14/7/19 – I enclose a spreadsheet which incorporates information regarding training undertaken by members of Valley Community Council*.<br><br>Training Record 140719.xlsx |

| **Cyngor Tref/Cymuned / Town/Community Council** | **Ymateb ebost 4.7.2018 / Responded to email 4.7.2018** | **Ymateb ebost 1.5.2019 / Responded to email 1.5.2019** |
|---|---|---|
| Aberffraw | | |
| Amlwch | | |
| Bodedern | | |
| Biwmares / Beaumaris | | |
| Bodffordd | | |
| Bodorgan | | |
| Bryngwran | | |
| Cwm Cadnant | | |
| Cylch y Garn | | |
| Caergybi / Holyhead | | |
| Llanbadrig | | |
| Llanddaniel Fab | | |
| Llanddona | | |
| Llanddyfnan | | |
| Llaneilian | | |
| Llanerchymedd | | |
| Llaneugrad | | |
| Llanfachraeth | | |
| Llanfaelog | | |
| Llanfaethlu a Llanfwrog | | |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | | |
| Llanfair yn Neubwll | | |
| Llanfairpwll | | |
| Llanfihangelesceifiog | | |
| Llangefni | | |
| Llangoed a Phenmon | | |
| Llangristiolus | | |
| Llanidan | | |
| Mechell | | |
| Porthaethwy / Menai Bridge | | |
| Moelfre | | |
| Penmynydd a Star | | |
| Pentraeth | | |
| Rhoscolyn | | |
| Rhosybol | | |
| Rhosyr | | |
| Trearddur | | |
| Tref Alaw | | |
| Trewalchmai | | |
| Y Fali / Valley | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **17 Medi 2019** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad o Gynseiliau / Nodiadau Briffio i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau:**<br>- **Nodyn Briffio ar Ganiatâd Arbennig;**<br>- **Nodyn Methodoleg ar yr Adolygiad o'r Cofrestri ar gyfer Cynghorau Cymuned; a**<br>- **Chylch Gorchwyl / Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cael cymeradwyaeth y Pwyllgor Safonau i'r Cynseiliau / Nodiadau Briffio sydd ynghlwm** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Mared Wyn Yaxley**<br>**Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol**<br>**mwycs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lbxcs@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynhyrchu Cynseiliau / Nodiadau Briffio yn rheolaidd ar gyfer yr Aelodau, yn unol â'i benderfyniad i fod yn rhagweithiol ac mewn ymdrech i gynorthwyo aelodau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau / i roi cymorth iddynt.

Cyflwynir tair dogfen i'r Pwyllgor eu cymeradwyo.

## 2. NODYN BRIFFIO AR GANIATADAU ARBENNIG

2.1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno y dylid adolygu'r Nodiadau Briffio a baratowyd ar gyfer aelodau CSYM a Chynghorwyr Tref a Chymuned mewn perthynas â Chaniatadau Arbennig.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor Safonau hefyd y dylid cael barn Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (OGCC) ynglŷn â'r geiriad a ddefnyddir yng Nghanllaw'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r sail (j) yn y ddeddfwriaeth. Dylid adlewyrchu ymateb yr Ombwdsmon yn y Nodyn Briffio diwygiedig. Caiff yr ymateb gan yr Ombwdsmon ei drafod o dan eitem 14 ar y Rhaglen.

2.3 Mae'r Nodyn Briffio gwreiddiol wedi'i ddiwygio yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor Safonau ac ymateb yr Ombwdsmon i ymholiadau. Mae'r ddogfen ddiwygiedig, gyda'r newidiadau wedi eu tracio, ar gyfer y Cynghorwyr Tref a Chymuned i'w gweld yn **Atodiad 1** ac ar gyfer y Cynghorwyr Sir i'w gweld yn **Atodiad 2**.

2.4 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r dogfennau fel y cawsant eu diwygio ac i'r dogfennau hynny gael eu dosbarthu i'r Cynghorwyr Tref a Chymuned a'r Cynghorwyr Sir.

## 3. NODYN METHODOLEG AR YR ADOLYGIAD O'R COFRESTRI AR GYFER CYNGHORAU CYMUNED

3.1 Mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno y dylid adolygu'r Nodyn Methodoleg ar yr Adolygiadau Cynghorau Tref a Chymuned yn wyneb y canfyddiadau a wnaed pan wnaeth aelodau'r Pwyllgor Safonau gynnal yr adolygiadau yn ystod Rhagfyr 2018 – Chwefror 2019.

3.2 Mae'r Nodyn Methodoleg a gafodd ei ddrafftio'n wreiddiol wedi cael ei ddiwygio yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor Safonau. Mae'r ddogfen ddiwygiedig, gyda'r newidiadau wedi eu tracio, i'w gweld yn **Atodiad 3** ac mae copi glân o'r fersiwn ddiwygiedig i'w gweld yn **Atodiad 4**.

3.3 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r dogfennau fel y cawsant eu diwygio ac i'r dogfennau hynny gael eu defnyddio mewn unrhyw adolygiadau a gynhelir yn y dyfodol mewn Cynghorau Tref a Chymuned.

## 4. CYLCH GORCHWYL / CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU

4.1 <u>Cyflwyniad</u>

4.1.1 Cyfeirir at y Pwyllgor Safonau, fel un o bwyllgorau Cyngor Sir Ynys Môn, yng Nghyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn ym mharagraff 2.9.

4.1.2 Mae yna hefyd ddogfen gyfansoddiad / cylch gorchwyl llawn ar gyfer y Pwyllgor Safonau, nad yw'n ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ond ceir cyfeiriadau ati ynddo.

4.1.3 Mae'r manylder sydd wedi'i gynnwys ar gyfer y Pwyllgor Safonau ym mharagraff 2.9 Cyfansoddiad y Cyngor Sir yn gyfyngedig.

4.1.4 Mae'r ddogfen cylch gorchwyl wedi'i bwriadu fel dogfen fanylach, sy'n cynnig gwybodaeth fwy ymarferol. Fel mae'r ddogfen yn awgrymu, "Bwriedir iddi fod yn 'ddogfen waith' sydd yn ymgorffori manylion mewn perthynas â gweithrediadau'r Pwyllgor Safonau a'r dogfennau a gynhyrchwyd ganddo i gynorthwyo aelodau etholedig a chyfetholedig yr Awdurdod a Chynghorwyr Tref a Chymuned."

4.2 <u>Dogfennaeth</u>

4.2.1 <u>Cyfansoddiad CSYM</u>

4.2.1.1 Yn **Atodiad 5** mae copi wedi'i farcio o Baragraff 2.9 o Gyfansoddiad cyfredol CSYM.

4.2.1.2 Y mymryn lleiaf o newidiadau a fwriedir a chânt eu hawgrymu fel bod y ddogfen yn fwy clir / yn cadarnhau'r gofynion deddfwriaethol.

4.2.1.3 Mae'n rhaid cael penderfyniad gan y Cyngor llawn i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, oni bai bod y newid yn dod o dan bwerau dirprwyedig y Swyddog Monitro. Daw'r newidiadau arfaethedig, fel maent wedi eu marcio, o dan y ddirprwyaeth honno felly ni fydd angen penderfyniad gan y Cyngor llawn.

4.2.1.4 Cyflwynir y newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Safonau i bwrpas ymgynghori.

4.2.2 <u>Cylch Gorchwyl</u>

4.2.2.1 Yn **Atodiad 6** mae copi wedi'i farcio o Gylch Gorchwyl cyfredol y Pwyllgor Safonau.

4.2.2.2 Nid yw'r ddogfen hon yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac felly nid oes angen penderfyniad gan y Cyngor. Dogfen fewnol yw hi (er hynny, cyfeirir ati yng Nghyfansoddiad y Cyngor llawn) a chan ei bod yn cynnwys manylion am sut mae'r Pwyllgor safonau yn gweithio, caiff y Pwyllgor Safonau ei hun wneud unrhyw newidiadau iddi.

4.2.2.3 Mae'r newidiadau a wneir i'r ddogfen hon yn helaeth, gan fod hon yn cael ei gweld fel dogfen fyw, ac mai ei bwriad yw bod yn ganllaw ymarferol. Maent yn cynnwys adran ychwanegol ar "ganiatadau arbennig" ac adran a fydd yn rhestr 'gyfeirio sydyn' o'r dogfennau a ddarperir gan y Pwyllgor Safonau i aelodau yn y Cyngor Sir a/neu'r Cynghorau Tref/Cymuned.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Bod y Pwyllgor Safonau yn

5.1.1 nodi cynnwys yr adroddiad hwn;

5.1.2 cadarnhau ei fod yn cytuno â'r newidiadau i'r Nodiadau Briffio ar Ganiatadau Arbennig fel y dangosir yn **Atodiad 1** ac **Atodiad 2;**

5.1.3 cadarnhau ei fod yn cytuno i **Atodiad 1** gael ei anfon i'r Cynghorau Tref a Chymuned gyda chais fod y Clercod yn ei ddwyn i sylw'r aelodau, ac i **Atodiad 2** gael ei ddosbarthu i aelodau etholedig a chyfetholedig CSYM ac i'r ddogfen ddiwygiedig gael ei huwch-lwytho i'r system fewnrwyd yn unol â hynny;

5.1.4 cadarnhau ei fod yn cytuno â'r newidiadau i'r Nodyn Methodoleg ar yr Adolygiad o'r Cofrestri fel y dangosir yn **Atodiad 3**;

5.1.5 cadarnhau ei fod yn cytuno i'r Nodyn Methodoleg diwygiedig yn **Atodiad 4** gael ei ddefnyddio mewn unrhyw adolygiadau a gynhelir yn y dyfodol yn y Cynghorau Tref a Chymuned;

5.1.6 cadarnhau ei fod yn cytuno â mabwysiadu Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn gyda'r newidiadau sydd wedi eu nodi yn **Atodiad 5**; ac

5.1.7 yn mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl gyda'r newidiadau sydd wedi eu nodi yn **Atodiad 6** ac yn cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor.

# Nodyn Briffio i Gynghorwyr Tref a Chymuned yn Ynys Môn

## Caniatâd Arbennig

Mae hwn yn nodyn briffio i Gynghorwyr Tref a Chymuned ynglŷn â 'Chaniatâd Arbennig'. Os oes gan Gynghorwyr neu Glercod unrhyw gwestiynau, dylid cysylltu â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Sir Ynys Môn:

Lynn Ball – lbxcs@ynysmon.gov.uk

Yn unol â'u Cod Ymddygiad, ni chaniateir i unrhyw Gynghorydd gymryd rhan mewn mater os oes ganddo ef/hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu* yn y mater hwnnw oni bai bod caniatâd arbennig wedi ei roi ymlaen llaw gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

**Y Rhesymau dros roi caniatâd arbennig**

Mae'r rhesymau dros roi caniatâd arbennig yn statudol ac fe'u rhestrir isod:- wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (**Atodiad 1**) fel y'i diwygiwyd gan Adran 4 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Dwiygio) 2016 (**Atodiad 2**).
Gellir rhoi caniatâd arbennig ar un neu fwy o'r seiliau canlynol:-

1. os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw; *(sail (a) Cymraeg a Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

2. *(sail Cymraeg a Saesneg (b)) – DDIM YN ADDAS AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED*

3. *(sail Cymraeg a Saesneg (c))- DDIM YN ADDAS AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED*

4. os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal; *(sail (ch) Cymraeg a sail (d) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

5. os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd; *(sail (d) Cymraeg a sail (e) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

6. os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; *(sail (dd) Cymraeg a sail (f) Saesneg yn y ddeddfwriaeth)*;

7. *(sail Cymraeg (e) a Saesneg (g)) - DDIM YN ADDAS AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED*

Formatted: Indent: Left: 0 cm
Formatted: Font: 12 pt
Formatted: Font: 12 pt
Formatted: Font: 12 pt
Formatted: Font: 12 pt
Formatted: Font: 12 pt

8. os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; *(sail (f) Cymraeg a sail (h) Saesneg yn y ddeddfwriaeth);*

Formatted: Font: 12 pt

9. os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi; *(sail (ff) Cymraeg a sail (i) Saesneg yn y ddeddfwriaeth);* - neu

Formatted: Font: 12 pt

10. os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod yn briodol fel arall caniatáu gollyngiad. *(sail (g) Cymraeg a sail (j) Saesneg yn y ddeddfwriaeth).*

Formatted: Font: 12 pt

[Rhaid i'r Pwyllgor Safonau adolygu caniatâd ar y sail yma ym mhob cyfnod o 12 mis o'r dyddiad rhoddir y Caniatâd Arbennig].

Formatted: No bullets or numbering

Formatted: Indent: Left: 0 cm

1. ~~Ni fyddai o leiaf hanner y Cynghorwyr perthnasol (y Cyngor Cymuned / Pwyllgor o'r Cyngor Cymuned) yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod oherwydd diddordeb sy'n rhagfarnu;~~

2. ~~Mae natur y diddordeb yn golygu na fyddai cyfranogiad yn cael effaith andwyol ar hyder y cyhoedd yn y penderfyniad;~~

3. ~~Mae diddordeb y Cynghorydd sy'n Ymgeisio'n gyffredin i gyfran sylweddol o'r cyhoedd;~~

4. ~~Byddai swyddogaeth neu arbenigedd y Cynghorydd sy'n Ymgeisio'n cyfiawnhau caniatáu iddo/iddi gymryd rhan;~~

- Manylion am y diddordeb personol*/diddordeb sy'n rhagfarnu**;
- Manylion am yr eitem fusnes y mae'r diddordeb yn ymwneud â hi;
- Llofnod yr Aelod.

**Clercod**: Er hwylustod, argymhellir bod dogfen safonol yn cael ei defnyddio ar gyfer y cofrestriad hwn. Mae copi o'r Ffurflen Datganiad mewn Cyfarfodydd a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm yn **Atodiad 3**.

Mae'n rhaid i Aelod ddatgan unrhyw ddiddordeb personol perthnasol mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig y byddant yn eu gwneud y tu allan i gyfarfodydd.

Os bydd Aelod yn gwneud sylwadau ar lafar y tu allan i bwyllgor ffurfiol, mae hefyd angen iddynt ddatgan y diddordeb ar lafar a'i gadarnhau'n ysgrifenedig i'r Clerc o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod.

**Clercod**: Gweler yr adran ar y "Gofrestr o Ddiddordebau" am ragor o wybodaeth ar sut y dylid cadw'r datganiadau ysgrifenedig a gofynion pellach.

(2) RHODDION A LLETYGARWCH

Os bydd Aelod yn derbyn rhodd neu letygarwch yn ei rôl fel Aelod, mae'n rhaid iddo ef/hi ddatgan y rhodd / lletygarwch hwnnw o fewn 28 diwrnod o'i dderbyn; cyhyd â bod y gwerth/gwerth a amcangyfrifir yn uwch na'r gwerth y manylwyd arno mewn penderfyniad gan eich Cyngor Tref/Cymuned.

Argymhellir hefyd y dylid datgan rhodd/lletygarwch a gofrestrwyd os yw'n berthnasol i fater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod. Gallai fod yn ddiddordeb personol o dan ddarpariaeth y Cod.

## DIDDORDEBAU SY'N RHAGFARNU

**Beth yw diddordeb sy'n rhagfarnu?**

Bob tro y bydd Aelod yn penderfynu bod ganddynt ddiddordeb personol yn y mater dan sylw, mae'n rhaid iddynt hefyd weithredu'r prawf isod:

**A fyddai aelod o'r cyhoedd, a oedd yn gwybod y ffeithiau perthnasol, yn meddwl yn rhesymol bod y diddordeb personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o effeithio'n andwyol ar allu'r Aelod i roi barn ar y mater er lles y cyhoedd.**

Os mai “na” yw’r ateb, yna dim ond diddordeb personol sydd gan yr Aelod a chaiff gymryd rhan lawn yn y drafodaeth/bleidlais; ar yr amod ei fod wedi datgan y diddordeb personol. Mae hyn yn golygu nad yw’r diddordeb mor arwyddocaol nes ei fod yn eithrio’r aelod ond mae ei ddatgan yn gwarchod unplygrwydd y penderfyniad drwy sicrhau tryloywder.

Fodd bynnag os mai’r ateb i’r cwestiwn (mewn teip tywyll uchod) yw “byddai”, mae angen i’r Aelod ystyried a yw’r mater yn dod o dan unrhyw un o’r eitemau eithriedig a restrir ym mharagraff 12(2)(b) y Cod Ymddygiad.

- Os yw un o’r eithriadau’n berthnasol, nid ystyrir bod gan yr Aelod ddiddordeb sy’n rhagfarnu. Bydd yr angen i ddatgan diddordeb personol yn parhau i fod yn berthnasol ac fe ddylai’r Aelod nodi pa eithriad maent yn dibynnu arno.
- Os nad yw’r un eithriad yn berthnasol, mae gan yr Aelod ddiddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu ac ni ddylai gymryd rhan.

## DATGAN DIDDORDEBAU SY’N RHAGFARNU

CYFARFODYDD:-

Mae’n rhaid i Aelod ddatgelu, pob tro y caiff y mater ei drafod, fod ganddo/ganddi ddiddordeb sy’n rhagfarnu, hyd yn oed os yw’r diddordeb yn un sydd wedi’i ddatgan o’r blaen mewn cyfarfodydd cynharach.

Os yw aelodau o’r cyhoedd yn cael mynychu’r un cyfarfod i wneud sylwadau ar lafar, gall yr Aelod wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar, ond mae’n rhaid i’r Aelod adael y cyfarfod wedyn cyn y cynhelir unrhyw drafodaeth; hyd yn oed os yw aelodau’r cyhoedd yn cael aros.

Os nad yw’n gyfarfod cyhoeddus, ar ôl datgelu’r diddordeb sy’n rhagfarnu, mae’n rhaid i’r Aelod adael yr ystafell tra bydd y mater yn cael ei drafod. Nid yw aros yn yr ystafell, na symud i ran arall o’r ystafell, yn opsiwn a byddai hynny’n torri’r cod.

***Enghraifft:-***
Gwelwyd fod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri’r Cod am fethu â datgan diddordeb personol a diddordeb sy’n rhagfarnu mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd hi’n gyd-berchennog arni. Roedd Cytundeb Opsiwn yn bodoli ar gyfer datblygu ffordd i’r fferm wynt ar draws tir yr Aelod; nid oedd wedi’i ddatgan ar y Gofrestr Gyffredinol (fe ddylai fod wedi) ac ni chafodd ei ddatgelu gan yr Aelod yn y cyfarfod. Arhosodd yr Aelod yn y cyfarfod (er i Aelod arall ddatgan diddordeb a gadael yr ystafell), ac fe gymerodd ran yn y bleidlais (gan atal ei phleidlais). Cafodd yr Aelod ei wahardd am 3 mis. *[Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth – APW/002/2014-015/CT]*

Mewn cyfarfodydd ffurfiol, os yw Aelod yn datgan diddordeb sy’n rhagfarnu **am y tro cyntaf**, mae’n rhaid i’r Aelod hefyd roi cadarnhad ysgrifenedig o’r diddordeb i’r Clerc cyn diwedd y cyfarfod.

Mae’n rhaid i’r cadarnhad ysgrifenedig gynnwys y canlynol, o leiaf:-

- Manylion am y diddordeb personol*/diddordeb sy’n rhagfarnu**;
- Manylion am yr eitem fusnes y mae’r diddordeb yn ymwneud â hi;
- Llofnod yr Aelod;
- Cadarnhad ei fod ef / hi wedi gadael yr ystafell gyfarfod ac na wnaeth gymryd rhan yn y mater.

**<u>Clercod</u>**: Er hwylustod, argymhellir bod dogfen safonol yn cael ei defnyddio ar gyfer y cofrestriad hwn. Mae copi o'r Ffurflen Datganiad mewn Cyfarfodydd a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm yn **Atodiad 3**.

**<u>Clercod</u>**: Gweler yr adran ar y "Gofrestr o Ddiddordebau" am ragor o wybodaeth ar sut y dylid cadw'r datganiadau ysgrifenedig a gofynion pellach

<u>SYLWADAU YSGRIFENEDIG A LLAFAR:-</u>

Ni ddylai Aelodau geisio dylanwadu'r busnes y mae ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu ynddo ac ni ddylent fod yn rhan o unrhyw drafodaethau ar y mater, oni bai bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoddi caniatâd arbennig.

**<u>COFRESTR O DDIDDORDEBAU:</u>**

Nid oes unrhyw ofyniad i Aelodau Cynghorau Tref/Cymuned gwblhau cofrestr sefydlog o ddiddordebau h.y. cyn-gofrestru cyflogaeth/busnes/daliadau tir/aelodaeth o gyrff allanol ac ati. Dyletswydd yr Aelodau Tref/Cymuned yw datgan diddordeb "yn y fan a'r lle" os a phryd mae'n codi mewn cyfarfod. [Mae hyn yn wahanol i'r gofyniad ar gyfer Cynghorwyr Sir. Mae rhai Cynghorau Tref/Cymuned wedi gofyn i'w haelodau ddarparu gwybodaeth o'r fath; gellir annog aelodau i wneud hyn ond ni ellir eu gorfodi.]

Mae gofyn i Aelodau Tref/Cymuned gofrestru diddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu yng Nghofrestr y Cyngor Tref/Cymuned "fel a phryd" maent yn codi trwy roi <u>hysbysiad ysgrifenedig</u> i'r Clerc **ar yr achlysur cyntaf** pan wneir y <u>datganiad llafar.</u>

Mae **Atodiad 4** yn cynnwys darn o gyngor a gylchredwyd gan Un Llais Cymru mewn perthynas â diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu, ac yn arbennig, y gofynion o ran cyn-gofrestru diddordebau.

Bydd diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r Cyngor Tref/Cymuned.

- Er enghraifft – Gan gofio'r etholiadau ym mis Mai 2017, petai mater wedi cael ei drafod ym mis Ionawr 2017 a bod Cynghorydd wedi gwneud datganiad llafar mewn cyfarfod ac wedi cadarnhau'r datganiad hwnnw yn ysgrifenedig ar y pryd, petai'r mater yn codi ei ben eto ym mis Awst 2018, byddai angen i'r Cynghorydd ddatgan ar lafar A chofrestru ei ddiddordeb eto (gan iddo wneud y datganiad blaenorol cyn yr etholiad).

Os bydd unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu sydd wedi'u cofrestru, mae'n rhaid eu cadarnhau'n ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i pryd digwyddodd y newid.

- Er enghraifft, os oedd aelod wedi datgan diddordeb sy'n rhagfarnu o'r blaen oherwydd bod cais am ganiatâd cynllunio ar yr eiddo drws nesaf iddo yn cael ei drafod, petai'r aelod yn gwerthu ac yn symud allan o'r tŷ hwnnw, dylai'r aelod roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Clerc ei fod wedi gwerthu a symud tŷ ac felly nad yw'r diddordeb a gofrestrwyd o'r blaen yn berthnasol mwyach.

Mae'r gofyniad i ddatgan y diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu, darparu'r cadarnhad ysgrifenedig er mwyn "cofrestru" y diddordeb, ac i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newid yn y diddordebau cofrestredig hynny, yn gyfrifoldeb i'r

aelod. Mae'r gofyniad i gadw a chyhoeddi'r Gofrestr o Ddiddordebau yn gyfrifoldeb i'r Clerc, fel y swyddog priodol ar gyfer y Cyngor Tref/Cymuned.

Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer y Gofrestr, ond mae defnyddio ffurflen safonol ar gyfer pob cofrestriad o ddiddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu a'u casglu ynghyd mewn ffeil unigol, yn nhrefn enwau'r Aelodau, yn ddigonol. Mae'r ffurflenni unigol hyn wedyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatganwyd gan Aelodau'r Cyngor Tref/Cymuned. Os yw Aelod heb wneud unrhyw ddatganiad, ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gofnodion/ffurflenni yn y Gofrestr.

Mae'n rhaid i Glercod sicrhau, mewn perthynas â'r Gofrestr:

- ei bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol, ac yn electronig ar wefan y Cyngor.
- bod unrhyw ddatganiadau newydd yn cael eu hychwanegu at y Gofrestr cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod
- y caiff ei diweddaru gydag unrhyw hysbysiadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Aelodau yn rhoi manylion y diddordeb cofrestredig nad yw'n berthnasol mwyach.

Mae'n rhaid i Glercod hefyd gofnodi datganiadau llafar a wneir mewn cyfarfodydd yn y cofnodion, a sicrhau bod y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi, unwaith y maent wedi'u cymeradwyo. Efallai y byddai'n arfer da cynnwys cyfeirnod (o fewn y datganiad o ddiddordeb a nodwyd yn y cofnodion) i'r dyddiad pan gafodd y diddordeb, sy'n cael ei ddatgan ar lafar, ei gofrestru yn y Gofrestr o Ddiddordebau, er hwylustod i'r cyhoedd.

Mae sawl Cyngor Tref/Cymuned lle mae'r Aelodau yn dilyn arferiad o gadarnhau pob datganiad llafar o ddiddordebau personol neu sy'n rhagfarnu trwy gadarnhad ysgrifenedig, yn unol ag arferion y Cyngor. Yn yr amgylchiadau hynny, mae'r Gofrestr wedi'i ffurfio o'r holl ffurflenni datganiad, a gaiff eu cadw yn nhrefn eu dyddiad fel arfer. Mae'r arferiad hwn yn mynd tu hwnt i ofynion y Cod ond mae'n sicrhau tryloywder a chysondeb rhwng gwybodaeth am ddatganiadau mewn Cofnodion a'r datganiadau sydd yn y Gofrestr. Fel gyda chyn-gofrestru rhai diddordebau penodol, gellir annog aelodau i wneud hyn ond ni ellir eu gorfodi.

<u>Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn</u>
<u>Mawrth 2019</u>

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB GAN AELODAU MEWN CYFARFODYDD**

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad y Cyfarfod: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**Rhaid i Aelodau lenwi blychau 1, 2, 3 a 4 isod.**

**1.** Natur y diddordeb personol yw:

**2.** Busnes y Cyngor y mae'r diddordeb personol yn ymwneud ag ef yw:

**3. Rhaid i'r Aelodau roi tic mewn un blwch**

☐ **Nid yw'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ac fe gymerais ran yn yr eitem **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** a gadewais y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod **NEU**

☐ **Mae'r diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu*** ond rwyf wedi cael caniatâd arbennig.

*Diddordeb sy'n rhagfarnu yw diddordeb personol sydd mor sylweddol fel y byddai aelod gwybodus o'r cyhoedd yn credu'n rhesymol na fyddai'r Aelod yn gallu gweithredu ar y mater er budd y cyhoedd.

4. Yn fy marn i, mae fy niddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu NEU sydd ddim yn rhagfarnu oherwydd:

Llofnod……………………………..….     Dyddiad Llofnodi………………………

**DYLID RHOI'R FFURFLEN HON AR ÔL EI CHWBLHAU I AELOD O STAFF Y GWASANAETHAU PWYLLGOR YN YSTOD, NEU'N UNION AR ÔL, Y CYFARFOD.**



CC-016602-LB/160035

ATODIAD 3.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Canllawiau Statudol

# Mynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref

Mai 2015

ISBN digidol 978 1 4734 3399 1
© Hawlfraint y Goron 2015
WG25090

# CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU

# GWYBODAETH AM GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

## Statws a Chymhwyso

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir, yn rhannol o dan adran 55(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan adran 55(1) y Ddeddf mae'n ddyletswydd statudol ar Gynghorau Cymuned a Thref i ystyried y canllaw hwn.

Mae'r canllaw hefyd yn berthnasol i'r ddarpariaeth yn y Ddeddf sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus, cyfarfodydd a thrafodion y cynghorau a chofrestrau o fuddiannau aelodau.

## Cefndir

1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ( Democratiaeth ) (Cymru ) 2013, y cyfeirir ati fel "y Ddeddf" yn y canllaw hwn, Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Prif bwrpas y Ddeddf oedd diwygio cyfansoddiad a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, cyflwynodd y Ddeddf amrywiaeth o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â llywodraeth leol.

2. Mae adrannau 55 i 58 o'r Ddeddf yn ymwneud â mynediad at wybodaeth, ac yn fwyaf penodol, fynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned. (At ddibenion y canllaw hwn, mae unrhyw gyfeiriad at Gyngor neu Gynghorau Cymuned yn cynnwys unrhyw Gyngor Cymuned, Tref neu Ddinas sy'n gwasanaethu cymuned neu gymuned wedi'i grwpio ac a gafodd ei sefydlu yn unol â Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ( "Deddf 1972").

3. I grynhoi, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael gwefannau; i gyhoeddi hysbysiadau a phapurau'n electronig; ac i gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau yn electronig (y rhai a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ).

## Gwefannau Cynghorau Cymuned – Adran 55

4. Mae Adran 55 o Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig am sut i gysylltu â hwy ac, os yw'n wahanol, sut i gysylltu â'r clerc. Mae'r wybodaeth a ddylai fod

ar gael yn electronig yn cynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost.

5. Yn ogystal â hyn, mae’n rhaid i'r cyngor gyhoeddi’n electronig wybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau’r cyngor, enw pob aelod, manylion am sut i gysylltu â hwy, eu hymlyniad gwleidyddol (os o gwbl) ac unrhyw swydd a ddelir ganddynt neu bwyllgor y maent yn perthyn iddo o fewn y cyngor. Os yw'r gymuned dan sylw wedi'i rhannu'n wardiau cymunedol, rhaid dangos y ward y mae pob aelod yn ei chynrychioli.

6. Rhaid i'r Cyngor Cymuned hefyd gyhoeddi cofnodion electronig o’i gyfarfodydd ac, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddogfennau y cyfeirir atynt yn y cyfarfodydd hynny. Mae'n rhaid iddynt hefyd gyhoeddi eu cyfrifon archwiliedig blynyddol yn electronig. Yn y ddau achos hyn, mae’n ofynnol i gynghorau gyhoeddi deunydd a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad pan ddaeth adran 55 i rym yn unig.

Nid yw'n ofynnol i Gynghorau Cymuned gyhoeddi unrhyw wybodaeth y maent yn cael eu hatal rhag ei datgelu gan unrhyw ddeddfwriaeth arall.

7. Wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 55, mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned roi sylw i'r canllaw hwn.

**Canllaw ynglyn Gwefannau Cynghorau Cymuned**

8. Penderfyniad i bob Cyngor Cymuned unigol yw a fyddant yn gweithredu eu gwefan annibynnol eu hunain, neu a fyddant yn penderfynu cysylltu â Chynghorau Cymuned eraill yn eu hardal, neu â'r prif gyngor, neu ag unrhyw gorff arall sy’n hapus i gynnal eu safle. Fodd bynnag, mae’n ofynnol bod y gwefannau’n cael eu diweddaru'n rheolaidd a bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a ddisgrifir uchod.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltiadau’r cyhoedd â llywodraeth leol yn gyffredinol a Chynghorau Cymuned yn benodol. Rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol bod modd cysylltu’n electronig â phob awdurdod lleol a’u bod wedi cyhoeddi gwybodaeth ar y we. Byddai trigolion lleol yn disgwyl cael y cyfleuster hwn yn yr oes hon.

10. Mae gan y rhan fwyaf o’r Cynghorau Cymuned yng Nghymru bresenoldeb ar-lein ac maent yn cyhoeddi gwybodaeth yn electronig eisoes. Mae Cynghorau Cymuned yn cael eu hannog i ofyn am gymorth

gan Un Llais Cymru, eu Prif Gyngor neu ffynonellau dibynadwy eraill os oes angen er mwyn datblygu eu presenoldeb ar y we.

11. O dan adran 55, mae’n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi’n electronig ei rif ffôn, ei gyfeiriad post ac e-bost ar y wefan. Mae’n rhaid cael yr wybodaeth hefyd ar gyfer clerc y Cyngor os yw'n wahanol i fanylion cysylltu â’r Cyngor. Byddai hefyd o fantais cael cyfeiriad e-bost cyffredinol at ddefnydd aelodau ac o bosibl Cadeirydd y cyngor. Mewn rhai achosion, bydd gan y Cyngor Cymuned ei swyddfeydd ei hun, neu bydd yn rhannu swyddfeydd, a byddai’n briodol cael rhif ffôn, cyfeiriad post ac e-bost y rhain hefyd. Ond bydd disgwyl i’r cynghorau gael trefniadau yn eu lle i ddarllen ac ymateb i negeseuon yn rheolaidd.

12. Nid yw'n orfodol i aelodau unigol gael cyfeiriadau e-bost. Mewn Prif Gyngor byddai hyn yn ddisgwyliedig oherwydd gall y Cyngor ei hun fel arfer roi cyfeiriadau e-bost ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhestru enwau'r aelodau a rhaid bod manylion ar-lein am sut i gysylltu â hwy. Bydd rhai cynghorau’n dymuno rhoi ffotograffau o bob aelod ar eu gwefan ond mae hyn yn benderfyniad iddynt hwy.

13. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi ymlyniad gwleidyddol aelodau'r cynghorau. Mae rhai Cynghorau Cymuned yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae hawl gan y cyhoedd i wybod beth yw argyhoeddiad gwleidyddol y rhai sydd mewn swydd etholedig, neu a ydynt yn annibynnol o unrhyw grŵp. Mae'n annerbyniol i aelod gelu ei ymlyniad gwleidyddol.

14. Os yw'r Cyngor Cymuned wedi'i rannu'n wardiau cymunedol, rhaid cyhoeddi’r ward y mae’r aelod yn ei chynrychioli. Os yw’n dal swydd o ryw fath yn y cyngor neu os yw’n perthyn i un o bwyllgorau’r cyngor, rhaid i hynny gael ei gyhoeddi ar y wefan.

15. Dylai aelodau cyfetholedig gael eu cofnodi er budd tryloywder i'w gwahaniaethu oddi wrth aelodau etholedig.

16. Mae paragraffau 4 i 6 uchod yn disgrifio’r dogfennau sydd angen eu rhoi ar y wefan. Dylai Cynghorau ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer cadw eu gwefan mewn trefn, gan gadw archif o ddogfennau’r gorffennol am gyfnod rhesymol, ond bod modd cael gafael arnynt yn hawdd o’r dudalen flaen.

17.Os oes gan y Cyngor Gynllun Iaith Gymraeg a'i arfer o dan y Cynllun Iaith Gymraeg yw i gynhyrchu deunydd yn ddwyieithog, yna mae hynny'n berthnasol yr un fath i ddeunydd sy'n cael ei gynhyrchu yn electronig.

18.Dylai darpariaethau y Ddeddf cael ei hystyried yn amlinellu'r gofynion sylfaenol. Bydd llawer o gynghorau yn awyddus i roi llawer mwy o wybodaeth na hyn ar eu tudalennau gwe ac yn cael eu hannog i wneud hynny. Bydd angen i gynghorau roi sylw i'r Côd Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol wrth ystyried pa mor briodol yw hyn y maent yn dymuno eu cyhoeddi.

http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/publicationsevents/publications/local-authority-publicity-wales/?lang=cy

19. Byddem yn disgwyl Cynghorau Cymuned i ystyried anghenion cymunedol gan gynnwys iaith, cyfathrebu a hygyrchedd. Mae gwefan Diverse Cymru yn rhoi arweiniad pellach.
http://www.diversecymru.org.uk

20. Dylai pob Cynghorau Cymuned a Thref gofrestru gyda'r wefan ganlynol,os hoffech Band Eang uwch gyflym gael eu hystyried yn eich cymuned leol.

http://btsf-wales-uat.lbi.co.uk/home?lang=_alt

21.O dan ddeddfwriaeth bresennol mae’n ofynnol i Gynghorau Cymuned osod unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu ragor o fannau amlwg yn eu hardal, ac mewn unrhyw fan arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

**Gwybodaeth am gyfarfodydd a thrafodion**

22. O dan ddeddfwriaeth mewn bodolaeth, mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned i bostio unrhyw hysbysiadau cyhoeddus mewn un neu fwy amlwg le yn eu hardal, ac yn unrhyw le arall sy'n ymddangos yn ddymunol ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhybudd (adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972). Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar Gynghorau Cymuned i gyhoeddi unrhyw hysbysiad o'r fath yn electronig.

23.Mae deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned i roi rhybudd o gyfarfodydd y Cyngor sydd ar ddod dri diwrnod clir cyn y cyfarfod cael ei gynnal drwy arddangos hysbysiad mewn lle amlwg yn y gymuned. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad ychwanegol ar gyfer hysbysiadau o'r fath i gael ei gyhoeddi yn electronig. Rhaid gwneud hyn dri diwrnod clir cyn y cyfarfod. Mae gofyniad i gyhoeddi yn electronig, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes i'w drafod yn y cyfarfod

hefyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r dogfennau yn ymwneud â busnes sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol i'w drafod yn breifat neu lle byddai datgelu dogfennau o'r fath yn groes i unrhyw ddeddfwriaeth arall.

24.O dan Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mae'n bosibl i gyfarfod cymunedol cael ei alw ar unrhyw adeg gan grŵp o etholwyr llywodraeth leol cyfanswm o 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, neu 50 o'r etholwyr (os yw 10% yn fwy na 50 o etholwyr ). Rhaid i'r rhai sy'n galw'r cyfarfod rhoi rhybudd i Gyngor Cymuned neu, os nad oes Cyngor Cymuned wedi'i sefydlu yn yr ardal, rhaid rhoi rhybudd i'r Prif Gyngor. O dan y darpariaethau newydd, gellir rhoi rhybudd i'r Cyngor Cymuned naill ai'n ysgrifenedig neu'n electronig. Lle mae'n cael ei roi ar ffurf electronig, rhaid i'r hysbysiad gydymffurfio â'r gofynion technegol a osodwyd gan y Prif Gyngor.

25. Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Prif Gynghorau ddarparu cyfleusterau ar gyfer hysbysiadau sydd i'w rhoi'n electronig a rhaid cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfarfod cymunedol yn electronig yn ogystal â thrwy gyfryngau traddodiadol.

26.Yn olaf, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofynion newydd sy'n ymwneud â chofrestru buddiannau aelodau. Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn am Gyngor Cymuned (yn ogystal ag awdurdodau eraill) i gadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau ariannol ac eraill aelodau fel a bennir yn y cod ymddygiad enghreifftiol (a ragnodir gan Orchymyn o dan adran 50 o'r Deddf 2000 *). Cyn cychwyn adran 58 o'r Ddeddf, mae'r gofrestr sydd ei angen i fod ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ar bob adeg resymol. Mae Adran 58 o'r Ddeddf yn mynnu bod y gofrestr yn cael ei gyhoeddi ar ffurf electronig hefyd. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau gan swyddog monitro'r prif awdurdod i'r 'swyddog priodol' o bob Cyngor Cymuned. Y 'swyddog priodol' yw'r aelod o staff y Cyngor a ddynodwyd gan y Cyngor i'r diben hwn.

* Ar hyn o bryd, 'Y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008'

**Y PWYLLGOR SAFONAU: ADOLYGIAD O GOFRESTRAU DIDDORDEBAU CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED -**
**NODYN CYNGOR AR FETHODOLEG (Ebrill 2019)**

Gofynnwyd i chi gynnal adolygiad o gofrestrau diddordebau'r cynghorwyr tref a chymuned. Cynhyrchwyd y nodyn hwn er mwyn eich cynorthwyo yn y broses honno trwy fanylu ar y dogfennau y mae angen eu hadolygu, y math o wybodaeth y bydd angen i chi ei chasglu trwy edrych ar y dogfennau hynny a'r dull ar gyfer adrodd ar eich canfyddiadau.

## A. DOGFENNAU I'W HADOLYGU

Dyma'r dogfennau y mae angen eu hadolygu yn ystod yr ymarfer hwn ers **4ydd Mai 2017** ( 'y dyddiad perthnasol'): -

**1. Y Gofrestr o Ddiddordebau Personol**

- Nid oes unrhyw fformat penodol ar gyfer y gofrestr o ddiddordebau, ond yn gyffredinol bydd y Gofrestr yn cynnwys
  **(a) Ffurflenni Datgan Diddordeb mewn Cyfarfodydd:**

  - Dyma'r ffurflenni papur a lenwir gan bob cynghorydd sy'n datgan diddordeb personol neu ddiddordeb personol a rhagfarnus, am y tro cyntaf, mewn eitem a drafodwyd mewn cyfarfod.

  **(b) Datganiadau ynghylch unrhyw newid i ddiddordebau sydd wedi eu cofrestru**

  Dyma'r cadarnhad ysgrifenedig a roddir gan gynghorydd o fewn 28 diwrnod i pryd wnaeth eu diddordeb personol/ rhagfarnol cofrestredig newid.

Dylid ystyried y Gofrestr yn erbyn yr hyn sy'n cael ei nodi o fewn cofnodion cyfarfodydd y cyngor.

**2. Cofnodion Cyfarfodydd**:

- Dylech adolygu rhaglen/agenda a chofnodion cyfarfodydd y cyngor a'i is-bwyllgorau o fewn cyd-destun y datganiadau a wneir yn **1** uchod.

**3. Cod Ymddygiad**

- Copi o god ymddygiad y cyngor tref/cymuned ar gyfer ei aelodau.

**4. Rhestr o enwau'r holl gynghorwyr tref/cymuned ers y dyddiad perthnasol**

**5. Copi o ffurflen derbyn swydd pob aelod cyfredol o'r cyngor tref/cymuned, sy'n cynnwys yr ymrwymiad statudol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad**

- Disgwylir i'r cynghorwyr fod wedi llofnodi ymrwymiad newydd i gydymffurfio â'r cod ymddygiad yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017; mae hyn yn ofynnol waeth p'un a oedd yr aelod yn cael ei ail-ethol ai peidio ac a gynhaliwyd etholiad ar gyfer y cyngor tref/cymuned hwnnw ai peidio.

**6. Cofnod o Hyfforddiant Aelodau**

- Nid oes gofyniad statudol i gadw cofnod hyfforddiant, ond ym marn y Pwyllgor Safonau, mae hynny'n arfer dda.

**7. Gwybodaeth am Hyfforddiant y Clerc**

- Cyflogir clercod gan y cynghorau tref/cymuned ac nid yw cylch gorchwyl rôl y Pwyllgor Safonau yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, clercod yw'r swyddogion priodol o fewn y cynghorau tref/cymuned ac o brofiad y Pwyllgor Safonau mae clerc sydd wedi'i hyfforddi a chanddo/chanddi'r adnoddau priodol o gymorth i'r cyngor yn ei gyfanrwydd oherwydd bydd yn meddu ar y gallu i gynghori'r cynghorwyr, y tu mewn a'r tu allan i'r cyfarfodydd, ar faterion yn cynnwys y cod ymddygiad.

**8. Gwefan Cyngor Tref / Cymuned**

- Ers Mai 2015, mae gofyniad statudol ar y cynghorau tref a chymuned i gael gwefannau ac i gyhoeddi gwybodaeth benodol ar y gwefannau hyn. [Trafodir manylion y gofynion hyn ymhellach yn adran B.7 isod.]

**9. Protocol Datrysiad Lleol**

- Ystyrir ei bod yn arfer dda i gynghorau tref/cymuned fabwysiadu protocol datrysiad lleol.

- Mae protocol enghreifftiol wedi cael ei ddrafftio gan Un Llais Cymru a'i gylchredeg ganddynt i'r cynghorau tref/cymuned.

## B. BETH SYDD ANGEN EI ADOLYGU?

**1. Y Gofrestr o Ddiddordebau Personol**

- Mae'r gofynion ar gyfer cynghorau Ttef a chymuned yn wahanol i gynghorwyr yn CSYM.

- Nid oes raid cael cofrestr sefydlog h.y. cofrestru cyflogaeth / busnes / tir / aelodaeth o gyrff allanol ac ati ymlaen llaw; ac nid oes angen ychwaith am gofrestr anrhegion a lletygarwch.

- Yr hyn sy'n ofynnol i gynghorwyr tref a chymuned yw datgan diddordeb personol neu ddiddordeb personol a rhagfarnus (gan gynnwys unrhyw rodd ac / neu letygarwch a dderbyniwyd os yw'n gysylltiedig â'r mater dan ystyriaeth) "yn y fan a'r lle" os, a phryd, y bydd mater yn codi. Yn ogystal, os bydd datganiad yn cael ei wneud am y tro cyntaf, mae dyletswydd o dan y cod ymddygiad i'r cynghorydd gadarnhau'r datganiad llafar hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r clerc.

- Mae copi o Nodyn Briffio a baratowyd ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned yn 2019 wedi'i gynnwys fel **Atodiad 1** .

- Nid oes unrhyw fformat penodol ar gyfer y gofrestr o ddiddordebau, ond mae defnyddio ffurflen safonol ar gyfer pob cofrestriad o ddiddordeb personol/rhagfarnol a'u casglu mewn ffeil unigol, yn nhrefn enwau'r aelodau, yn ddigonol. Gellir ychwanegu unrhyw hysbysiadau ysgrifenedig gan gynghorwyr dderbynnir er mwyn cadarnhau newid i'w diddordeb personol/rhagfarnol cofrestredig. Mae'r ffurflenni unigol hyn wedyn, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r gofrestr o ddiddordebau a ddatganwyd gan aelodau'r cyngor tref/cymuned. Os na fydd cynghorydd wedi gwneud unrhyw ddatganiad, yna ni fydd ganddo/ganddi unrhyw gofnodion/ffurflenni yn y gofrestr.

- Mae'r gofyniad i ddatgan y diddordeb personol/diddordeb sy'n rhagfarnu ar lafar, darparu'r cadarnhad ysgrifenedig er mwyn "cofrestru" y diddordeb, ac i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newid yn y diddordebau cofrestredig hynny, yn gyfrifoldeb i'r cynghorydd. Mae'r gofyniad i gadw a chyhoeddi'r gofrestr o ddiddordebau yn gyfrifoldeb i'r clerc, fel y swyddog priodol ar gyfer y cyngor tref/cymuned.

- Beth bynnag yw fformat y Gofrestr Ddiddordebau,

  → Gwiriwch fod y gofrestr ar gael gan y cyngor tref/cymuned i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol. [Mae hefyd yn ofynnol i'r gofrestr gael ei chyhoeddi ar wefan y cyngor tref/cymuned; trafodir hyn ymhellach yn is-adran 7 isod.]

➢ **Ffurflenni Datgan Diddordebau mewn Cyfarfodydd:**

a. Nid oes unrhyw un fformat ar gyfer y ffurflen datgan diddordebau a ddefnyddir i gadarnhau datganiad o diddordeb personol a / neu ddiddordebau sy'n rhagfarnu a wneir **am y tro cyntaf** ar lafar mewn

CC-019456-MY/467041

cyfarfod. Mae'r ffurflen datganiad a ddefnyddir gan CSYM ynghlwm fel **Atodiad 2** ac mae'n cynnwys yr holl feysydd gofynnol.

→ Gwiriwch fod y ffurflen a ddefnyddir gan y cyngor tref/cymuned yn foddhaol.

→ A ydych chi'n dymuno awgrymu unrhyw newidiadau i'r ffurflen ar gyfer datgan diddordebau mewn cyfarfodydd er mwyn cynorthwyo cynghorwyr yn y cynghorau tref/cymuned neu i wella eglurder a / neu dryloywder i'r cyhoedd?

b. Yn gyffredinol, ac fel mater o egwyddor, dylai'r ffurflenni datganiad papur fod yn hunan-esboniadol er mwyn i'r cyhoedd ddeall y diddordeb a sut y mae'n berthnasol i'r eitem ar yr agenda, y cysylltiad â'r eitem honno, ac a yw'r diddordeb yn ddiddordeb personol neu'n ddiddordeb personol a rhagfarnus gan olygu y bu'n rhaid i'r cynghorydd adael y cyfarfod o ganlyniad i ddiddordeb personol sydd hefyd yn rhagfarnus.

→ Gwiriwch a gwblhawyd y ffurflen yn llawn ac mewn ffordd a fyddai'n gwneud synnwyr i unrhyw un sy'n ei darllen (h.y. aelodau'r cyhoedd nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu arbenigedd penodol mewn perthynas â'r cod ymddygiad a'i ofynion)?

→ A oes digon o wybodaeth ynghylch y diddordeb a sut mae'n berthnasol i'r eitem ar yr agenda?

c. A oes unrhyw arwydd bod cynghorwyr yn cael anhawster gwahaniaethu rhwng datgan diddordebau personol (lle y byddent yn cael caniatâd i aros yn y cyfarfod) a datgan diddordebau personol a rhagfarnus (lle mae'n rhaid iddynt adael cyfarfodydd)?
Neu a yw cynghorwyr yn datgan buddiannau'n ddiangen a bod yn or-ofalus?

→ Ystyried, yn seiliedig ar y ffeithiau a ddatganwyd gan y cynghorydd neu'r manylion a gynhwyswyd yn yr agenda/adroddiadau/cofnodion os oedd y datganiad yn un personol neu'n un personol a rhagfarnus. A yw'ch barn chi'n debyg i'r hyn a fynegodd y cynghorydd?

d. Yna bydd angen i chi groesgyfeirio'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen datgan diddordebau gyda'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol. Wrth gwrs, yr unig ofyniad ydi bod cadarnhad ysgrifenedig wedi ei gwblhau ar gyfer y tro cyntaf pan wnaethpwyd y datganiad ar lafar, ac felly ni fydd ffurflen ar gyfer pob tro bydd y cynghorydd yn gwneud datganiad ar lafar (er y dylai'r cofnodion gadarnhau pob datganiad llafar) (*gweler isod am fwy o wybodaeth ynghylch gofynion y cofnodion*).

e. Bydd diddordeb personol / diddordeb sy'n rhagfarnu ond yn cael ei weld fel un a ddatgelwyd yn flaenorol os yw hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu ers y dyddiad diwethaf pan gafodd yr unigolyn ei ethol, ei benodi neu ei enwebu fel aelod o'r cyngor tref/cymuned.

- **Cadarnhad ysgrifenedig gan gynghorwyr ynghylch newidiadau i'w diddordebau cofrestredig:**

a. Os bydd unrhyw newidiadau i ddiddordebau personol / diddordebau sy'n rhagfarnu sydd wedi'u cofrestru, mae'n rhaid i gynghorydd tref/cymuned gadarnhau'r newid yn ysgrifenedig efo clerc y cyngor tref/cymuned o fewn 28 diwrnod i pryd ddigwyddodd y newid.

→ Gwiriwch os oes cadarnhad ysgrifenedig wedi ei gwblhau ar gyfer diweddaru unrhyw newid i ddiddordeb personol / rhagfarnol.

- **Cofnodion Cyfarfodydd:**

a. Nid oes fformat penodol ar gyfer agendâu a chofnodion; fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn ei bod yn arfer dda cynnwys datganiadau o ddiddordeb fel eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r cyngor, fel ffordd o atgoffa aelodau o'u rhwymedigaeth.

→ Gwiriwch fod yr agendâu yn cynnwys datganiadau o ddiddordeb fel eitem sefydlog ar yr agenda

b. Adolygu'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod lle gwnaed y datganiad am y tro cyntaf i ganfod a yw'r cofnodion hynny'n cadarnhau'r wybodaeth a gynhwysir ar y ffurflen datgan diddordeb.
Pan fo datganiad o ddiddordeb personol/rhagfarnol yn cael ei wneud gan gynghorydd ar lafar mewn cyfarfod, dylai'r datganiad llafar gael ei gofnodi yn y cofnodion (er nad oes ffurflen datgan diddordeb wedi ei chwblhau oherwydd fod y diddordeb eisoes wedi ei gofrestru).

→ Gwiriwch bod y cofnodion, dan yr eitem sefydlog datganiadau o ddiddordeb yn cadarnhau:

- y gwnaed datganiad o ddiddordeb,
- enw'r aelod a wnaeth y datganiad llafar,
- yr eitem ar yr agenda y mae'r datganiad yn ymwneud â hi, a
- p'un a oedd y datganiad a wnaed yn un personol neu'n un a oedd yn rhagfarnu;
- ac os oedd yn un a oedd yn rhagfarnu, bod yr aelod wedi gadael y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.

c. Ar ben hynny, o dan yr eitem fusnes ei hun, byddai'n arfer dda i'r cofnodion gadarnhau:

- y gwnaed datganiad o ddiddordeb a chan bwy,
- p'un a oedd y diddordeb yn un personol neu'n un a oedd yn rhagfarnu,
- manylion y diddordeb personol / rhagfarnus, ac
- os oedd yn un rhagfarnus, bod yr aelod yn gadael yr ystafell gyfarfod.

d. → Ystyriwch y diddordebau sydd wedi eu "cofrestru" gan y cynghorwyr (gwiriwch y gofrestr a'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar y ffurflenni datgan diddordeb) ac wedyn ystyriwch ambell eitem ar agenda gwahanol gyfarfodydd – a ddylai cynghorydd fod yn datgan diddordeb mewn mater penodol?

→Mae'n arfer dda i gofnodion cyfarfodydd gynnwys cyfeirnod (o fewn y datganiad o ddiddordeb sy'n cael ei nodi) i'r dyddiad pan gafodd y diddordeb (sy'n cael ei ddatgan ar lafar) ei gofrestru yn y gofrestr o ddiddordebau, er hwylustod i'r cyhoedd.

(e) → A oes unrhyw enghreifftiau lle mae cynghorwyr wedi datgan diddordebau mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf ond wedi anghofio cwblhau'r ffurflen datganiad o ddiddordeb mewn cyfarfodydd?

→ A oes unrhyw enghreifftiau lle mae cynghorwyr wedi cwblhau ffurflen fatgan fiddordeb ar gyfer cadarnhau diddordeb gafodd ei ddatgan ar lafar mewn cyfarfod ond bod y datganiad ar lafar ddim wedi cael ei grybwyll yng nghofnodion y cyfarfod o'r cyngor?

**Arall:**

Mae sawl cyngor tref/cymuned lle mae'r cynghorwyr yn dilyn arferiad o gadarnhau pob datganiad llafar o ddiddordebau personol neu sy'n rhagfarnu trwy gadarnhad ysgrifenedig. Yn yr amgylchiadau yma, mae'r gofrestr wedi ei ffurfio o'r holl ffurflenni datganiad, a gaiff, fel arfer, eu cadw yn nhrefn eu dyddiad.

## 2. Cod Ymddygiad

a. Ers 1 Ebrill 2016, mae'n ofynnol i bob cyngor tref a chymuned fabwysiadu cod ymddygiad yn unol â Chod Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd dan y ddeddfwriaeth honno.

→ Gwiriwch fod y cyngor tref/cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad sy'n cydymffurfio efo'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol .

b. Ar ôl ei fabwysiadu, mae'n rhaid cyhoeddi hysbyseb mewn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol, a rhaid anfon copi o'r cod at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

→ Gwiriwch fod y cyngor tref/cymuned wedi dweud wrth yr OGCC ac wedi cwrdd â’r gofynion hysbysebu o ran mabwysiadu’r cod.

c. Yn ei nodyn cyngor dyddiedig Mawrth 2017 (yn dilyn adolygiad o sampl o'r cynghorau tref a chymuned yn ystod Hydref a Gaeaf 2016/2017) gofynnodd y Pwyllgor Safonau i'r cynghorau tref a chymuned sicrhau bod y cod ymddygiad a'r Nodyn Briffio diweddaredig ar y gofynion statudol ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned ar ddatgan diddordebau personol yn cael eu dwyn at sylw eu haelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

→ Gwiriwch fod y cyngor tref/cymuned wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn trwy adolygu'r cofnodion ar gyfer y cyfarfod perthnasol.

**3. Rhestr o enwau'r holl gynghorwyr tref/cymuned ers y dyddiad perthnasol**

**4. Copi o'r ffurflen o derbyn swydd gan bob aelod cyfredol o'r cyngor tref/cymuned, a oedd yn cynnwys yr ymrwymiad statudol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad**

a. Mae angen i bob cynghorydd tref/cymuned lofnodi ffurflen derbyn swydd ac ymrwymiad statudol i gydymffurfio â'r cod ymddygiad.

→ Gwiriwch y rhestr o enwau’r cynghorwyr tref/cymuned (dogfen 3) yn erbyn y ffurflenni derbyn swydd a dderbyniwyd (dogfennau 4).

→ A yw pob aelod wedi llofnodi ymrwymiad newydd i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017?

→ A yw'r ymrwymiad wedi'i lofnodi gan y cynghorydd gerbron tyst (y ceir manylion am ei statws yn adran 83 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972)? Y clerc, fel swyddog priodol y cyngor, fel arfer yw'r tyst a ddefnyddir ac mae hyn yn cydymffurfio â’r gofynion.

**5. Cofnodion Hyfforddiant Aelodau**

a. → A yw'r cynghorwyr wedi cael hyfforddiant ar y cod ymddygiad?

b. → A yw cynghorwyr yn mynychu hyfforddiant pan gynigir ef?

**6. Gwybodaeth am Hyfforddiant y Clerc**

a. → A yw'r clerc wedi mynychu hyfforddiant?

b. → Sut talwyd am yr hyfforddiant hwn? A oedd wedi'i gynnwys yn swm y praesept, fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfathrebiad â'r cynghorau tref a chymuned ym mis Tachwedd 2017?

**7. Gwefannau**

a. Mae Canllawiau Statudol wedi cael eu cyhoeddi i helpu cynghorau tref a chymuned o ran cyflawni eu rhwymedigaeth i sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael yn electronig **(Atodiad 3).**

b. Gwiriwch:

→ A oes gan y cyngor tref/cymuned wefan?

→ Os nad oes, gofynnwch a yw’r cyngor tref/cymuned wedi ymgeisio am grant i'w wario ar sefydlu gwefan newydd?

→ A yw hysbysiadau a phapurau’n cael eu cyhoeddi'n electronig ar y wefan?

→ A yw’r gofrestr o ddiddordebau yn cael ei chyhoeddi'n electronig ar y wefan?

→ A oes yna wybodaeth gyswllt ar gyfer y cyngor tref/cymuned (ac os yw'n wahanol, y clerc) ar y wefan, gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad post a chyfeiriad e-bost?

→ A yw cyfeiriad e-bost y cyngor yn gyfeiriad e-bost generig (yn hytrach na chyfeiriad e-bost personol)?

→ A yw’r wefan yn cynnwys gwybodaeth am bob un o'i aelodau, gan gynnwys rhestr o aelodau'r cyngor, enw pob aelod, gwybodaeth am y modd y gellir cysylltu â hwy, cysylltiad â phlaid (os o gwbl) ac unrhyw swydd sydd ganddynt neu bwyllgor y maent yn aelod ohono yn y cyngor ?

→ A yw hysbysiadau cyhoeddus, gan gynnwys hysbysiadau ynghylch cyfarfodydd, yn cael eu cyhoeddi'n electronig?

→ A yw cofnodion y cyfarfodydd ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn cael eu cyhoeddi ar y wefan?

→ A yw'r cyfrifon blynyddol wedi eu harchwilio ar gyfer y cyngor tref/cymuned yn cael eu cyhoeddi ar y wefan?

→ A yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n aelodau cyfetholedig a’r rhai sy’n aelodau etholedig? Mae’r canllawiau statudol yn cynghori y dylid gwneud hyn er budd tryloywder.

## 8. Protocol Datrysiad Lleol

a. → A yw'r cyngor tref/cymuned wedi mabwysiadu protocol datrysiad lleol?

b. → Ai'r protocol a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru yw'r un a fabwysiadwyd gan y cyngor tref/cymuned?

## C. ADRODD EICH CANFYDDIADAU

1. Awgrymir eich bod yn adrodd ar eich canfyddiadau ar ffurf tabl a chanddo'r penawdau canlynol:

| ADOLYGWYR | CYNGOR TREF / CYMUNED | COFRESTR O DDIDDORDEBAU PERSONOL | MABWYSIADU'R COD YMDDYGIAD | FFURFLEN DERBYN SWYDD / YMGYMERIAD STATUDOL GAN GYNGHORWYR UNIGOL | HYFFORDDIANT AELODAU | HYFFORDDIANT Y CLERC | GWEFAN | PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |

2. Y wybodaeth a fydd yn cael ei chynnwys o dan bob pennawd fydd yr 'atebion' i'r cwestiynau hynny a ofynnwyd yn B uchod, tra'n ystyried y dogfennau y cyfeirir atynt yn A uchod.

3. Gallwch gynnwys unrhyw wybodaeth / sylwadau pellach na chawsant eu crybwyll neu eu cyfeirio atynt yn y Nodyn Ymgynghorol hwn. Paratowyd y Nodyn hwn fel canllaw yn unig ac nid yw wedi'i ddylunio i gyfyngu ar y modd y byddwch yn cynnal yr adolygiad ond wrth gwrs, rhaid cadw gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau mewn golwg.

Paratowyd gan y Swyddog Monitro
Awst 2019

CC-019456-MY/467041

CC-019456-MY/467041

**2.9 Erthygl 9 - Y Pwyllgor Safonau**

**2.9.1 Pwyllgor Safonau**

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

**2.9.2 Cyfansoddiad**

**2.9.2.1 Aelodaeth**

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

**2.9.2.2 Tymor mewn swydd**

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol yn awtomatig am gyfnod o ddau dymor o bedair blynedd.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail ddewis, pPenodir yr aelodau cyngor cymuned hyd at yr etholiad nesaf neu meant tan fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn, p'run bynnag sydd fyrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor gymuned am un tymor arall ar yr amod bod Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd hyd tymor mewn swydd Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ddim mwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn ei benodiad, p'un bynnag sydd fyrraf. Gall aelod sy'n Gynghorydd Sir gael ei ail-ethol am un tymor pellach.

**2.9.2.3 Cworwm**

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

**2.9.2.4 Pleidleisio**

Bydd gan Aelodau o'r Cyngor Sir aelodau annibynnol a'r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned**

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i gyngor cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni deletswyddau'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

**2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor**

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phedair blynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel Cadeirydd.

**2.9.3 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Côd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglyn â mabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhoddi caniatâd arbennig i Gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

**Sylwer:** Mae copi o Gyfansoddiad llawn y Pwyllgor Safonau ar gael ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon - ~~gan y Swyddog Monitro.~~

**CYLCH GORCHWYL~~CYFANSODDIAD~~ PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN ~~FEL Y CAFODD Y PWYLLGOR HWNNW EI SEFYDLU YN UNOL Â RHAN III DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000.~~**

Mae dyletswydd gyfreithiol ar Gyngor Sir Ynys Môn i sefydlu Pwyllgor Safonau i lywodraethu materion yn ymwneud ag ymddygiad aelodau etholedig a chyfetholedig yr Awdurdod ac ymddygiad y cynghorwyr cymuned sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn.

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau, fel pwyllgor o Gyngor Sir Ynys Môn, wedi'i gynnwys yn ei Gyfansoddiad ym ~~m~~Mharagraff 2.9 (Erthygl 9).

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon yn cynnwys mwy o fanylion na'r hyn sydd yn y Cyfansoddiad. Bwriedir iddi fod yn 'ddogfen waith' sydd yn ymgorffori manylion mewn perthynas â gweithrediadau'r Pwyllgor Safonau a'r dogfennau a gynhyrchwyd ganddo i gynorthwyo aelodau etholedig a chyfetholedig yr Awdurdod a Chynghorwyr Tref a Chymuned.

**Deddfwriaeth Berthnasol**

- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001
- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006
- Deddf Llywodraeth Cymru (Democratiaeth) 2013
- Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau), Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016

**1. DIFFINIADAU**

Yn y Cyfansoddiad hwn, onid yw'r cyd-destun angen ystyr gwahanol yr ystyr i'r geiriau a restrir uchod yw'r ystyron sydd gyferbyn â'r geiriau:-

'Awdurdod' - yr uned gorfforaethol sy'n wybyddus fel "Cyngor Sir Ynys Môn/The Isle of Anglesey County Council".

'Côd Ymddygiad' - côd ymddygiad y bydd yr Awdurdod yn ei fabwysiadu dan Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

'Achwynydd' - unigolyn sy'n cyflwyno cwyn yn erbyn Cynghorydd gan gynnwys Cynghorwyr eraill, aelodau o'r Pwyllgor Safonau, Swyddog yn gweithio i'r Awdurdod neu aelod o'r Cyhoedd.

'Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor' - aelod o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned yn ardal yr Awdurdod [a benodwyd yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd)].~~, ac yn aelodau nad ydynt~~ Nid yw'r aelodau hynny'n~~yn~~ cael eu cyfrif fel 'Aelodau Annibynnol' ~~-~~[cyfeirir atynt yn dorfol fel "Aelodau Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor"].

'Cyngor' – y corff sy'n cynnwys holl aelodau'r Awdurdod.

Formatted: Welsh

Formatted: Left

Formatted: Underline

Formatted: Left, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

Formatted: Left, Indent: Left: 0.63 cm, Hanging: 0.37 cm, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0.63 cm + Indent at: 1.27 cm

Formatted: Font: Not Bold, Welsh

Formatted: Welsh

'Cynghorydd' - aelod etholedig o'r Awdurdod gan gynnwys yr neu aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod hynny (fel y'i a ddiffinnir dan Adran 49(7) Deddf Llywodraeth Leol 2000 [cyfeirir atynt yn dorfol fel "Cynghorwyr"].

'Aelod Annibynnol' - Aelod o'r Pwyllgor Safonau sydd yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau statudol a gynhwysir yn nad yw'n aelod etholedig, yn swyddog, nac yn gymar i aelod nac i swyddog o'r Awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall, neu gyngor cymuned fel y diffinnir hynny yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd) [cyfeirir atynt yn dorfol fel "Aelodau Annibynnol"].

'Aelod' - aelod o'r Pwyllgor Safonau [cyfeirir atynt yn dorfol fel "Aelodau"].

'Swyddog Monitro' - y swyddog a benodwyd gan y Cyngor i ddibenion Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Yn ogystal, bydd y term hwn yn cynnwys unrhyw Ddirprwy Swyddog Monitro a benodir gan y Cyngor.

'Pwyllgor Safonau' - pwyllgor safonau Cyngor Sir Ynys Môn i ddibenion Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## 2. CYLCH GORCHWYL

### Yn Gyffredinol

2.1 Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr.

2.2 Cynorthwyo Cynghorwyr i lynu wrth Gôd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.3 Gweithredu ar y swyddogaethau uchod yng nghyswllt Ccynghorau Ccymuned ac aelodau o'r Ccynghorau Ccymuned yn ardal yr Awdurdod.

### Yn Benodol

2.4 Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu neu ar ddiwygio'r Côd Ymddygiad.

2.5 Monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.6 Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.7 Ystyried adroddiadau neu argymhellionо dribiwnlys neu dribiwnlys achos interim a/neu unrhyw adroddiad a a gyflwynir gan y Swyddog Monitro neuar unrhyw fater y bydd y swyddog hwnnw'n derbyn cyfeiriad cyfeirio ato - un ai yn gyffredinol neu yn sgil unrhyw ymholiadau a wnaed dan bwerau'r Swyddog Monitro neu oherwydd dyletswyddau penodol dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu yn sgil unrhyw adroddiad y bydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus CymruCymru. yn ei anfon ato / ati.

2.8 Dilyn y "Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau", y manylir arni yn **Atodiad 1** y Cylch Gorchwyl Cyfansoddiad hwn.

2.9 Rhoddi caniatâd arbennig dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoddi Caniatâd Arbennig) Cymru 2001 a'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Caniatadau Arbennig ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016 i Gynghorwyr, aelodau cyfetholedig y Cyngor a'r eglwys a chynrychiolwyr yr eglwys a rhiant lywodraethwyr fel bod aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor fel eu bod yn medru cymryd rhan mewn unrhyw fusnes sydd gan y Cyngor a'r unigolyn, ac y ba fyddai fel arall, yn cael ei wahardd rhag gwneud hynny dan Gôd Ymddygiad y Cyngor.

2.10 Ystyried, (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro) unrhyw faterion arall sydd yn briodol ac yn angenrheidiol i gynnal y safonau ymddygiad uchaf ymhlith Cynghorwyr.

2.11 Derbyn adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar lwfansau ac ar dreuliau a dalwyd i unigolion sydd wedi e cynorthwyo'r Swyddog Monitro gyda'i ymholiadau.

2.12 Gweithredu ar y swyddogaethau uchod yng nghyswllt cynghorau cymuned ac aelodau o'r cynghorau cymuned yn ardal yr Awdurdod.

2.13 Cydymffurfio gyda'r Protocol Datrysiad Lleol, y ceir manylion amdano yn **Atodiad 2** y Cyfansoddiad hwn.

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

## 3. MAINT, CYFANSODDIAD, PENODI AELODAU ANNIBYNNOL, CYFNOD MEWN SWYDD, AILBENODI AELOD, CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD, PLEIDLEISIO, CWORWM, CYFARFODYDD, CANIATÁU I'R CYHOEDD FYNYCHU, A CHOFNODION.,

3.1 Mae'r materion uchod (a restrir yn y pennawd) yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfwriaeth ond maent yn ddarostyngedig i benderfyniadau lleol y mae'r Awdurdod wedi cytuno arnynt fel a ganlyn:Penderfynir ar y materion uchod yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 (copïau ynghlwm yn **Atodiadau 3, 4 a 5** yn y drefn honno) ond gyda'r newidiadau a ganlyn y cytunodd yr Awdurdod arnynt:

Rheoliad 3 Maint -Aelodaeth y Pwyllgor Safonau
Aelodau Annibynnol (5 aelod)
Aelodau o Gynghorau Cymuned (2 aelod)
Cynghorwyr Sir (2 aelod)

Rheoliad 15 Panel Penodi Aelod Annibynnol
Person Lleyg (1)
Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor (1)

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Cynghorwyr (3)
Bydd y Panel yn gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd

Rheoliad 18A Tymor Aelodau Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor yn eu Swydd yn ei Swydd – Hyd at yr etholiad cyffredinol nesaf yr Awdurdod neu'n nes bydd yr unigolyn gynt os ydynt yn peidio â bod yn Ggynghorydd Ccymuned., pa un bynnag yw'r byrraf.
Gellir ailbenodi Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor am un tymor olynol pellach ar yr amod bod y gofynion deddfwriaethol ynghylch ymgynghori wedi cael eu dilyn.

Rheoliad 20 Tymor Aelodau Annibynnol yn eui Swydd—
Dau gyfnod olynol o 4 blynedd neu nes bydd yr unigolion yn peidio â bod yn "aelod annibynnol" (yn unol â'r gofynion deddfwriaethol).

Rheoliad 21A Tymor Aelodau Cyngor Cymuned Sir o'r Pwyllgor yn eu Swydd-
Dau gyfnod olynolDim mwy na phedair blynedd neu hyd nes y cynhelir etholiad cyffredinol nesaf yr Awdurdod, pa un bynnag yw'r byrraf.
Gellir ailbenodi Aelod Cyngor Sir o'r Pwyllgor am un tymor olynol pellach.

(Sylwer: Ni chaiff yr Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor ond gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau statudol (gwrandawiadau / ceisiadau am ganiatâd arbennig) yng nghysywllt Cynghorwyr SirAelodau Cynghorau Cymuned.)

Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau (Panel a sefydlir i benodi Aelod(au) Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau)
Aelod Lleyg (1 aelod)
Cynghorydd Cymuned (1 aelod)
Cynghorwyr Sir (3 aelod)

Tymor aelodau'r Panel yn eu swydd yw 4 blynedd neu nes y bydd yr aelodau hynny'n peidio â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn "aelod lleyg o'r panel" / aelod o'r cyngor cymuned a leolir yn ardal yr Awdurdod / Cynghorydd Sir o'r Awdurdod, beth bynnag bo'r achos, pa un bynnag a ddigwydd gyntaf.

3.2 Amlder Cyfarfodydd

3.2.1 Cynhelir dau gyfarfod arferol o'r Pwyllgor Safonau bob blwyddyn.

3.2.2 Caiff cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Safonau eu cynnal yn ychwanegol at y cyfarfodydd yn 3.2.1 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw ymrwymiadau statudol gan gynnwys cwynion ac/neu ganiatâd arbennig.

Bydd cyfarfodydd gwaith o'r Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal hefyd i ddelio gyda busnes anstatudol, pryd a phan fydd angen.

Formatted: Indent: Left: 0 cm, Hanging: 2.57 cm
Formatted: Indent: First line: 0 cm
Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm
Formatted: Indent: Left: 1 cm, First line: 0 cm

Gwrandawiadau Caniatâd Arbennig

Bydd panel o 3 aelod o'r Pwyllgor Safonau, yn cynnwys y Cadeirydd (neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb ef/hi), yn ystyried cais am ganiatâd arbennig.

Pan fydd y cais yn cael ei wneud gan aelod o gyngor cymuned bydd y panel yn cynnwys un Aelod Cyngor Cymuned a dau Aelod Annibynnol.

Pan fydd y cais yn cael ei wneud gan Gynghorydd, bydd y panel yn cynnwys dau Aelod Annibynnol ac un Aelod Cyngor Sir o'r Pwyllgor Safonau; neu
dri Aelod Annibynnol,
fel y penderfynir gan y Swyddog Monitro o dan yr amgylchiadau.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir ystyried cais am ganiatâd arbennig ar sail y ffurflen gais yn unig heb i'r ymgeisydd orfod bod yn bresennol yn y gwrandawiad.

Formatted: Indent: Left: 0 cm, First line: 0 cm

Formatted: Indent: Left: 1 cm, First line: 0 cm

Formatted: Indent: Left: 1 cm, First line: 0 cm

Formatted: Indent: Left: 1 cm, First line: 0 cm

Formatted: Underline

Formatted: Indent: Left: -1.57 cm

## 4. TREFNIADAU

4.1 Y Pwyllgor Safonau ei hun fydd yn penderfynu ar ei drefniadau, gan ystyried yn llawn yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol a phryd bynnag y bydd hynny'n bosib, bydd y trefniadau'n cydymffurfio gyda'r Egwyddorion Ymddygiad, y Côd Ymddygiad a Chyfansoddiad yr Awdurdod.

4.2 Ni all achwynydd na Chynghorydd y cyflwynir cwyn yn ei gylch ganfasio unrhyw Gynghorydd arall ar unrhyw gyfrif. Os ydyw Cynghorydd yn cael ei ganfasio, bydd raid iddo ddweud wrth y Swyddog Monitro ar unwaith.

4.3 Os ydyw Cynghorydd neu unigolyn arall sy'n gysylltiedig â Chynghorydd yn cyflwyno cwyn, yna ni fydd y Cynghorydd penodol hwnnw yn medru cymryd rhan yn y trafodaethau ynglŷn â'r gŵyn.

4.4 Yn unol â Rheoliad 14 Rheoliadau Ymchwilio Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, gall person sydd yn gwneud sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Safonau gael ei gynrychioli a gall hynny gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad ganO leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, bydd y Pwyllgor Safonau o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

## 6. LWFANSAU A THREULIAU

Bydd y lwfansau hynny a delir i Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cynghorau Cymuned y Pwyllgor yn cael eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod. Mae gwybodaeth am lwfansau wedi'i chynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

## ~~7. GOFYNION CYFANSODDIADAU YCHWANEGOL~~

~~7.1 Caiff manylion pellach ynghylch Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau eu cynnwys ym Mharagraff 2.9 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi ei amgáu fel **Atodiad 6** i'r Cyfansoddiad hwn.~~

## 7. DOGFENNAU SY'N BERTHNASOL I / A DDATBLYGWYD GAN AC Y CYHOEDDWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

| Enw'r Ddogfen: | I'w defnyddio gan: | Linc i'r ddogfen: |
|---|---|---|
| Côd Ymddygiad Aelodau CSYM | Cynghorwyr | |
| Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion | Cynghorwyr | |
| Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu – Nodyn Briffio i Aelodau | Cynghorwyr | http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau |
| Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu | Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned | |
| Anrhegion a Lletygarwch – Nodyn Briffio i Aelodau | Cynghorwyr | http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau |
| Ystyriaethau'n ymwneud â Diddordebau Personol a Diddordebau sy'n Rhagfarnu yn achos Aelodau sydd hefyd yn Llywodraethwyr Ysgol | Cynghorwyr | http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau |
| Nodyn Briffio i Aelodau – Gweithredu Hawliau fel Unigolion mewn perthynas â Gwasanaethau'r Cyngor | Cynghorwyr | http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau |
| Nodyn Briffio ar Geisiadau am Ganiatâd Arbennig | Cynghorwyr | http://monitor.ynysmon.gov.uk/adnodd-corfforaethol/trefn-lywodraethol-corfforaethol/nodiadau-briffio-i-aelodau |
| Nodyn Briffio ar Geisiadau am Ganiatâd Arbennig – Cynghorwyr Tref a Chymuned | Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned | |

| | | |
|---|---|---|
| Protocol Datrys yn Lleol | Cynghorwyr | |
| Nodyn ar Fethodoleg – Adolygiad o Gofrestri Ddiddordebau Aelodau | Cynghorwyr | |
| Nodyn ar Fethodoleg – Adolygiad o Gofrestri Ddiddordebau yn y Cynghorau Tref a Chymuned | Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned | |

Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: 10 pt
Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: 10 pt
Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: 10 pt, Welsh
Formatted: Font: (Default) Arial, 11 pt, Bold, Welsh

Atodiad 1

Cyngor Sir Ynys Môn

Pwyllgor Safonau

Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol

**************

## 1 Rhagarweiniad

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut y bydd y Cyngor Sir yn penderfynu cwynion am gamymddygiad aelodau.

## 2 Dehongliad

(a) Mae "Aelod" yn golygu'r aelod o'r awdurdod sy'n destun yr honiad sy'n cael sylw gan y Pwyllgor Safonau, ac eithrio lle dywedir yn wahanol. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig yr Aelod.

(b) Mae "Swyddog Ymchwilio" yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon), ac mae'n cynnwys ei gynrychiolydd/chynrychiolydd enwebedig. Yn achos materion a gyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad lleol, mae cyfeiriadau at y Swyddog Ymchwilio yn golygu'r sawl a benodwyd gan y Swyddog Monitro i gynnal yr ymchwiliad.

(c) "Y Mater" yw pwnc adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

(ch) Mae "Y Pwyllgor Safonau" yn cyfeirio at y Pwyllgor Safonau neu at unrhyw is-bwyllgor safonau y mae wedi dirprwyo'r gwrandawiad iddo.

(d) Mae "Swyddog Cymorth Pwyllgor" yn golygu Swyddog o'r Awdurdod sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau ac am gofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.

(dd) Mae "Ymgynghorydd Cyfreithiol" yn golygu'r swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau. Gall y swyddog hwnnw fod yn Swyddog Monitro, swyddog arall yn yr awdurdod â chymwysterau cyfreithiol, neu rywun a benodwyd i'r pwrpas o'r tu allan i'r awdurdod.

(e) Mae "Cadeirydd" yn cyfeirio at y person sy'n llywyddu yn y gwrandawiad.

(f) Mae "Achwynydd" yn golygu'r person neu'r personau a wnaeth yr honiad gwreiddiol yr ymchwiliwyd iddo.

**3 Diwygio'r Weithdrefn**

Gall y Cadeirydd gytuno i amrywio'r weithdrefn hon mewn unrhyw achos penodol os yw ef/hi o'r farn bod angen gwneud hynny er budd tegwch.

**4 Cynrychiolaeth**

Gall cyfreithiwr, cwnsler neu - gyda chaniatâd y Pwyllgor Safonau - berson arall gynrychioli'r Aelod ar unrhyw adeg yn y weithdrefn hon neu ddod i'r gwrandawiad gyda'r aelod. Noder mai'r aelod sy'n gyfrifol am gwrdd â chostau cynrychiolaeth o'r fath, ac eithrio lle mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno'n benodol i gwrdd â'r cyfan o'r gost honno neu ran ohoni.

**5 Penderfyniad i gynnal gwrandawiad lleol**

(a) Ar ôl derbyn adroddiad yr Ombwdsmon, neu adroddiad Swyddog Ymchwilio, bydd y Swyddog Monitro yn cyfeirio'r adroddiad hwnnw i'r Pwyllgor Safonau a fydd yn penderfynu un ai –

(i) Bod tystiolaeth efallai bod methiant gan yr Aelod i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, neu

(ii) Y dylai'r mater fod yn destun gwrandawiad lleol.

(b) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Aelod a'r Achwynydd am hynny.

(c) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu cynnal gwrandawiad lleol ar gyfer y mater, bydd y Swyddog Monitro yn cynnal y broses cyn-gwrandawiad fel y mae wedi ei hamlinellu isod.

**6 Y Weithdrefn Cyn-Gwrandawiad**

Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad lleol ar gyfer mater penodol, bydd y Swyddog Monitro yn:

(a) Trefnu dyddiad ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Safonau fel y penderfynwyd arno gan y Cadeirydd;

(b) Anfon copi o'r adroddiad i'r Aelod a rhoi gwybod iddo am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(c) Anfon copi o'r adroddiad i'r Achwynydd a rhoi gwybod iddo am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(ch) Rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned am y mater ynghyd â dyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad (os yw'r mater yn ymwneud ag ymddygiad Cynghorydd Cymuned);

(d) Rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(dd) Gofyn i'r Swyddog gwblhau a dychwelyd y ffurflenni cyn-gwrandawiad sydd wedi eu hatodi wrth y Weithdrefn hon cyn pen 14 diwrnod o'u derbyn;

(e) Yn wyneb unrhyw ffurflenni cyn-gwrandawiad a ddychwelwyd gan yr Aelod, bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu a fydd y Pwyllgor Safonau angen i'r Swyddog Ymchwilio ac unrhyw dystion[1] ychwanegol fod yn bresennol yn y gwrandawiad, gan gynnwys yr Achwynydd, fel bod modd i'r gwrandawiad ddod i gasgliad sydd wedi cael ystyriaeth briodol yn y gwrandawiad, a threfnu iddynt fynychu.

(f) Gofyn i'r Cadeirydd wneud y fath gyfarwyddiadau ynghylch cynnal y gwrandawiad ac y bydd eu hangen ar gyfer cynnal y gwrandawiad yn effeithiol, gyda'r fath gyfarwyddiadau yn rhoi sylw i faterion fel –

- (i) Yr amser y bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i gynnal y gwrandawiad;
- (ii) Unrhyw faterion sy'n cael eu derbyn fel y maent ac nad oes angen tystiolaeth ar eu cyfer;
- (iii) Y tystion a glywir a'r adegau pryd ddylent fod yn bresennol; a
- (iv) Presenoldeb tystion pan nad ydynt yn rhoi tystiolaeth.

(ff) Paratoi Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad yn amlinellu cwrs yr honiad, yr ymchwiliad a'r broses cyn-gwrandawiad ac yn dwyn sylw at y materion y bydd angen i'r Pwyllgor Safonau roi sylw iddynt, a

(g) Trefnu gyda'r Swyddog Cymorth Pwyllgor bod y rhaglen ar gyfer y gwrandawiad, ynghyd ag Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad y Swyddog Monitro, adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn cael eu hanfon at:
- (i) Pob aelod o'r Pwyllgor Safonau fydd yn cynnal y gwrandawiad;
- (ii) Yr Aelod.
- (iii) Y sawl a wnaeth yr honiad, a
- (iv) Y Swyddog Ymchwilio

## 7 Cyngor Cyfreithiol

Gall y Pwyllgor Safonau gymryd cyngor cyfreithiol gan ei ymgynghorydd cyfreithiol ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad neu tra bydd yn ystyried y canlyniad. Dylid rhannu sylwedd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor Safonau gyda'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydynt yn bresennol.

[1] Os yw'r Aelod yn herio unrhyw ganfyddiad ffaith yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, bydd angen i'r Pwyllgor Safonau glywed tystiolaeth gan dyst uniongyrchol, lle bynnag y mae hynny'n bosib.

## 8 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod

Ar gychwyn y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob un o aelodau'r Pwyllgor Safonau, yr aelod (os yw'n bresennol), y Swyddog Ymchwilio (os yw'n bresennol) ac unrhyw swyddogion eraill sydd yn bresennol, ac yna bydd yn esbonio'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth gynnal y gwrandawiad.

## 9 Materion trefniadol rhagarweiniol

Yna bydd y Pwyllgor Safonau yn delio gyda'r materion trefniadol rhagarweiniol isod yn y drefn ganlynol:

(a) Ymddiheuriadau am absenoldeb

(b) Datganiadau o ddiddordeb

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor Safonau ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol neu ddiddordebau sydd yn rhagfarnu a fo ganddynt yn y mater, ac yn gofyn iddynt dynnu'n ôl o ystyried y mater os oes angen.

(c) Cworwm

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod gan y Pwyllgor Safonau gworwm[2]

(ch) Trefn y gwrandawiad

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod pawb sy'n bresennol yn ymwybodol o'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth benderfynu'r mater.

(d) Bwrw ymlaen yn absenoldeb yr aelod

Onid yw'r Aelod yn bresennol ar gychwyn y gwrandawiad;

(i) bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Monitro a yw'r Aelod wedi dweud nad yw'n bwriadu dod i'r gwrandawiad;

(ii) bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ystyried unrhyw resymau a roddwyd gan yr Aelod am beidio â dod i'r gwrandawiad a bydd yn penderfynu a yw'n fodlon bod digon o reswm am y fath fethiant i fynychu.

---

[2] Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai bod o leiaf 3 aelod o'r Pwyllgor Safonau yn bresennol ar gyfer y cyfarfod i gyd. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod Annibynnol, a rhaid i o leiaf hanner aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol fod yn aelodau Annibynnol. Pan fo'r Pwyllgor yn ystyried mater sy'n ymwneud ag ymddygiad aelod o Gyngor Cymuned, rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor fod yn gynrychiolydd Cyngor Cymuned, ond oni fydd cynrychiolydd Cyngor Cymuned yn bresennol nid yw hynny'n golygu nad oes cworwm ar y Pwyllgor.

(iii) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, bydd yn gohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.

(iv) Onid yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, neu onid yw'r aelod wedi rhoi unrhyw fath rhesymau, bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid ystyried y mater a gwneud penderfyniad yn absenoldeb yr Aelod ynteu ohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.

(dd) Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd

Gall y Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'i drafodaethau ar y mater dan sylw neu o'r trafodaethau cyfan, os yw'n ymddangos yn debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei datgelu yng nghwrs y trafodaethau.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau a ydynt yn dymuno gofyn i'r Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'r gwrandawiad neu o'r cyfan ohono. Os bydd unrhyw aelod yn gwneud cais o'r fath, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt roi eu rhesymau dros wneud hynny ac yn gofyn am ymatebion gan y lleill, ac yna bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'r gwrandawiad neu'r cyfan ohono.

Mewn achosion lle nad yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu cau allan y wasg a'r cyhoedd, bydd y rhaglen ac unrhyw ddogfennau sydd ddim wedi cael eu rhyddhau i'r wasg a'r cyhoedd cyn y cyfarfod yn cael eu rhyddhau wedyn iddynt.

## 10 <u>Methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad?</u>

Yna, bydd y Pwyllgor Safonau yn rhoddi sylw i'r mater ynghylch a yw'r Aelod wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio. [3]

(a) Crynodeb o'r Broses Cyn y Gwrandawiad

[3] Noder bod y ystyriaeth y Pwyllgor Safonau wedi gyfyngu i'r mater, o ran y set o ffeithiau, fel a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Mae'n bosibl y gall y Pwyllgor Safonau ganfod bod y ffeithiau hyn yn datgelu y torwyd rhan o'r Côd Ymddygiad ac eithrio'r achos a ganfuwyd gan y Swyddog Ymchwilio (er enghraifft, bod y ffeithiau yn gyfystyr â bwlio yn hytrach na dim ond methiant i drin person gyda pharch). Fodd bynnag, os bydd y Pwyllgor Safonau, yn ystod eu trafodaethau, o'r farn bod y dystiolaeth gerbron yn datgelu achos hollol wahanol o fethiant i gydymffufio gyda'r Côd Ymddygiad (er enghraifft lle mae'r gwyn yn un o fethiant i drin Swyddog A gyda pharch ond bod y dystiolaeth hefyd yn dangos methiant i drin Swyddog B gyda pharch), ni fydd methiant ychwanegol neu fethiant arall yn ran o faes gwaith y Pwyllgor Safonau. Ar yr adeg honno, ni fydd yr Aelod wedi cael rhybudd o'r ffaith bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried methiant ychwanegol neu fethiant arall ac o'r herwydd, byddai'n annheg symud ymlaen i ystyried yr ail fater yn y gwrandawiad i'r methiant honedig cyntaf. Lle mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod methiant ychwanegol neu fethiant arall o bosibl, methiant gan aelod gwahanol neu fethiant o ran Gôd Ymddygiad awdurdod arall, yna dylent gyfeirio'r ail fater i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus cymru fel honiad newydd.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol neu'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau gyflwyno'r Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad y Swyddog Monitro, gan ddwyn sylw at unrhyw bwyntiau o wahaniaeth y mae'r Aelod wedi datgan ei fod ef/hi yn anghytuno gydag unrhyw ganfyddiad o ffaith yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio. Yna, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod gadarnhau bod hwn yn grynodeb cywir o'r materion, i gadarnhau ei fod ef/hi yn parhau i fod o'r un farn ag yr oedd yn y crynodeb cyn y gwrandawiad a gofyn i'r Aelod nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol y mae ef/hi yn anghytuno gyda nhw o ran unrhyw ganfyddiad o ffaith yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio.

(i) Os yw'r Aelod yn cyfaddef ei fod ef/hi wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, yna gall y Pwyllgor Safonau gymryd adroddiad y Swyddog Ymchwilio fel y mae a phenderfynu bod yr Aelod wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio a symud ymlaen ar unwaith i ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â chamymddygiad yr Aelod.

(ii) Os yw'r Aelod yn nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol o wahaniaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod egluro pam nad oedd ef/hi wedi nodi'r pwyntiau hyn fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad. Bydd ef/hi wedyn yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio (os ydyw'n bresennol) a yw ef/hi mewn sefyllfa i ddelio gyda'r pwyntiau ychwanegol hynny o wahaniaeth yn uniongyrchol neu drwy unrhyw dystion sy'n bresennol neu y gellir trefnu yn gyfleus iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Mewn achosion lle nad yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda rhesymau'r Aelod am fethu nodi pob pwynt ychwanegol o wahaniaeth fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad, gall benderfynu parhau gyda'r gwrandawiad ond heb ganiatáu i'r Aelod herio cywirdeb y canfyddiadau ffeithiol hynny a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio ond na wnaeth Aelod nodi pwynt o wahaniaeth yn eu cylch fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad neu gall benderfynu gohirio'r gwrandawiad i ganiatáu i'r Swyddog Ymchwilio ac/neu unrhyw dystion ychwanegol fynychu'r gwrandawiad.

(b) Cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio

(i) Os yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio gyflwyno ei adroddiad/ei hadroddiad gyda sylw arbennig i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth a nodwyd gan yr Aelod a pham fod ef/hi, ar sail ei g(ch)anfyddiadau ffeithiol ef/hi, o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad. Gall y Swyddog Ymchwilio alw tystion fel sy'n angenrheidiol i drafod unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(ii) Onid yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, ni fydd y Pwyllgor Safonau ond yn cynnal gwrandawiad os ydyw'n fodlon nad oes

unrhyw bwyntiau sylweddol o wahaniaeth neu fod modd datrys yn foddhaol unrhyw bwyntiau o wahaniaeth yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio. Yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio, gall y Pwyllgor Safonau benderfynu, ar gais y Swyddog Monitro, pa dystion, os o gwbl i'w galw. Mewn achos lle caiff tystion o'r fath eu galw, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw'r tystion at unrhyw ran berthnasol o adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn i'r tyst gadarnhau neu gywiro'r adroddiad a darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol.

(iii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac/neu wedi derbyn tystiolaeth pob tyst, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau mofyn sylwadau gan y Swyddog Ymchwilio neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu'r tyst.

(c) Ymateb yr Aelod

(i) Bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd yr Aelod i ymateb i adroddiad y Swyddog Ymchwilio a galw unrhyw dystion fel sy'n angenrheidiol i roi sylw i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(A) Gall yr Aelod drefnu i'w gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad ar ei ran/ei rhan ac/neu i gyflwyno'r Aelod ac unrhyw dystion ar ei ran/ei rhan.

(B) Nid oes rhaid i'r Aelod roi tystiolaeth neu ateb unrhyw gwestiynau ond gall y Pwyllgor Safonau yn rhesymol ddod i gasgliadau o unrhyw fethiant ar ei ran/rhan i roi tystiolaeth neu i ateb unrhyw gwestiwn.

(ii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi i'r Aelod roi ei dystiolaeth/tystiolaeth ac wedi i bob tyst roddi eu tystiolaeth nhw, gall y Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Ymchwilio a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau ofyn am sylwadau'r Aelod neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Aelod neu'r tyst.

(ch) Tystion

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i wrthod clywed tystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu dyst oni bai ei fod yn fodlon bod y tyst yn debygol o roi tystiolaeth y mae angen ei chlywed er mwyn gallu penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.

(d) Tystiolaeth Ychwanegol

(i) Wedi gorffen clywed y dystiolaeth, bydd y Cadeirydd yn siecio gydag Aelodau'r Pwyllgor Safonau a ydynt yn fodlon bod

ganddynt ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad ystyriol ar y mater.

(ii) Os bydd y Pwyllgor Safonau, ar unrhyw adeg, cyn penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, o'r farn bod arno angen ychwaneg o dystiolaeth ar unrhyw bwynt er mwyn ei alluogi i ddod i gasgliad ystyriol ar y mater, gall y Pwyllgor Safonau (ond dim rhagor nag unwaith) ohirio'r gwrandawiad a gwneud cais i'r Swyddog Ymchwilio chwilio am a darparu'r fath dystiolaeth ychwanegol a gwneud gwaith ymchwil pellach ar unrhyw bwynt a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau.

(dd) Bydd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwiliad yn cael cyfle i wneud sylwadau i gloi.

(e) Penderfynu a oedd methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.

(i) Oni bai bod y penderfyniad yn cadarnhau yn syml gyfaddefiad yr Aelod o fethiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (fel y caiff ei nodi ym maragraff 10(a)(i) uchod), bydd y Pwyllgor Safonau yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried

1. Ydi ffeithiau'r cyhuddiadau'n debygol o fod wedi eu profi o gydbwyso'r dystiolaeth?

   Os ydi'r cam yma wedi ei ateb yn gadarnhaol, yna trafodir yn breifat

2. A fethodd yr Aelod â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad?.

(ii) Bydd y Pwyllgor Safonau yn gwneud ei benderfyniad wedi pwyso a mesur y tebygolrwydd yn y dystiolaeth a gafodd yn y gwrandawiad.

(iii) Swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw gwneud penderfyniad ar y mater. Gall, ar unrhyw adeg, ddychwelyd i'r brif ystafell lle mae'r gwrandawiad er mwyn mofyn tystiolaeth ychwanegol gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu'r tyst. Os oes angen ychwaneg o wybodaeth arno, gall ohirio a rhoi cyfarwyddyd i Swyddog neu ofyn i'r Aelod ddangos tystiolaeth bellach o'r fath i'r Pwyllgor Safonau.

(iv) Os oes angen Cyngor Cyfreithiol ar y Pwyllgor Safonau ar unrhyw bwynt, gall naill ai –

(A) Ofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol ymuno gyda'r Pwyllgor a darparu'r fath wybodaeth. Yn yr achos hwn, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn ailadrodd cyngor o'r fath yn agored pan fydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd a gall cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod ymateb i gyngor o'r fath; neu

(B) Dychwelyd i'r fforwm agored a gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol roi cyngor gan wahodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod i ymateb i unrhyw gyngor o'r fath.

(v) Wedi i'r Pwyllgor Safonau orffen ystyried y mater, gall y Pwyllgor Safonau ystyried a yw'n teimlo fel gwneud unrhyw argymhellion i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad ymysg aelodau.

(vi) Yna, bydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd i brif ystafell y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn datgan prif ganfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor Safonau ynghyd â'i benderfyniad ynghylch a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad fel y nodir hynny yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

## 11 <u>Os nad yw'r Aelod wedi methu dilyn y Côd Ymddygiad</u>

Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu na fethodd yr Aelod â dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(a) Dylai'r Cadeirydd grynhoi canlyniadau'r Pwyllgor Safonau;

(b) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn dod i'r casgliad, o'r dystiolaeth a gafodd yn ystod y gwrandawiad, bod Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (ar wahân i'r mater y mae'r Pwyllgor Safonau newydd wneud penderfyniad arno), bydd y Pwyllgor yn amlinellu pryderon y Pwyllgor Safonau ac yn dweud bod y Pwyllgor Safonau wedi cyfeirio'r methiant ychwanegol neu fethiant arall hwn i'r Swyddog Monitro gyda golwg ar gyflwyno haeriad pellach i Swyddfa'r Ombwdsmon Cyhoeddus yng Nghymru.

(c) Yna dylai'r Cadeirydd nodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Safonau yn bwriadu eu gwneud i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau a mofyn sylwadau'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol cyn i'r Pwyllgor Safonau rhoddi trefn derfynol ar unrhyw argymhellion.

(ch) I gloi, dylai'r Cadeirydd ofyn i'r Aelod a ydyw ef/hi yn dymuno i'r Awdurdod beidio â chyhoeddi datganiad o'i ganfyddiad mewn papur newydd lleol.

## 12 <u>Camau gweithredu yn dilyn methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad</u>

Os yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(a) Bydd y Cadeirydd yn crynhoi canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau;

(b) Fe all y Cadeirydd wedyn nodi'r math o gosb y mae'n ei ystyried all fod yn briodol gan ofyn i'r Aelod neu ei gynrychiolydd cyfreithiol wneud

sylwadau ar y gosb.[4]

(c) Fe all y Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Ymchwilio wneud sylwadau ynglŷn â chosb.

(ch) Bydd y Cadeirydd wedyn yn sicrhau bod pob Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn fodlon bod ganddo ef/hi ddigon o wybodaeth i'w alluogi ef/hi i wneud penderfyniad ystyrlon ynghylch a ddylid pennu cosb ac (os yn briodol) beth fydd ffurf y gosb.

(d) Fe all unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu i'r aelod fel bo'r angen i'w alluogi ef/hi i wneud penderfyniad ystyrlon.

(dd) Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried yn breifat a ddylid pennu cosb (lle bwriedir pennu cosb) a pha gosb i'w rhoi a pha bryd y dylai'r gosb honno ddod i rym, ac unrhyw sylwadau y bydd y Pwyllgor Safonau'n eu rhoi i'r awdurdod.

(e) Ar ddiwedd ei ystyriaethau, bydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd i brif ystafell y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn datgan penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau gan ddweud a ddylid pennu cosb a (lle bwriedir cosb) beth yw natur y gosb, a pha bryd y dylai ddod i rym, ynghyd â'r prif resymau dros wneud y penderfyniadau hynny, ac unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor Safonau am eu gwneud i'r awdurdod.

## 13 Cau'r gwrandawiad

(a) Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ddiwrnod y gwrandawiad ac yn rhoi i Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor ddatganiad ysgrifenedig byr o'u penderfyniad, a bydd y Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor yn ei anfon i'r Aelod mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl cau'r gwrandawiad;

---

[4] Gall y Pwyllgor Safonau benderfynu ar unrhyw un o'r isod o ran y cosbau y gall fynnu arnynt :

"(i) dim angen gweithredu o gwbl

(ii) ceryddu'r Aelod;

(iii) atal yr Aelod yn rhannol am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis neu weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd, pa bynnag sydd fyrraf;

(iv) gwahardd yr Aelod am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis neu weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd, pa bynnag sydd fyrraf..

Nid yw Atal neu atal yn rhannol ond yn berthnasol i'r Aelod yn ei gapasiti fel aelod o'r awdurdod yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o.

Bydd unrhyw gosb a roddwyd yn cychwyn ar ôl 21 diwrnod i'r Pwyllgor Safonau hysbysu'r Aelod o'u penderfyniad yn ysgrifenedig oni bai fod y Pwyllgor Safonau yn rhoi cyfarwyddyd (yn achos unrhyw gosb ac eithrio cerydd) y bydd yn cychwyn ar ddyddiad penodol a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau o fewn chwe mis o ddyddiad y gwrandawiad.

(b) Bydd y Cadeirydd yn diolch i bawb sydd yn bresennol sydd wedi cyfrannu tuag at drefn y gwrandawiad ac yn cau'r gwrandawiad yn ffurfiol;

(c) Yn dilyn cau'r gwrandawiad, bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn cytuno ar rybudd ysgrifenedig ffurfiol o benderfyniad y Pwyllgor Safonau a bydd y Swyddog Monitro'n trefnu i'r rhybudd hwnnw gael ei ddosbarthu a'i gyhoeddi (neu grynodeb o'r rhybudd hwnnw, lle bo'r angen).

## 14. <u>Apeliadau</u>

Rhaid i Aelod ofyn am ganiatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau trwy ysgrifennu at y Llywydd. Bydd penderfyniad y Llywydd, neu dirprwy sydd wedi ei benodi i neud y penderfyniad gan y Llywydd, yn cael ei wneud heb y partïon, oni bai fod y Llywydd neu'r dirprwy o'r farn fod achos arbennig ac y dylai gwrandawiad gael ei drefnu. Dylai'r llythyr restru'r seiliau dros wneud yr apêl, a chynnwys datganiad yn dweud a yw'n fodlon ai peidio i'r apêl gael ei gwrando ar ffurf sylwadau ysgrifenedig. Rhaid i'r llythyr gael ei dderbyn gan y Llywydd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad oddi wrth y Pwyllgor Safonau. Gall y Llywydd neu ei ddirprwy ofyn am fwy o wybodaeth. Rhaid ymateb i unrhyw gais am wybodaeth o fewn 14 diwrnod.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

## Cyffredinol

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i'r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o'r fath.

4. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae'n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy'r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

## Gweithdrefn

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o'i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i'r

Swyddog Monitro yn egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo'r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn:

- rhoi copi o'r ymateb llawn i'r achwynydd;

- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â'r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i'r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i'r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i'r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â'r mater, neu'n aildrefnu.

15. Pe bai'r achwynydd, neu'r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda'r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda'r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o’r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank